

Y Comisiwn Masnach ac Amaeth

# Adroddiad Terfynol

Mawrth 2021

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair y Cadeirydd | 4 |
| Crynodeb gweithredol | 6 |
| Argymhellion | 14 |
| Y Comisiwn | 22 |
| 1. Cyflwyniad | 28 |
| 2. Goblygiadau gadael yr Undeb Ewropeaidd | 38 |
| 3. Strategaeth masnach bwyd-amaeth | 44 |
| 4. Yr hinsawdd, yr amgylchedd, lles anifeiliaid a masnach foesegol | 54 |
| 5. Safonau | 70 |
| 6. Rhyddfrydoli a diogelu safonau | 80 |
| 7. Seiliau i fesurau masnach effeithiol | 88 |
| 8. Cystadleurwydd allforio | 96 |
| 9. Cystadleurwydd mewnforio | 108 |
| 10. Tryloywder | 114 |
| 11. Gwledydd sy'n datblygu | 120 |
| 12. Rhagolygon hirdymor | 126 |
| Atodiadau | 132 |

# Rhagair y Cadeirydd

**Ym mis Gorffennaf 2020, fe'm gwahoddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach Ryngwladol, y Gwir Anrhydeddus Liz Truss AS, i gadeirio corff annibynnol newydd, y Comisiwn Masnach ac Amaeth. Bu galw mawr cynyddol ar gyfer Comisiwn o'r fath dros y blynyddoedd diwethaf ac roedd amseriad ein sefydlu yn gwneud synnwyr.**

Ein tasg oedd cynghori Llywodraeth y DU ar y ffordd orau o hyrwyddo buddiannau ffermwyr, cynhyrchwyr bwyd a defnyddwyr Prydain mewn cytundebau masnach yn y dyfodol. I rai gallai hyn ymddangos yn gymharol syml, ond yn bendant nid yw hynny'n wir. Mae darparu set o argymhellion sy'n cydbwyso rhyddfrydoli masnach â'r hyn sydd bwysicaf i ddinasyddion y DU ac sy'n deg i sector bwyd-amaeth y DU yn dipyn o gamp. Ond mae hyn yn ymwneud â'r dyfodol a bydd y cenedlaethau nesaf yn ein beirniadu ar y blaenoriaethau a bennir gennym yn awr. Nid yw'r hyn rydym yn ei gynnig yn rhywbeth tymor byr a bydd rhai cydrannau yn cymryd amser i'w gweithredu.

Mae dod yn wladwriaeth fasnachu annibynnol am y tro cyntaf ers dros 40 mlynedd yn gyfle mawr. Gall allforwyr y DU chwilio am farchnadoedd newydd a gall y DU helpu i lunio'r rheolau sy'n rheoli masnach ryngwladol.

Nid oedd cychwyn fel partner masnachu allanol i'r UE yng nghanol pandemig byd-eang byth yn mynd i fod yn hawdd. Bydd yn rhaid i fusnesau bwyd-amaeth, yn debyg i lawer o fusnesau eraill, wneud addasiadau i barhau yn gystadleuol. Rydym yn edrych yn fanwl ar yr opsiynau, ond wedi archwilio'r sefyllfa, rydym yn dod i'r casgliad na fydd pawb ar ei ennill.

Wrth i'r amgylchedd masnachu esblygu, mae ymddygiad defnyddwyr a'r dewisiadau y maent yn eu gwneud yn esblygu hefyd. Mae llawer mwy o ymwybyddiaeth o effaith ffermio a chynhyrchu bwyd ar yr amgylchedd. Mae defnyddwyr eisiau gwybod o ble mae eu bwyd yn dod a sut y cafodd ei gynhyrchu. Maent eisiau cael sicrwydd bod anifeiliaid yn cael eu trin yn drugarog a bod hawliau gweithwyr yn cael eu diogelu. Mae llai o oddefgarwch am y symiau enfawr o fwyd sy'n cael eu gwastraffu mewn rhai rhannau o'r byd er bod miliynau yn llwgu mewn mannau eraill.

Y cwestiwn yr oedd yn rhaid i ni ei ofyn i ni ein hunain, felly, oedd sut i sicrhau sector ffermio cystadleuol wrth ddarparu bwyd fforddiadwy a gynhyrchir mewn modd cynaliadwy. Nid oes unrhyw atebion hawdd. Rydym yn gwybod y gallai hyn fod wedi troi'n ymarfer academaidd gydag allbynnau afrealistig. Felly, gwnaethom wirio bod yr hyn yr oeddem yn ei gynnig yn cydymffurfio â rheolau rhyngwladol a'i fod yn ymarferol. Yna gwnaethom asesiadau ynghylch sut y byddai ein partneriaid masnach posibl yn edrych ar ddull gweithredu'r DU. Credwn fod ein hargymhellion yn pasio'r tri phrawf hynny.

Gwnaethom ddechrau ar y sail bod angen dull hirdymor o fwydo'r DU, gan ganolbwyntio ar 3 maes allweddol – bwyd fforddiadwy, diogelu'r amgylchedd a helpu'r rhai sydd am fyw bywydau iachach mewn system sy'n deg i bawb sy'n cymryd rhan.

Mae arnom angen polisi masnach yn y DU hefyd sy'n creu system ffermio deg a diogel i bawb. Mae hyn yn golygu na fydd ras i'r gwaelod, dim llithro'n ôl na throi'r cloc yn ôl ar safonau ac uchelgais i chwarae rhan flaenllaw mewn materion amaethyddol rhyngwladol.

Ein nod oedd gosod yr egwyddorion, y strategaethau a'r amcanion y bydd eraill yn eu defnyddio i'n mesur wrth ddod i gytundebau masnach. Er mwyn helpu i lywio ein ffordd o feddwl, gofynnwyd am farn a syniadau ffermwyr, busnesau, cyrff masnach, sefydliadau academaidd a chymdeithas sifil a chynrychiolwyr etholedig ar draws y Deyrnas Unedig. Ymatebodd dros 400 i arolwg o dystiolaeth neu gwnaethant gymryd rhan mewn trafodaethau bwrdd crwn rhithwir a sioeau teithiol rhanbarthol yn Lloegr a'r gwledydd datganoledig.

Casglodd ein gweithgorau ar gystadleurwydd, safonau a materion defnyddwyr dystiolaeth gan arbenigwyr ym maes bwyd-amaeth, lles anifeiliaid a'r amgylchedd. Rhoddodd arbenigwyr polisi masnach a thrafodwyr masnach gyngor i ni hefyd. Dywedwyd wrthym fod ein proses ymgysylltu yn rhagorol o ran ei chyrhaeddiad ond, yn bwysicach, roedd ansawdd y dealltwriaethau a gawsom yn gwneud ein tasg ychydig yn haws. Rydym yn hynod werthfawrogol o bawb sydd wedi cyfrannu gwybodaeth arbenigol i'n helpu i lunio ein hargymhellion sydd, yn ein barn ni, yn arloesol, yn weithredol ac yn bragmatig.

Cawsom ein sefydlu yn Gomisiwn annibynnol, anwleidyddol. Mae hyn wedi ein galluogi i ystyried barn arbenigwyr proffiadol iawn, a ddaeth â safbwyntiau o bob rhan o'r sectorau amaethyddol a masnach. Rydym wedi cael trafodaethau cadarn trwy gydol y broses. Nid ydym wedi cytuno â'n gilydd bob amser, ond mae'r ymrwymiad ar y cyd i'n cenhadaeth wedi bod yn allweddol wrth ddod i gasgliadau cyffredin sy'n cael eu hadlewyrchu yn yr adroddiad hwn.

Oherwydd cyfyngiadau COVID-19, cynhaliwyd holl gyfarfodydd y Comisiwn a digwyddiadau ymgysylltu allanol yn rhithwir. Mewn rhai ffyrdd, roedd hyn yn ein galluogi i ymgysylltu â phobl o bob cwr o'r DU a thu hwnt. Ond roedd yn drueni na fu i aelodau'r Comisiwn byth gyfarfod yn gorfforol, ar wahân i rai yn ein digwyddiad lansio.

Hoffwn ddiolch hefyd i'r tîm ymroddedig a roddai gefnogaeth i'n trafodaethau, gan ein cadw yn drefnus ac a weithiodd yn ddiflino i greu'r ddogfen hon.

Roedd cael gwasanaethu fel Cadeirydd y Comisiwn Masnach ac Amaeth yn bleser mawr.

**Tim J Smith**





**"Mae darparu set o argymhellion sy'n cydbwyso'n iawn ryddfrydoli masnach â'r hyn sydd bwysicaf i ddinasyddion y DU ac sy'n deg i sector bwyd-amaeth y DU yn dipyn o gamp."**

# Crynodeb gweithredol

**Rydym ar groesffordd.**

Mae partneriaid masnachu yn credu bod ymagwedd gwladwriaeth tuag at ryddfrydoli masnach mewn nwyddau amaethyddol yn rhywbeth totemaidd; yn brawf litmws. Mae'r hyn y mae'n rhaid inni ei ddatrys yn broblem anodd iawn. Rydym yn ceisio dod o hyd i lwybr y gallwn ei ddefnyddio i goleddu strategaeth fasnach agored a gafodd ei rhyddfrydoli yn hyderus, ac ymagwedd wirioneddol gilyddol tuag at drafodaethau. Yn y cyfamser, rydym yn ceisio diogelu safonau pwysig mewn ffordd nad yw'n warchodol nac yn llurgunio masnach. Mae'n llwybr sy'n addo y byddwn yn dangos arweiniad gwirioneddol ar faterion, amgylcheddol, moesegol a lles ac ar yr hinsawdd. Ni fyddwn yn tanseilio degawdau o gynnydd cadarn, a enillwyd trwy waith caled, ac ni fyddwn yn symud effeithiau'r defnydd o fwyd yn y DU dramor. Mae'r ymagwedd hon yn mynnu ein bod yn rhoi eglurder yn ein gweledigaeth, ein hegwyddorion a'n hargymhellion. Os ydym yn uchelgeisiol ac yn gadarnhaol yn ein hagwedd, byddwn yn trechu'r perygl o syrthni.

Mae'r DU wedi bod yn llywio llwybr drwy rai o'r wythnosau a'r misoedd mwyaf ansicr y mae unrhyw un ohonom wedi'u profi yn ystod ein hoes. Pan ddechreuodd y Comisiwn hwn ar ei waith ym mis Gorffennaf 2020, nid oedd y broses ddiflino gymhleth o ddod i gytundeb â'r UE wedi dod i ben. Roedd COVID-19 yn rhoi pwysau digynsail ar ein gwasanaethau cyhoeddus, busnesau a phobl. Ond wrth i ni baratoi'r adroddiad hwn ar ddechrau'r flwyddyn newydd, mae ymdeimlad o optimistiaeth newydd am yr hyn sydd o'n blaenau. Mae Cytundeb Masnach a Chydweithredu UE-DU yn golygu bod y DU yn gadael undeb tollau yr UE a marchnad sengl gyda fframwaith clir, sy'n rhoi trefniant cwota sero tariff yn ei ganol. Mae'n garreg filltir hollbwysig, ac er bod cyfnod anochel o addasu ac aflonyddwch cychwynnol, mae'r cytundeb wedi rhoi sicrwydd i'r DU. Yn y cyfamser, mae COVID-19 yn parhau i fod yn gefndir i fywydau bob dydd, ond mae'r rhaglen frechu yn rhoi gobaith i bob un ohonom y byddwn yn dychwelyd i fywyd normal.

Dros y misoedd diwethaf hyn, mae ein system bwyd a ffermio wedi parhau'n gadarn ac yn gryf. Mae hyn yn dyst i arbenigedd a phenderfyniad y sector a'r strwythurau cadwyn gyflenwi sydd wedi esblygu dros ddegawdau. Ar ôl pwl cychwynnol o banig, mae defnyddwyr i raddau helaeth wedi cael mynediad parhaus at y bwyd amrywiol, o ansawdd uchel a fforddiadwy y maent yn gyfarwydd ag ef. Os rhywbeth, mae bwyd wedi mynd yn ffocws sydd hyd yn oed yn fwy canolig i fywyd bob dydd. Nid bychanu rhai o'r heriau yw hynny; mae tlodi bwyd yn broblem a ddylai fod yn rhywbeth a geir mewn llyfrau hanes yn unig erbyn hyn. Mae ein sector lletygarwch wedi cael ei daro yn arbennig o galed. Yn anad dim, mae'r sefyllfa gyfan wedi ein hatgoffa na ddylem gymryd ein cyflenwad bwyd yn ganiataol.

Rydym bellach yn cychwyn ar gyfnod newydd, fel gwladwriaeth annibynnol, cyfnod o lunio a chyflwyno polisi masnach blaengar newydd. Gall y DU gyflwyno ei gweledigaeth ar gyfer masnachu i'r byd. Gallwn wneud datganiad clir am ein blaenoriaethau, lefel ein huchelgais, sut rydym am i'n cadwyni gwerth byd-eang weithio a'r hyn yr ydym am ei gyflawni gyda'n partneriaid masnachu. Mae'n rhaid i ni wneud hyn yn gyflym ond mewn ffordd bwyllog a meddylgar. Mae'r byd yn ein gwylio gyda diddordeb i weld pa lwybr y cymerwn. Bydd yr hyn a wnawn yn y misoedd nesaf yn pennu'r naws am beth amser i ddod. Mae angen i ni nodi na fyddwn yn parhau i gael ein cyfyngu gan ein cyn-aelodaeth o'r UE, a'n bod yn wirioneddol agored i berthnasau masnachu newydd sydd wedi'u rhyddfrydoli. Mae 2021 hefyd yn flwyddyn allweddol ar gyfer ymgysylltu rhyngwladol. Mae ein Llywyddiaeth o'r G7 a'n rôl fel y wladwriaeth sy'n cynnal y COP26 yn rhoi cyfuniad unigryw o gyfleoedd inni ddangos cryfder ac arweinyddiaeth.

Mae hyn yn dod â ni yn ôl at yr her allweddol a nodwyd ar y dechrau. Mae angen i ni fod yn glir ynghylch ein strategaeth a chreu cydlyniad ar draws adrannau gwahanol y llywodraeth, cyn i ni eistedd wrth y bwrdd trafod.

Mae'n amlwg bod y sector ffermio ymhlith y rhai y mae gadael yr EU yn cael yr effaith fwyaf arnynt. Mae'r newid o ddegawdau o gymhorthdal a rheolaeth trwy'r Polisi Amaethyddol Cyffredin yn golygu y bydd angen i'r sector ailraddnodi i sefyllfa gwbl gystadleuol. Bydd y diwydiant yn ailstrwythuro a bydd llawer, ond nid pob un, yn addasu. Mae llawer yn y fantol; nid cynhyrchwyr bwyd yn unig yw ein ffermwyr, ond ceidwaid ein cefn gwlad, ein hamgylchedd naturiol a'n bioamrywiaeth, ac yn gonglfeini cymunedau gwledig. Bydd masnach yn allweddol i fod yn gystadleuol, ac mae disgwyliadau'r sector o gyfleoedd allforio newydd yn uchel. Mae'n disgwyl datgloi amrywiaeth o gyfleoedd newydd ar gyfer cig, llaeth, grawnfwydydd, pysgod, wisgi a llu o gynhyrchion eiconig eraill y DU.

Mae ein defnyddwyr, er eu bod yn blaenoriaethu pris, hefyd yn cael eu cyffroi gan y posibilrwydd o gael mwy o ddewis o gynhyrchion o bob cwr o'r byd. Rydym i gyd yn dod yn fwyfwy chwilfrydig ynglŷn ag o ble mae ein bwyd yn dod a sut mae'n cael ei gynhyrchu. Yn gynyddol, mae ôl troed amgylcheddol, ffactorau moesegol a lles anifeiliaid yn arwain ein penderfyniadau. Mae tryloywder yn hanfodol ar draws y gadwyn gyflenwi. Mae'r gallu i olrhain yn darparu gwybodaeth ynghylch tarddiad. Mae gan labelu rôl, ac yn benodol mae labeli gwlad y tarddiad a chynlluniau sicrwydd trydydd parti yn darparu ffyrdd cyfleus o ddangos bod y cynnyrch wedi cyrraedd safon benodol. Ymhlith yr enghreifftiau cyfarwydd byddai Masnach Deg, Tractor Coch a Chynghrair y Fforestydd Glaw. Ond, gyda bywydau prysur, yn aml nid oes gan bobl amser i graffu ar y pethau y maent yn eu prynu ac mae maent yn disgwyl y sicrwydd bod gan y llywodraeth hyn o dan reolaeth ac y gallant siopa'n ddirwystr gan wybod bod safonau sylfaenol yn cael eu cadw a bod modd olrhain y bwyd drwy'r gadwyn gyflenwi.

I rai, cafodd yr hyder hwn yn y fframwaith safonau ei erydu yn ddiweddar. Safonau amgylcheddol, moesegol a lles anifeiliaid uchel sydd wedi cael eu creu yn ein system fwyd ddomestig, dros ddegawdau lawer. Ymddengys eu bod dan fygythiad oherwydd effaith niweidiol bosibl llofnodi cytundebau â gwledydd yr ymddengys fod eu safonau bwyd yn wannach na'n safonau ni. Mae undebau ffermio, busnesau, cymdeithas sifil, grwpiau defnyddwyr ac enwogion wedi ceisio diogelu'r safonau pwysig hyn.

Mewn ymateb, rydym wedi mynegi gweledigaeth o'r llwyddiant y dylai Llywodraeth y DU anelu ato yn y dyfodol wrth ddatblygu a defnyddio strategaeth fasnach. Adlewyrchir y weledigaeth hon mewn cyfres o 6 egwyddor yr ydym yn awgrymu y dylent arwain y llywodraeth yn y gwaith hwn.

## "Rydym bellach yn cychwyn ar gyfnod newydd, fel gwladwriaeth fasnachu annibynnol"



# Y weledigaeth

**"Mae gan y DU bolisi masnach uchelgeisiol sy'n cyfrannu at system ffermio a bwyd fyd-eang sy'n deg ac y mae pawb sy'n cymryd rhan ynddi, gan gynnwys ffermwyr, busnesau a dinasyddion, yn ymddiried ynddi o'r tarddiad hyd at y defnydd terfynol. Mae ein bwyd yn ddiogel, yn iach, yn fforddiadwy, yn cael ei gynhyrchu mewn ffordd nad yw'n niweidio'r blaned, sy'n parchu urddas anifeiliaid ac yn rhoi elw priodol i'r rhai sy'n cymryd rhan."**

# Yr egwyddorion

**Dylai'r DU anelu at:**

- hyrwyddo rhyddfrydoli masnach, i ddylanwadu'n gadarnhaol ar arloesedd a chynhyrchiant, a phris a dewis i ddefnyddwyr
- blaenoriaethu sector bwyd-amaeth domestig ffyniannus a gefnogir gan bolisïau domestig a masnach sy'n ategu ei gilydd
- sicrhau bod mewnforion bwyd-amaeth yn cyrraedd safonau perthnasol y DU a rhyngwladol o ran diogelwch bwyd a bioddiogeledd
- paru mynediad di-dariff i'r farchnad gyda'r hinsawdd, yr amgylchedd, lles anifeiliaid a safonau moesegol perthnasol, gan unioni materion ynghylch cystadleuaeth sy'n codi pan nad yw mewnforion a ganiateir yn bodloni safonau perthnasol y DU a rhyngwladol
- arwain newid, pan fydd ei angen, i'r fframwaith rhyngwladol o reolau ar fasnach a safonau perthnasol, i fynd i'r afael â heriau byd-eang newid hinsawdd a dirywiad amgylcheddol
- cefnogi gwledydd sy'n datblygu i gael mynediad at fanteision llawn y system fasnachu fyd-eang

Er mwyn gwireddu'r weledigaeth o bolisi masnach uchelgeisiol sy'n parchu'r egwyddorion yr ydym wedi'u nodi, rydym wedi datblygu cyfres o argymhellion ar gyfer gweithredu mewn 5 maes. Mae'r rhain wedi'u cynllunio i atgyfnerthu eu heffaith ar ei gilydd, a chredwn fod angen i Lywodraeth y DU weithredu ar draws yr holl feysydd hyn.

**Yn gyntaf, rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y DU ddatblygu strategaeth fasnach bwyd-amaeth feiddgar ac uchelgeisiol.** Byddai hyn yn galluogi dull cydlynol o ymdrin â'r sector sy'n parchu gwahanol gyfrifoldebau Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig ac yn darparu fframwaith o flaenoriaethau ar gyfer trafodaethau masnach yn y dyfodol. Dylai'r strategaeth fod yn seiliedig ar ddull rhyddfrydoli tuag at bolisi masnach, gan ganolbwyntio ar ddod â chyfleoedd newydd i fusnesau yn y DU, ar yr amod ei fod yn diogelu safonau pwysig. Byddai angen i'r strategaeth fasnach bwyd-amaeth gael ei fframio yng nghyd-destun strategaeth fwyd ehangach y DU.

Dylai strategaeth masnach bwyd-amaeth fod yn gatalydd ar gyfer dwyn ynghyd fuddiannau ac ymdrechion holl adrannau perthnasol Llywodraeth y DU ar draws bwyd-amaeth, masnach a datblygu.

Yr ydym wedi canolbwyntio'n benodol ar yr angen i gydbwyso rhyddfrydoli â pheidio â thanseilio safonau amgylcheddol a lles anifeiliaid DU sy'n arwain y byd. Argymhellwn felly y dylai llywodraeth y DU fabwysiadu ymagwedd tuag at fewnforion a fyddai'n cyd-fynd â'i hymagwedd gyffredinol tuag at ryddfrydoli masnach a cheisio i ostwng ei dariffau a'i gwotâu i sero o fewn cytundebau masnach dros gyfnod rhesymol o amser. Byddai hyn yn dibynnu ar fewnforion yn cyrraedd y safonau uchel o ran cynhyrchu bwyd a ddisgwylir gan gynhyrchwyr y DU. Byddai'n ddeinamig, gan gydnabod y rhyngweithio rhwng polisi masnach cyffredinol, darpariaethau cytundebau masnach rydd penodol a llwyddiant eiriolaeth y DU ar gyfer lles anifeiliaid, safonau amgylcheddol a moesegol mewn fforymau rhyngwladol. Byddai'n cynnwys mesurau diogelu rhag llurguniad masnach gwrth-gystadleuol. Rydym yn cydnabod bod hwn yn gynnig arloesol, ond rydym wedi cael ein hysbrydoli gan ddarpariaethau cyfochrog yng Nghytundeb Masnach a Chydweithredu UE-DU. Mae ein cynnig yn llai radical ac mae'n bosibl ei fod yn llai dadleuol gyda phartneriaid masnachu nag y byddai wedi bod ychydig fisoedd yn ôl.

Gwyddom y dylem fod yn ymarferol a chydnabod bod Llywodraeth y DU yn parhau i drafod nifer o gytundebau masnach rydd gyda gwledydd fel UDA, Awstralia a Seland Newydd ar hyn o bryd. Byddai heriau o ganlyniad i newid y dull hwn yn y tymor byr. Mae ein hargymhelliad yn ddyhead strategol ar gyfer polisi masnach y DU yn y tymor canolig a'r tymor hwy.

**Yn ail, mae ein gweledigaeth yn gofyn am arweinyddiaeth ryngwladol gref gan y DU.** Mae hyn yn arbennig o hanfodol o ran gweithredu i ddatrys yr argyfwng hinsawdd. Er mwyn i fasnach fyd-eang ffynnu yn y dyfodol, rhaid ei gwneud yn fwy cynaliadwy ac yn gallu gwrthsefyll ergydion allanol. Mae'n rhaid i'r DU ddwyn pwysau ar fforymau rhyngwladol a gweithio gyda phartneriaid rhyngwladol i godi safonau yn ymwneud â'r hinsawdd a'r amgylchedd. Mae hyn yn gofyn am ymrwymiad clir a chamau gweithredu ystyrlon.

Mae angen i'r DU fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd ar gyfer arweinyddiaeth fyd-eang y mae 2021 yn eu darparu. Eleni, mae'r DU yn cymryd rhan flaenllaw yn y G7, yn COP26 ac yn COP15. Yn y fforymau hyn, gall y DU ddangos arweiniad o ran datrys yr argyfwng hinsawdd a hefyd ar faterion lles anifeiliaid, hawliau llafur, masnachu moesegol a gwrthsefyll ymwrthedd gwrthficrobaidd.

Rydym yn rhoi awgrymiadau ymarferol ynghylch sut y gellid cyflawni hyn. Dylai dull y DU mewn fforymau rhyngwladol fod yn fwy beiddgar a chael ei danddatgan yn llai a dylem ddefnyddio ein pobl orau yn y lleoliadau hyn. Dylem ddod o hyd i gyfleoedd ar gyfer atebion sy'n fuddiol i'r ddwy ochr gyda gwledydd sy'n datblygu. Dylem feithrin cefnogaeth ar gyfer dull sy'n seiliedig ar wyddoniaeth a gweithio o fewn normau y cytunwyd arnynt yn rhyngwladol, tra ydym yn cydnabod lle mae angen i ni herio'r sefyllfa sydd ohoni.

**Yn drydydd, dylai Llywodraeth y DU barhau i gryfhau ei dull o drafod Cytundebau Masnach Rydd (FTAs).** Rydym yn cydnabod i'n timau negodi yn y DU drafod a chyflwyno cytundebau masnach newydd a chytundebau parhad ar gyflymder digynsail. Nodwyd gennym rai arferion cadarnhaol a gynhwysir yng Nghytundeb Masnach a Chydweithredu UE-DU a ddylai lywio ein huchelgeisiau ar gyfer FTAs gyda phartneriaid masnachu eraill. Wrth wneud hynny, nid ydym wedi tanystyried yr heriau sydd ynghlwm â chyrraedd cytundebau masnach blaengar, ac nid ydym yn bwriadu rhwymo dwylo ein trafodwyr yn ddiangen.

Mae angen i Lywodraeth y DU barhau â'i gwaith i ddatblygu dulliau effeithiol o graffu a dadansoddi FTAs. Dylai asesiadau effaith gynnwys dadansoddiad ansoddol o effeithiau pan fydd prinder mesurau meintiol, gan gynnwys mewn perthynas â'r amgylchedd a lles anifeiliaid. Dylai mandadau ar gyfer FTAs adlewyrchu ymgynghori ac ymgysylltu eang, gan gynnwys gyda gweinyddiaethau datganoledig. Mae angen i ni gryfhau prosesau ar gyfer archwilio, sicrwydd ac ardystio sy'n seiliedig ar risg.

**Yn bedwerydd, dylai Llywodraeth y DU roi mwy o egni ac adnoddau i allforio, mynediad i'r farchnad a marchnata.** Mae'r rhain yn rhagofynion hanfodol ar gyfer cynyddu allforion bwyd-amaeth y DU y tu hwnt i drafod cytundebau masnach.

Gwyddom fod 'cynnig' bwyd y DU yn un o ansawdd, o olrheinedd, o dreftadaeth, o ddiogelwch ac o safonau amgylcheddol ac o les uchel. Dylai dull cryfach newydd o allforio nodi'n systematig gynnig a chyfleoedd domestig y DU dramor a thargedu adnoddau yn unol â'r rheiny. Dylai fanteisio ar rwydwaith tramor llywodraeth y DU i ddenu diddordeb newydd yn nhechnoleg bwyd-amaeth y DU.

Gall y Llywodraeth ddefnyddio ei dylanwad gwleidyddol i agor drysau; gall busnesau adeiladu'r cadwyni cyflenwi a'r rhwydweithiau i fasnachu. Bydd cydweithio rhwng y llywodraeth a diwydiant, ar draws y DU gyfan, yn ein galluogi i gynyddu i'r eithaf bob cyfle a gaiff ein sector bwyd-amaeth i allforio. Ein huchelgais yw gwneud ein heffaith gyfunol yn fwy na swm yr hyn y gellid ei gyflawni ar wahân.

**Yn bumed, dylai Llywodraeth y DU alinio ei pholisïau masnach, cymorth a hinsawdd sy'n ymwneud â bwyd-amaeth.** Mae'n rhaid i'r polisïau hyn gydweithio i gryfhau ein perthynas â gwledydd sy'n datblygu dros amser, i amrywio ein cyflenwad bwyd, i gefnogi ein nodau diogeledd bwyd ac i gefnogi ffyniant economaidd y gwledydd hynny. Wrth adolygu'r polisïau hyn, dylai Llywodraeth y DU fanteisio ar ymgysylltiad strwythuredig â llywodraethau, busnesau bwyd-amaeth ac elusennau mewn gwledydd sy'n datblygu ac â busnesau bwyd-amaeth yn y DU sydd â diddordebau mewn gwledydd sy'n datblygu.

I grynhoi, mae'n rhaid i bolisi masnach y DU fod yn uchelgeisiol ac mae angen i'r cytundebau sy'n cael eu trafod fynd i'r afael â materion y genhedlaeth nesaf, nid y genhedlaeth hon yn unig. Mae'n rhaid inni ganolbwyntio ar enillion tymor hir, nid ar hwylustod tymor byr. Mae angen i'r llywodraeth a busnes addasu, gan ddysgu'r gwersi o bandemig COVID-19 ac adlewyrchu'r newid ym mlaenoriaethau defnyddwyr a geir rhwng cenedlaethau.

Nid oes gennym yr amser i ohirio'r newidiadau hyn. Rydym wedi cynnig egwyddorion clir i arwain Llywodraeth y DU a fydd yn caniatáu i'r DU symud ymlaen yn hyderus gyda strategaeth glir, sy'n cael ei gweithredu'n dda. Dylai hyn gael ei ategu gan ymrwymiad i system fwyd a ffermio deg a diogel i bawb, heb unrhyw ras i'r gwaelod na chefnu ar safonau. Dylai hefyd fod uchelgais gref i'r DU chwarae rhan flaenllaw mewn materion amaethyddol rhyngwladol a materion bwyd ac effaith economaidd gadarnhaol lle mae pawb yn teimlo budd o fasnach.

Rydym yn gweld cyfleoedd i bawb ac rydym yn optimistaidd ynghylch dyfodol y DU fel gwladwriaeth fasnachu annibynnol.



# Argymhellion

# Argymhellion

1

**Argymhelliad 1:**

Dylai Llywodraeth y DU ddatblygu strategaeth fasnach bwyd-amaeth feiddgar ac uchelgeisiol. Byddai hyn yn galluogi dull cydlynol o ymdrin â'r sector ar draws Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig ac yn darparu fframwaith o flaenoriaethau ar gyfer trafodaethau masnach yn y dyfodol. Dylai fod yn seiliedig ar ddull rhyddfrydoli tuag at bolisi masnach, gan ganolbwyntio ar ddod â chyfleoedd newydd i fusnesau yn y DU, ar yr amod ei fod yn diogelu safonau pwysig. Dylid ei fframio'n dda yng nghyd-destun strategaeth fwyd ehangach y DU.

2

**Argymhelliad 2:**

Dylai fod gweinidog sydd â chyfrifoldeb penodol i arwain ar fasnach bwyd-amaeth, a fyddai'n sicrhau cydlyniad polisi ar draws llywodraeth y DU. Byddai'r gweinidog yn arwain o ran pwyso am godi safonau byd-eang ar yr amgylchedd, lles anifeiliaid a masnach foesegol mewn fforymau rhyngwladol.

3

**Argymhelliad 3:**

Mae newid hinsawdd a phwysau amgylcheddol eraill o'r pwys mwyaf fel bod rhaid i Lywodraeth y DU sicrhau eu bod yn rhan annatod o'i pholisi masnach a'i thrafodaethau. Dylai hyrwyddo'r materion hyn mewn fforymau rhyngwladol, yn enwedig y COP26. Dylai gefnogi creu fframwaith safonau byd-eang ar gyfer yr amgylchedd a metrigau clir ar gyfer mesur cynaliadwyedd amgylcheddol, tra'n sefydlu cyfres gyfatebol o safonau cenedlaethol manwl gywir. Gallai Codex Planetarius yr WWF fod yn fodel i adeiladu'r uchelgeisiau hyn.

4

**Argymhelliad 4:**

Dylai'r DU fanteisio ar ei chryfderau o ran lles anifeiliaid i ddangos arweinyddiaeth yn y byd wrth ei ymgorffori mewn polisi masnach. Dylai llywodraeth y DU chwarae rôl arweiniol mewn fforymau rhyngwladol, i godi safonau lles anifeiliaid ledled y byd. Dylai wneud hyn drwy fuddsoddi mewn cyfleusterau arbenigol ac arbenigwyr a all roi cyngor annibynnol i'r llywodraeth. Yna, dylai ddatblygu perthnasau rhyngwladol a chyflwyno cynigion sy'n cael eu llunio'n ofalus, sy'n argyhoeddiadol ac yn seiliedig ar dystiolaeth.



5

**Argymhelliad 5:**

Mae'n bwysig mynd i'r afael ag ymwrthedd gwrthficrobaidd (AMR) yn unol â Chynllun Gweithredu Byd-eang yr WHO. Dylai llywodraeth y DU gymhwyso'r dull a gymerwyd yng Nghytundeb Cydweithredu UE-DU, ym mhob trafodaeth ynghylch masnach yn y dyfodol. Dylai hefyd fabwysiadu safiad cryf ar AMR mewn fforymau amlochrog ac yn Uwchgynhadledd Systemau Bwyd y Cenhedloedd Unedig yn ddiweddarach yn 2021.

6

**Argymhelliad 6:**

Dylai Llywodraeth y DU ymateb i'r newid amlwg yn agweddau'r cyhoedd tuag at fasnachu moesegol a nodi ei huchelgeisiau ar gyfer y sector bwyd-amaeth, i fod yn esiampl i sectorau eraill. Dylai gynnal asesiad o arferion gorfodi dramor, er mwyn rhoi perfformiad cerdyn sgorio rheolaidd ar wledydd sy'n allforio. Dylai geisio cynnwys pennod lafur a darpariaethau Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol ym mhob un o'r FTAs. Yn olaf, dylai sicrhau bod y DU yn arwain drwy esiampl ym Mhrydain. Bydd hyn yn cynnwys gwella cefnogaeth i Awdurdod Meistri Gangiau a Cham-drin Llafur y DU. Mae hefyd yn golygu galw ar ddiwydiant y DU i sicrhau bod cyflogau ac amodau teg yn cael eu darparu ar gyfer gweithwyr tymhorol.

7

**Argymhelliad 7:**

Dylai llywodraeth y DU geisio adeiladu cynghreiriau byd-eang i hyrwyddo a diogelu hawliau llafur gweithwyr mewn cadwyni cyflenwi allweddol. Mae ein hymchwil yn awgrymu y gallai'r DU ganolbwyntio'n gyntaf ar gadwyni cyflenwi ar gyfer bananas, reis, coco, coffi a the. Dylai weithio o fewn y Sefydliad Llafur Rhyngwladol (ILO), fel aelod sefydlol, i bwyso am i 8 Confensiwn sylfaenol yr ILO ddod yn asesiad o berfformiad ar hawliau llafur sy'n gysylltiedig â masnach, yn hytrach nag yn ymarfer cofrestru.

8

**Argymhelliad 8:**

Dylai Llywodraeth y DU fabwysiadu ymagwedd uchelgeisiol tuag at ryddfrydoli cyfundrefn tariff mewnforio'r DU, ar gyfer gwledydd sy'n gallu bodloni'r safonau uchel o gynhyrchu bwyd a ddisgwylir gan gynhyrchwyr y DU. Dylai weithio gyda phartneriaid masnachu o fewn trafodaethau Cytundebau Masnach Rydd yn y dyfodol i ostwng tariffau a chwotâu i sero lle dangosir cywerthedd ar gyfer y safonau hyn. Mae'n rhaid i'r safonau hyn gael eu halinio â safonau byd-eang craidd, a dylai Llywodraeth y DU gymryd rhan weithredol wrth gryfhau safonau drwy fforymau rhyngwladol.

9

**Argymhelliad 9:**

Dylai llywodraeth y DU gryfhau'r asesiad o effaith polisïau a chytundebau masnach drwy wella asesiad ansoddol ar iechyd, lles, bioddiogelwch a'r amgylchedd. Dylai modelu mewn asesiadau fynd y tu hwnt i lif masnach a mynd i'r afael â chanlyniadau ehangach megis effaith ar brisiau bwyd y DU. Dylai asesu cytundebau masnach â gwledydd sy'n datblygu asesu twf a datblygiad y wlad bartner, yn ogystal â'r DU.

10

**Argymhelliad 10:**

Dylai Llywodraeth y DU sicrhau bod ymgynghori ac ymgysylltu ar FTAs, o'r camau cynnar o sefydlu cytundeb arfaethedig a thrwy gydol y trafodaethau, yn dryloyw, yn drwyadl ac yn fanylach nag y maent ar hyn o bryd, er yn cydnabod yr angen am gyfrinachedd.

11

**Argymhelliad 11:**

Er mwyn sicrhau bod polisi masnach yn y dyfodol yn ysgogi ac yn meithrin ymddiriedaeth gyda phartneriaid masnachu, dylai llywodraeth y DU weithredu proses archwilio, sicrwydd ac ardystio gadarn sy'n seiliedig ar risg. Gallai hyn gynnwys rhwydwaith Masnachwyr Yr Ymddiriedir Ynddynt trwy gydol yr holl broses i leihau gwiriadau wrth ffiniau gan awdurdodau mewn gwledydd sy'n allforio ar lwythi wedi'u selio. Dylai'r DU archwilio'n llawn y defnydd o SMART yn ogystal â thechnoleg ddiweddar fel cadwyn blociau i leihau pwyntiau tensiwn ar y ffin ac ar hyd y gadwyn gyflenwi gyfan. Dylid cynnal asesiadau risg bwyd-amaeth yn y dyfodol mewn ffordd dryloyw, sy'n cynnwys cyhoeddi'r canfyddiadau, ar lefel nwyddau a gwladwriaeth.

12

**Argymhelliad 12:**

Dylai Llywodraeth y DU weithio gyda'r diwydiant i gynyddu buddsoddiad mewn gwybodaeth am farchnadoedd tramor a dealltwriaeth ohonynt. Dylai gynnal mapio systematig o fanteision cystadleuol y sector. Dylai adolygu sut y gallai annog mewnfuddsoddi a fyddai'n helpu i ehangu gallu masnachu'r DU. Dylid canolbwyntio'n benodol ar gyfleoedd i fusnesau bach a chanolig sy'n canolbwyntio ar fwyd amaeth.

13

**Argymhelliad 13:**

Dylai Llywodraeth y DU gefnogi a chymryd rhan mewn Cyngor Allforio Bwyd a Diod newydd, a fyddai'n dwyn ynghyd arweinwyr allforio Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban ym meysydd diwydiant a llywodraeth, gyda'r cadeirydd yn cylchdroi. Byddai'r Cyngor yn galluogi cydweithio ledled y DU, rhannu gwybodaeth ac adnoddau, cefnogi allforwyr a thrafodaethau mynediad i'r farchnad, a manteisio i'r eithaf ar y manteision o gydweithio wrth barchu'r dulliau gwahanol mewn gwahanol rannau o'r DU.

14

**Argymhelliad 14:**

Dylai Llywodraeth y DU weithio gyda'r Cyngor Sector Bwyd a Diod ynghylch cais y diwydiant am sefydlu corff allforio bwyd-amaeth arbenigol ar gyfer Lloegr. Byddai hyn yn darparu gwybodaeth fasnach un-stop, er mwyn rhoi'r cyfle gorau iddi lwyddo. Dylai'r Llywodraeth ddarparu cyllid ychwanegol cysylltiedig ar gyfer sefydliadau cenedlaethol presennol sy'n allforio bwyd a diod.

15

**Argymhelliad 15:**

Dylai llywodraeth y DU gynyddu cyflymder yr ymdrechion i ddileu rhwystrau mynediad i'r farchnad, drwy drafodaethau ynghylch FTA a diplomyddiaeth ehangach. Dylai weithio gyda'r sector bwyd-amaeth i benderfynu a ddylid rhoi cylch gwaith ehangach i Bartneriaeth Ardystio Allforion y DU (UKECP), sy'n cyfrannu at drafodaethau mynediad i'r farchnad a pharhad, ar gyfer dofednod, cynnyrch ffres a grawnfwydydd.

16

**Argymhelliad 16:**

Dylai Llywodraeth y DU gynyddu ei hadnoddau tramor yn gyflym, drwy ehangu ei rhwydwaith o arbenigwyr bwyd-amaeth mewn llysgenadaethau mewn marchnadoedd targed. Byddai'r arbenigwyr hyn yn rhan o'r rhwydwaith o staff masnach sy'n adrodd i Gomisiynwyr Masnach Ei Mawrhydi. Dylid gwneud hyn ar y cyd â sefydliadau allweddol yn y sector a' chyda eu cefnogaeth. Dylai'r arbenigwyr hyn ganolbwyntio ar fynediad i'r farchnad ac ar agor cyfleoedd masnachu.

17

**Argymhelliad 17:**

Dylai Llywodraeth y DU adolygu gweithgareddau marchnata a hyrwyddo ar gyfer allforion bwyd-amaeth, yn enwedig o dan faner yr ymgyrch GREAT. Dylai ganolbwyntio mwy ar ddatblygu ymgyrchoedd sy'n sensitif i anghenion gwledydd a rhanbarthau'r DU a hybu nwyddau sy'n berthnasol i farchnadoedd tramor penodol. Gellid gwneud hyn drwy'r Cyngor Allforio newydd arfaethedig ar y cyd â'r Gweinyddiaethau Datganoledig.

18

**Argymhelliad 18:**

Dylai Llywodraeth y DU adolygu'r cynllun caffael cyhoeddus presennol ar gyfer bwyd. Yn ogystal â sicrhau gwerth am arian ac am ddiwallu gofynion maeth, dylai wneud y gorau o'r cyfle i gyrchu bwyd o'r DU, ei gael mewn modd cynaliadwy a gwella tryloywder y broses a ddefnyddir i'w gael.

19

**Argymhelliad 19:**

Mae'n rhaid i Lywodraeth y DU a'r diwydiant bwyd gydweithio i wella gwybodaeth am y wlad tarddiad yn y cadwyni bwyd rhydd, yn y gwasanaeth bwyd a chadwyni cyflenwi o fewn y wladwriaeth. Bydd hyn yn ymateb i awydd defnyddwyr i gael mwy o hyder a thryloywder yn y cadwyni cyflenwi hynny. Dylai hyn ffurfio rhan o agenda ehangach i gefnogi'r cadwyni cyflenwi hyn wrth i'r wlad adfer ar ôl pandemig COVID-19.

20

### Argymhelliad 20:

Dylai Llywodraeth y DU gynnal ymgysylltiad strwythuredig â llywodraethau, busnesau bwyd-amaeth ac elusennau mewn gwledydd sy'n datblygu ac â busnesau bwyd-amaeth yn y DU sydd â diddordebau mewn gwledydd sy'n datblygu. Dylai fanteisio ar yr ymgysylltiad hwn er mwyn hwyluso'r gwaith o feithrin perthnasoedd a gwell dealltwriaeth ynghylch ble y byddai buddsoddiad y DU yn cael yr effaith fwyaf cadarnhaol. Dylai hefyd fod yn sail i gydweithio agosach rhwng y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu (FCDO), y DIT a Defra ar bolisi masnach bwyd-amaeth, rheoleiddio a gweithgarwch arall.

21

### Argymhelliad 21:

Dylai Llywodraeth y DU alinio ei pholisïau ynghylch masnach, cymorth a'r hinsawdd sy'n ymwneud â bwyd-amaeth. Dylai timau ar draws y llywodraeth sefydlu rhaglenni clir a phenodol i sicrhau eu bod yn cydweithio ar hyn ac yn alinio cyllidebau a blaenoriaethau. Dylid darparu cymorth penodol i fusnesau llai a chynhyrchwyr tlotach. Dylai eu helpu i wella'r gallu i wrthsefyll newid hinsawdd. Dylai eu helpu i fodloni safonau mewn marchnadoedd allforio fel y byddant yn gallu cael gwell mynediad at fanteision masnach fyd-eang. Dylai hefyd gael ei dargedu tuag at eu helpu i symud i faes 'gwerth ychwanegol' a geir o brosesu a phecynnu eu nwyddau crai eu hunain, a fydd yn creu twf economaidd parhaol.

22

### Argymhelliad 22:

Dylai Llywodraeth y DU fabwysiadu dull mwy beiddgar, mwy hyderus a mwy amlwg o weithio gyda gwledydd o'r un meddylfryd neu mewn trafodaethau lluosog neu amlochrog. Dylai gymhwyso hyn i ddylanwadu ar ddiwygiadau angenrheidiol i reolau rhyngwladol masnach a safonau. Dylai'r amcanion hyn gael eu hymgorffori mewn strategaeth gyffredin fel y gellir eu defnyddio yn yr holl drafodaethau a fforymau amlochrog perthnasol. Dylid cydnabod a chefnogi gweithgareddau rhyngwladol sefydliadau anllywodraethol (cyrff anllywodraethol) pan fyddant yn rhannu'r un weledigaeth.



# Y Comisiwn

## Dull

Yn haf 2020, roedd polisi masnach a thrafodaethau llywodraeth y DU yn dechrau ar gam cyflymach newydd, ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd ac wrth baratoi ar gyfer cytundeb cydweithredu.

Roedd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach Ryngwladol wedi penderfynu y byddai'r sector bwyd-amaeth yn flaenoriaeth i'r trafodaethau hynny. Mae hyn yn ganlyniad priodol i bwysigrwydd tyfu'r golofn hanfodol hon o economi'r DU, wrth iddi drawsffurfio o amgylchedd yr UE a reolir yn drwm ac sy'n derbyn cymhorthdal. Mae hefyd, fodd bynnag, yn faes lle mae'r fframwaith byd-eang o iechyd, diogelwch a safonau a rheolaethau eraill yn cyflwyno rhai o'r heriau mwyaf cymhleth i fynd i'r afael â nhw o fewn trefniadau masnachu newydd.

Ar y sail honno, penderfynodd yr Ysgrifennydd Gwladol y dylid ymgysylltu'n arbennig â grwpiau sydd â diddordeb ym mholisi masnach amaethyddol Prydain, fel y byddai ffermio wrth wraidd polisi. Sefydlodd y Comisiwn Masnach ac Amaeth i ystyried sut y gellid datblygu buddiannau bwyd-amaeth ac y gallai'r sector bwyd a ffermio barhau i fod ymhlith y rhai mwyaf cystadleuol ac arloesol yn y byd. Yn benodol, i ystyried sut y gallai'r DU achub cyfleoedd allforio newydd i'n ffermwyr, gan gynnal ei safonau amgylcheddol, lles anifeiliaid a moesegol sy'n arwain y byd.

Lansiodd yr Ysgrifennydd Gwladol y Comisiwn Masnach ac Amaeth i weithredu fel bwrdd ymgynghorol cwbl annibynnol â chyfnod penodol ac i gynhyrchu adroddiad a fyddai yn gwneud y canlynol:

1. ystyried polisïau y dylai llywodraeth y DU eu mabwysiadu mewn cytundebau masnach rydd er mwyn:
   - sicrhau cyfleoedd i ffermwyr y DU a sicrhau bod y sector yn parhau i fod yn gystadleuol
   - sicrhau nad yw safonau lles anifeiliaid a safonau amgylcheddol cynhyrchu bwyd yn cael eu tanseilio na'u gwanhau
2. ystyried sut y dylai'r DU gynnwys Sefydliad Masnach y Byd (WTO) i adeiladu cynghrair a fyddai'n helpu i ddatblygu safonau lles anifeiliaid uwch ledled y byd
3. datblygu polisi masnach a fyddai'n nodi ac yn agor cyfleoedd allforio newydd i ddiwydiant amaethyddol y DU, yn enwedig i fusnesau bach a chanolig eu maint, ac o fudd i economi'r DU yn gyffredinol
4. adlewyrchu buddiannau defnyddwyr a buddiannau gwledydd sy'n datblygu

Penododd yr Ysgrifennydd Gwladol aelodau ein Comisiwn yn seiliedig ar ein harbenigedd a'n profiad cyfunol mewn amrywiaeth o feysydd sy'n berthnasol i bolisi bwyd-amaeth a masnach.

Er mwyn llywio ein gwaith, sefydlwyd 3 gweithgor i ystyried materion sy'n berthnasol i gystadleurwydd, diddordebau a safonau grwpiau defnyddwyr yn fanwl. Roedd y gweithgorau yn cynnwys dros 40 o arbenigwyr o fyd busnes, cymdeithas sifil, defnyddwyr, y byd academaidd a meysydd ehangach o bob cwr o'r DU. Gyda'i gilydd, roeddent yn darparu syniadau, gwybodaeth am y sector ac arbenigedd technegol dros nifer o wythnosau a helpodd i lunio llawer o'n casgliadau. [Atodiad 1].

Y tu hwnt i'n gwaith technegol manwl, roeddem am fesur barn cynulleidfa oedd hyd yn oed yn ehangach. Yn ystod yr hydref yn 2020, cynhaliwyd cyfres o fforymau rhithwir ar les anifeiliaid, yr amgylchedd a masnach foesegol a sioeau teithiol rhanbarthol yn canolbwyntio ar bob un o ranbarthau Lloegr, yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon. Mynychwyd y rhain gan ffermwyr, cynhyrchwyr bwyd, busnesau bach a mawr, arbenigwyr bwyd-amaeth a chynrychiolwyr gwleidyddol lleol o bob cwr o'r DU. Fe wnaethom hefyd gyhoeddi galwad am dystiolaeth ysgrifenedig a derbyn ymatebion gan 90 o sefydliadau. Roedd pob un o'r cyfraniadau hyn yn werthfawr iawn i'n ffordd o feddwl. [Atodiad 2].

Rhwng Gorffennaf 2020 a Chwefror 2021, gwnaethom ystyried y blaenoriaethau allweddol y dylai Llywodraeth y DU fynd i'r afael â hwy er mwyn sicrhau'r canlyniad gorau i sector bwyd-amaeth Prydain yn ei bolisi masnach a'i drafodaethau yn y misoedd a'r blynyddoedd i ddod. Mae'r adroddiad hwn yn adolygiad cyflym a hyblyg yn sgil y cyfnod hwnnw o fyfyrio ac fe'i cyflwynir fel adroddiad ymgynghorol i'r Ysgrifennydd Gwladol, i'w ystyried.





**"Mae sector bwyd a ffermio y DU yn parhau i fod ymysg y rhai mwyaf cystadleuol ac arloesol yn y byd."**

## Cwmpas

Rydym wedi mabwysiadu dull cyfannol o ystyried y sector bwyd-amaeth, gan adlewyrchu'r ffaith bod angen i bolisi Llywodraeth y DU wneud yr un peth. Mae ein hymgysylltiad ag unigolion a sefydliadau wedi cynnwys y sector cyfan, o 'fferm i fforc', gan gynnwys ffermwyr, proseswyr, gweithgynhyrchwyr, manwerthu a lletygarwch, ac yn cwmpasu bwyd i gynnyrch technoleg amaeth. Roedd aelodaeth y Comisiwn, cyfansoddiad ein Gweithgorau a'r rhai a ddewiswyd gennym i ddarparu tystiolaeth bersonol, yn adlewyrchu'r dull hwn.

Penderfynodd yr Ysgrifennydd Gwladol na ddylai'r Comisiwn fynd i'r afael â materion diogelwch bwyd neu iechyd, yn benodol y rheoliad diogelwch bwyd a phorthiant anifeiliaid sy'n gyfrifoldeb i'r Asiantaeth Safonau Bwyd, Safonau Bwyd yr Alban a'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Yn yr un modd, mae ystyried polisi ar ddiogelwch bwyd, iechyd dynol a maeth wedi bod y tu hwnt i'n cwmpas i raddau helaeth. Ar adegau roedd hyn yn rhwystredigaeth oherwydd y rhyngddibyniaethau mewn polisi a chymhwyso gweithredol rhwng masnach, diogeledd bwyd i'r cartref, diet a maeth. Rydym wedi parchu terfynau cwmpas ein cylch gwaith ond rydym yn cydnabod yn llawn y cysylltiadau pwysig rhwng y materion polisi bwyd hyn.


Ers i'r DU adael yr UE, mae'n ddealladwy bod rhywfaint o ddyfalu ymhlith y cyhoedd ynghylch cyfaddawdau y gallai fod angen i'r DU eu gwneud yn ei chytundebau masnach. Mynegwyd pryderon gan wahanol sefydliadau sydd â diddordeb yn y sector bwyd a ffermio, a thrwy ymgyrchoedd yn y cyfryngau, ynghylch y posibilrwydd o ostwng safonau bwyd y DU. Mae ffocws wedi bod ar risgiau rhai mathau penodol o fwyd a fewnforir ac a gynhyrchir gan ddefnyddio dulliau nad ydynt yn cael eu defnyddio yn y DU, megis cyw iâr wedi'i olchi â chlorin a chig eidion sy'n cael ei drin â hormonau. Rydym wedi ceisio trin y materion hyn yn gymesur. Ni ellir gwerthu'r cynhyrchion hyn o fewn y DU, waeth beth fo gwlad y tarddiad, oherwydd na chaniateir y dulliau hyn yng nghyfraith y DU. Ni fyddai unrhyw gytundeb masnach yn effeithio ar hyn ac nid oes unrhyw arwydd bod gan Lywodraeth y DU unrhyw fwriad i newid y trefniadau presennol.

Rydym wedi bod yn ymwybodol drwy gydol ein gwaith na ellir datblygu polisi masnach ar gyfer y sector bwyd-amaeth ar ei ben ei hun. Mae'n rhaid i Lywodraeth y DU fabwysiadu ymagwedd gydlynol tuag at ei pholisi masnach a'i thrafodaethau - un sy'n ystyried nodau gwleidyddol ac economaidd ehangach y DU ar draws nifer o sectorau. Rydym yn ymwybodol y gallai rhai o'n hargymhellion gael canlyniadau bwriadol neu anfwriadol i sectorau neu ddiwydiannau eraill. Ar y gwaethaf, gallai ein syniadau polisi beryglu cytundebau masnach a fyddai fel arall yn newyddion da i endidau masnachol eraill. Ond nid ydym wedi osgoi gwneud argymhellion beiddgar ac uchelgeisiol sydd er budd y sector bwyd-amaeth. Mae gennym gylch gorchwyl penodol [Atodiad 3] a sefydlodd yr Ysgrifennydd Gwladol y Comisiwn i sicrhau bod gan y sector bwyd-amaeth lais cryf. Yn y pen draw, mater i weinidogion yw penderfynu yn ddiweddarach pa rai o'n hargymhellion y maent am eu derbyn a gweithredu arnynt, a sut y byddant yn cysoni ystyriaethau a allai fod yn gystadleuol neu'n groes ar draws sectorau masnachu'r DU yn gyffredinol.

## Datganoli


Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am bolisi masnach y DU ac am negodi cytundebau masnach. Fodd bynnag, mae gweithredu ac arsylwi cytundebau masnach, yn ogystal â pholisi bwyd, amaethyddiaeth a'r amgylchedd domestig ehangach, yn faterion datganoledig. Rydym wedi ceisio parhau i fod yn sensitif i'r dirwedd ddatganoli hon. Mae'r adroddiad hwn wedi'i ysgrifennu o safbwynt masnach ledled y DU ac i raddau helaeth mae'r argymhellion yn cael eu cyfeirio at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach Ryngwladol. Ond roeddem yn ymwybodol bod natur bwyd a ffermio, a'r cyfleoedd, yr heriau a'r blaenoriaethau sy'n deillio o hynny yn amrywio'n sylweddol ledled y DU. Yn wir, mae bwyd-amaeth yn fwy arwyddocaol, o'i gymharu, i'r gwledydd datganoledig fel cyfran o'u masnach gyffredinol.

Fe wnaethom gadw hynny mewn cof wrth chwilio am wybodaeth ac rydym wedi elwa'n fawr ar gyfraniadau gan unigolion a sefydliadau yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon, yn ogystal ag y Lloegr. Cynhaliwyd sioeau teithiol rhithwir gyda busnesau, y diwydiant ffermio a chynrychiolwyr etholedig o'r gwledydd datganoledig a gwnaethom gwrdd â chynrychiolwyr o Weinyddiaethau Datganoledig i ddeall yr heriau a'r cyfleoedd sydd fwyaf perthnasol i'r rhannau hynny o'r DU. Credwn, felly, y gallai cynnwys yr adroddiad fod o ddiddordeb i'r Gweinyddiaethau Datganoledig, ac mae croeso cynnes iddynt ystyried ein canfyddiadau.



**"Nid ydym wedi osgoi gwneud argymhellion dewr ac uchelgeisiol."**

# Aelodau'r Comisiwn



Tim J Smith (Cadeirydd)

**Yn flaenorol, Cyfarwyddwr Ansawdd Grŵp Tesco a Phrif Weithredwr yr Asiantaeth Safonau Bwyd**



Victor Chestnutt

**Undeb Amaethwyr Ulster**



Caroline Drummond MBE

**LEAF (Cysylltu'r Amgylchedd A Ffermio)**



John Davies


**NFU Cymru**



Nigel Gibbens CBE

**Cyn Brif Swyddog Milfeddygol**





Rob Hodgkins

**Ffermwr Cymysg**



Glyn Roberts

**Undeb Amaethwyr Cymru**



Andrew McCornick

**NFU Scotland**



Shanker Singham

**Competere Ltd, Cyn-Gynghorydd i Ysgrifennydd Gwladol y DU dros Fasnach Ryngwladol**



Kate Nicholls OBE

**UKHospitality**



Y Gwir Anrhydeddus Syr Lockwood Smith

**Cyn-Weinidog Masnach ac Amaeth Seland Newydd, Cyn-Uchel Gomisiynydd i'r DU a Llysgennad i Iwerddon**



Andrew Opie

**Consortiwm Manwerthu Prydain**



Nick von Westenholz

**NFU**



Tom Pengelly

**Trade Out Of Poverty**



Ian Wright CBE

**Ffederasiwn Bwyd a Diod**

# Cyflwyniad



# 1. Cyflwyniad

## 1.1 Sefyllfa sector bwyd-amaeth y DU heddiw

Mae'r DU yn ffodus bod ganddi sector bwyd-amaeth aeddfed sy'n darparu bwyd o safon uchel i ni. Mae ffermwyr proffesiynol, angerddol a chydnerth yn cyflenwi diwydiant bwyd a diod arloesol, a hynny'n cynnwys busnesau bach a chanolig creadigol newydd hyd at gwmnïau rhyngwladol mawr. Mae gennym sector manwerthu a lletygarwch arbennig o amrywiol a chanddo ddefnyddwyr sy'n gynyddol chwilfrydig ynghylch sut caiff eu bwyd ei gyrchu a'i gynhyrchu a sut caiff y rhai sy'n ei gynhyrchu eu trin. Mae'r gadwyn gyflenwi bwyd-amaeth gyfan yn gwneud cyfraniad sylweddol i economi a chymdeithas y DU.

Mae ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd yn golygu bod y sector yn wynebu newid digynsail. Bu Polisi Amaethyddol Cyffredin yr UE yn fframwaith i'r diwydiant amaethyddol ers degawdau a bydd diddymu'r trefniadau hyn dros amser yn gofyn ailfeddwl ynghylch rheoleiddio, cynhyrchiant, arloesedd a chynaliadwyedd. Yr UE yw'r rhanbarth pwysicaf ar gyfer ein mewnforion ac allforion bwyd-amaeth yn y DU a, thrwy'r UE, bu'r DU yn bartner mewn cyfres o berthnasoedd masnachu eraill. Mae ein perthnasoedd rhyngwladol a'n strwythurau domestig yn cael eu hail-feddwl a'u hail-siapio.

COVID-19 yw'r her fwyaf i'r DU ei hwynebu ers yr Ail Ryfel Byd. Mae cynhyrchwyr, gweithgynhyrchwyr a manwerthwyr wedi dangos penderfyniad anhygoel wrth fwydo ein cenedl er gwaethaf pwysau aruthrol. Mae rhai tueddiadau a oedd eisoes yn amlwg, er enghraifft twf e-fasnach, wedi gweld cynnydd cyflym. Mae rhai busnesau wedi gorfod arloesi ac arallgyfeirio a dod o hyd i ddulliau newydd o gynnal eu gweithgareddau. Yn ddiamau, y sector lletygarwch a ysgwyddodd brif faich y cyfnod clo, ac mae'n debygol y caiff y goblygiadau eu teimlo am flynyddoedd i ddod. Mae COVID-19 wedi gwaethygu ansicrwydd bwyd yn y DU. Mae wedi datgelu lefelau tlodi bwyd a gwendidau mewn rhannau o'n cymunedau.

Yr her sy'n ein hwynebu nawr, wrth inni symud ymlaen o adael yr UE ac adfer ar ôl COVID-19, yw sut y gallwn oresgyn yr heriau hyn i wneud cynnydd cyflym a hyderus. Er y bu'r pandemig yn ddigynsail, rydym yn gwerthfawrogi bod Llywodraeth y DU wedi ceisio lliniaru rhai o'r effeithiau cyllidol ac economaidd, yn enwedig i'r sector lletygarwch, ar yr un pryd â chydbwyso hyn â mesurau i ddiogelu iechyd y cyhoedd. Ym mis Mehefin 2020, lansiodd llywodraeth y DU becyn adfer ('Bounce Back') ar gyfer y sector bwyd a diod.

Dyluniwyd hwn i helpu busnesau i allforio, gyda phwyslais arbennig ar fusnesau bach a chanolig. Ymysg y mentrau ategol mae Strategaeth Ryngwladol Technoleg Amaeth newydd y llywodraeth, sydd â'r nod o sicrhau bod y DU yn bartner rhyngwladol o ddewis ar gyfer masnach a buddsoddiadau mewn technoleg amaeth.

Rydym yn rhagweld y bydd llywodraeth y DU yn parhau â'r gefnogaeth hon a gobeithiwn mai'r Gyllideb sydd i ddod ym mis Mawrth 2021 fydd yr ysgogiad i greu swyddi a thwf. At hynny, gan y disgwylir y bydd llywodraeth y DU yn dechrau ar Adolygiad Cynhwysfawr aml-flwyddyn o Wariant ar gyfer y cyfnod y tu hwnt i flwyddyn ariannol 2021/2022, mae'r cyfle i lywodraeth y DU ymateb i'r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn glir. Mae'r sector bwyd-amaeth mewn sefyllfa gref i gyfrannu at dwf economaidd drwy gymell allforion ac yn sgil hynny greu swyddi ar draws pob cymuned yn y DU, a byddem yn disgwyl gweld hyn yn cael ei adlewyrchu.

## Strategaeth Ryngwladol Technoleg Amaeth y DU

Nod y strategaeth hon gan y llywodraeth (Adran Masnach Ryngwladol, Defra, FCDO) yw sicrhau bod y DU yn bartner rhyngwladol o ddewis ar gyfer masnachu a buddsoddiadau Technoleg Amaeth a chynyddu cyfraniad galluoedd Technoleg Amaeth y DU at ddiogeledd bwyd byd-eang a chynaliadwy. Bydd Cyngor Arweinyddiaeth gyda diwydiant yn gyrru'r strategaeth ac yn rhoi cyngor ar ymgysylltu rhyngwladol. Ymysg y prif elfennau bydd: Hwb Deori i Fusnesau Bach a Chanolig i fasnacheiddio ymchwil ac i ffermwyr gael cyrchu atebion integredig i'w heriau; Cynghreiriau Busnesau Iechyd Anifeiliaid a Chnydau fel pwyntiau mynediad i fuddsoddwyr tramor at wyddoniaeth ac arloesedd amrywiol safon fyd-eang y DU; a Rhwydwaith Canolfannau Rhagoriaeth a ffermydd clyfar sy'n cefnogi Busnesau Bach a Chanolig i gynyddu allforion dramor drwy gyfrwng partneriaethau dwyochrog Llywodraeth-i-Lywodraeth a phartneriaethau cyhoeddus-preifat.

## 1.2 Gwerth y sector bwyd-amaeth i'r DU

Mae pob un ohonom ar y Comisiwn yn deall maint a phwysigrwydd y sector. Yn fyr, yn 2018, y flwyddyn ddiwethaf mae gennym fynediad at y ffigurau llawn ar ei chyfer, cyfrannodd sector cyfan bwyd a diod amaethyddiaeth y DU £120 biliwn (9.4%) o Werth Ychwanegol Gros cenedlaethol. O hynny, roedd amaethyddiaeth a physgota yn cwmpasu £10.6 biliwn, cyfanwerthu yn cwmpasu £14.4 biliwn, gweithgynhyrchu bwyd a diod yn cwmpasu £29 biliwn, manwerthu bwyd a diod yn cwmpasu £30.1 biliwn ac arlwyo dibreswyl yn cwmpasu £36.1 biliwn. Mae'r sector hefyd yn gyfrifol am ran sylweddol o'r gweithlu. Mae'n cyflogi dros 4 miliwn o bobl, heb gynnwys y sector lletygarwch, sy'n cyflogi dros 3 miliwn o bobl[1]. Bwyd a diod yw sector gweithgynhyrchu mwyaf y DU, yn cwmpasu tua 16% o gyfanswm y DU[2].

Mae'r DU yn mesur 'Cynhyrchiant Cyfanswm Ffactorau' sydd, yn fras, yn fesur o allbynnau yn erbyn mewnbynnau. Cynyddodd Cynhyrchiant Cyfanswm Ffactorau cadwyn fwyd y DU y tu hwnt i gât y fferm 0.9% rhwng 2007 a 2018, o'i gymharu â chynhyrchiant yn yr economi ehangach, a gododd 0.1% yn unig[3].

Fodd bynnag, mae gwerth y sector i'r gymdeithas yn fwy na'r cyfraniad uniongyrchol i'r economi. Mae ein ffermwyr yn geidwaid cefn gwlad ac mae'r sector yn rheoli tua 72% o dir y DU[4]. Mae ffermwyr yn ategu cadwraeth bioamrywiaeth, lliniaru llifogydd, lliniaru newid hinsawdd a llu o wasanaethau a chyflenwi nwyddau cyhoeddus pwysig eraill. Mae tir fferm yn sinc carbon ac yn rhan bwysig o gyflenwad cenedlaethol y DU o ynni adnewyddadwy. Mae amaethyddiaeth yn tanategu cymunedau gwledig, seilwaith lleol a thwristiaeth. Mae llawer o ffermydd wedi arallgyfeirio i fentrau busnes ehangach fel cynnig llety neu fanwerthu. Mae economïau gwledig a threfol yn dibynnu ar ffermio: yn blwmp ac yn blaen, os byddwn yn colli ffermydd a ffermwyr, mae perygl y gwneir niwed aruthrol i gymunedau lleol ac i stiwardiaeth y tir ar draws pob un o wledydd y DU. Mae yna hefyd gymunedau trefol i'w hystyried. Yn y degawd diwethaf, mae lletygarwch wedi buddsoddi'n helaeth bob blwyddyn yn y stryd fawr ac mewn gofodau yng nghanol y ddinas. Bydd y buddsoddiad gan y sector lletygarwch mewn adnewyddu trefi a'r stryd fawr yn hanfodol i adfywiad llwyddiannus ein dinasoedd fel rhan o'r adferiad ar ôl COVID-19.

1 https://www.youthemployment.org.uk/dev/wp-content/uploads/2018/09/UK-Hospitality-Workforce-Commission-2030.pdf
2 https://www.gov.uk/government/statistics/food-statistics-pocketbook/food-statistics-in-your-pocket-food-chain
3 https://www.gov.uk/government/statistics/food-chain-productivity
4 https://www.gov.uk/government/statistics/food-chain-productivity

## 1.3 Pam mae masnach yn bwysig

Yn y flwyddyn hyd at fis Tachwedd 2020, roedd cyfanswm masnach bwyd a diod y DU (mewnforion ac allforion) yn werth £69.1 biliwn[5]. Mae lefelau masnach a chadwyni cyflenwi yn ddeinamig iawn a bydd amrywiadau arian cyfred a nifer o ffactorau eraill yn dylanwadu arnynt. Mae aelodaeth y DU o'r UE wedi dylanwadu ar nifer o gadwyni cyflenwi presennol y DU, ac efallai y bydd y cadwyni hynny'n newid wrth i'r DU archwilio marchnadoedd newydd.

Mae masnach yn ysgogi twf economaidd, ffyniant ac arloesedd. Mae'n helpu busnesau i dyfu a llwyddo, cyflawni arbedion maint a sicrhau cyfleoedd newydd i ehangu os yw'r farchnad ddomestig wedi'i chyfyngu.

Yn sector bwyd-amaeth y DU, mae masnach yn rhoi mwy o ddewis i ni, gan gynnwys mwy o gysondeb o ran argaeledd ar hyd y flwyddyn. Mae'n cefnogi gostyngiad mewn gwastraff bwyd, gan gynnwys, er enghraifft, lle gall allforwyr da byw a dofednod 'fantoli'r carcas' yn well drwy sicrhau mwy o incwm o'r darnau hynny o anifeiliaid y mae mwy o alw amdanynt dramor nag yn y DU. Mae hyblygrwydd cynyddol o ran cyrchu bwyd yn cefnogi gwell diogeledd bwyd. Mae'n galluogi cynhyrchwyr bwyd i arbenigo mewn pethau maen nhw'n eu gwneud yn dda iawn, ar raddfa fwy, gan gynyddu eu helwon. Ar yr un pryd, gallwn fewnforio cynhyrchion na allwn eu cynhyrchu'n hawdd yn y DU, neu lle byddai costau economaidd neu amgylcheddol cynhyrchu yn uwch, hyd yn oed pe baent yn bosibl yma.

Ar lefel y DU, mae manteision gwleidyddol a diplomyddol ehangach i'r perthnasoedd a gaiff eu meithrin yn sgil masnachu. I fusnesau unigol sy'n agor eu hunain i farchnadoedd rhyngwladol, gall fod yn gyfle i dyfu a chyfnewid syniadau a dysgu.

Byddai rhai yn cwestiynu'r risgiau o geisio cyflawni amcanion polisi ehangach eraill drwy fecanweithiau masnachu. Ond ni ddylem gyfaddawdu ein gwerthoedd o ran materion allweddol megis hawliau dynol a gweithwyr, yr amgylchedd a lles anifeiliaid. Bydd codi safonau byd-eang ar y materion hyn yn sicrhau tegwch i fasnachwyr y DU. Wrth gasglu'r dystiolaeth, cawsom ymdeimlad cryf y dylem hybu cryfderau'r DU yn y meysydd hyn fel un o'n pwyntiau gwerthu unigryw.



5 https://www.gov.uk/government/statistics/food-statistics-pocketbook/food-statistics-in-your-pocket-food-chain


# System Fwyd y DU

## Faint mae'r DU yn ei fwyta

**£234 biliwn**

Cyfanswm gwariant defnyddwyr ar fwyd, diod ac arlwyo yn 2019

## Tarddiad y bwyd a fwytawyd yn y DU yn 2019




## O ble daw bwyd y DU

**55%**
o'r bwyd a ddefnyddir yn cael ei dyfu a'i gynhyrchu
**yn y DU**

**Mae mewnforion bwyd a diod y DU werth**

**£47.7 biliwn**

sy'n 9.8% o gyfanswm mewnforion nwyddau'r DU

**Iwerddon**
**Yr Almaen**
**Yr Iseldiroedd**

Y tri chyflenwr mwyaf o fwyd a diod i'r DU

Siocled yw'r cynnyrch mewnforio sy'n tyfu gyflymaf yn ddiweddar

**3.9%**
**o gynnydd o 2019 i 2020**

**Y cynhyrchion a fewnforiwn fwyaf ohonynt yw**
**gwin, pysgod, eitemau parod**
fel cawl a burum,
**llysiau a ffrwythau ffres ac oer**



## O ble caiff pobl eu bwyd




## Beth mae pobl yn ei fwyta

Cyfansymiau pryniant bwyd a diod y cartref yn y DU.
Gramau y pen yr wythnos, ac eithrio hylifau mewn mililitrau, ac wyau (nifer)

| Grŵp bwyd | | Unedau 2018/19 |
|---|---|---|
| Llaeth a chynnyrch llaeth (ac eithrio caws) | (ml) | 1840 |
| Caws | | 123 |
| Cig | | 961 |
| Pysgod | | 146 |
| Wyau | (nifer) | 2 |
| Braster | | 161 |
| Siwgr a chyffeithiau | | 93 |
| Tatws (ffres ac wedi'u prosesu) | | 620 |
| Llysiau (ac eithrio tatws) | | 1139 |
| Ffrwythau | | 1106 |
| Bara | | 521 |
| Cacennau, byns a theisennau crwst | | 151 |
| Bisgedi a thafelli cras | | 159 |
| Grawnfwydydd eraill a chynnyrch grawnfwyd | | 589 |
| Diodydd | (ml) | 52 |
| Diodydd ysgafn | (ml) | 1642 |
| Melysion | | 136 |
| Diodydd alcoholig | (ml) | 712 |

Food Statistics in your pocket: Summary https://www.gov.uk/government/statistics/food-statistics-pocketbook/food-statistics-in-your-pocket-summary.
Ystadegau masnach CThEM, Tachwedd 2020

https://www.gov.uk/government/statistics/family-food-201819/family-food-201819. Oherwydd talgrynnu, efallai na fydd y ffigurau a gyflwynir yn y ddogfen hon yn adio i fyny yn union i'r cyfansymiau a roddir.

## 1.4 Y defnyddiwr

Bu un o'n gweithgorau yn ystyried polisi masnach yn benodol o safbwynt defnyddwyr. Casglwyd amrywiaeth eang o ymchwil gan fanwerthwyr, grwpiau defnyddwyr, y byd academaidd a chynulliadau dinasyddion, a bwydodd hynny i'w trafodaethau. Cydnabu'r gweithgor ein bod ni, fel pobl, yn meddwl ac yn gweithredu mewn ffordd wahanol fel dinasyddion ac fel siopwyr. Mae dinasyddion yn ystyried ffactorau o ddiddordeb cyhoeddus ehangach ond, fel siopwyr, rydym yn gwneud penderfyniadau prynu ar sail ystod gulach o ffactorau.

Canfu ein hymchwil mai pris yw'r prif ddylanwad ar benderfyniadau prynu pan fydd defnyddwyr yn siopa bwyd. Mae llawer o ddefnyddwyr eisiau 'dewis fforddiadwy', neu'r gallu i brynu cynhyrchion ar wahanol bwyntiau pris, er enghraifft, fersiynau bargen, safonol a phremiwm o gynhyrchion cyffredin.

Y mae gan ddefnyddwyr ots am y safonau y caiff eu bwyd ei gynhyrchu iddynt, ac mae barn gref bod yn rhaid gorfodi safonau sylfaenol ar gyfer pob cynnyrch a fewnforir. Fodd bynnag, nid yw defnyddwyr bob amser yn gallu dadansoddi cynhyrchion yn drylwyr ar yr adeg pan fyddant yn eu prynu, ac maent am gael y sicrwydd bod safonau wedi cael sylw fel rhan o'r fframwaith o reolaethau ar yr hyn y maent yn ei brynu. Yn yr un modd, wrth fwyta y tu allan i'r cartref, maent yn disgwyl i gynhyrchion fod wedi'u prynu a'u cynhyrchu mewn ffordd gyfrifol. Canfu ein hymchwil fod pobl yn cydnabod y rôl hanfodol y mae polisi masnach yn ei chwarae wrth orfodi safonau uchel ar nwyddau a fewnforir[6]. Mae defnyddwyr hefyd yn gefnogol i fod Llywodraeth y DU yn chwarae rhan flaenllaw mewn hyrwyddo safonau uchel ar draws y byd[7].

Fodd bynnag, mae defnyddwyr yn dod yn fwy ymwybodol o effeithiau eu defnydd o fwyd[8]. Canfuom fod siopwyr yn aml yn barod i dalu premiwm ar gyfer safonau moesegol, lles ac amgylcheddol uwch, yn enwedig pan gânt eu dilysu gan gynlluniau sicrwydd megis Masnach Deg, Rainforest Alliance, RSPCA Assured a LEAF Marque. Mae'r duedd hon tuag at 'ddefnyddwyr ymwybodol' yn gyson ar draws y grwpiau economaidd-gymdeithasol[9]. Yn ogystal, mae llawer o siopwyr yn dewis blaenoriaethu prynu cynnyrch domestig gan eu bod yn awyddus i gefnogi busnesau a ffermwyr y DU y maent yn eu cysylltu â safonau cynhyrchu ac ansawdd uchel.

Mynegir pryder mewn trafodaethau cyhoeddus, fwyfwy yn sgil y sefyllfa COVID-19 bresennol, y bydd ansicrwydd bwyd cynyddol yn achosi i lywodraeth y DU ostwng rhwystrau masnach, gan agor marchnad y DU i fwy o fwyd a gynhyrchir i safonau is. Fodd bynnag, nid yw defnyddwyr y DU yn ystyried fod hyn yn ateb synhwyrol i'r broblem, oherwydd gallai olygu na all y bobl dlotaf mewn cymdeithas gyrchu bwyd ond am yr hyn nad yw'n cyrraedd safonau domestig. O ystyried bod siopwyr yn y DU ar y cyfan yn talu llai am fwyd na siopwyr mewn rhai gwledydd eraill, efallai mai cyfyngedig yw effaith gynyddrannol polisi masnach ar ansicrwydd bwyd a thlodi, a mater polisi domestig yw mynd i'r afael â mater craidd ansicrwydd bwyd.



6 National Trade Conversation, 2020: https://campaigns.which.co.uk/trade-deals/national-trade-conversation/
7 Y Llwybr at Net Sero, 2020: https://www.climateassembly.uk/report/
8 Food Ethics Council, 2017: https://www.foodethicscouncil.org/programme/food-citizenship/
9 https://ahdb.org.uk/consumer-insight-trust-transparency-and-traceability

# Goblygiadau gadael yr Undeb Ewropeaidd



# 2. Goblygiadau gadael yr Undeb Ewropeaidd

## 2.1 Cytundeb Masnach a Chydweithredu'r UE-DU

### Arsylwadau cyffredinol

Yr UE yw'r farchnad fwyaf arwyddocaol o lawer ar gyfer allforion bwyd y DU. Daw tua thraean yr holl fwyd yr ydym yn ei fwyta o'r UE. Felly, ni ellir gorbwysleisio pa mor bwysig oedd sicrhau Cytundeb Masnach a Chydweithredu'r UE-DU a threfniant tariff 0%. Gallwn fod yn hyderus nawr bod gennym gyfle i wneud cynnydd gwirioneddol ar ôl cyfnod o ansicrwydd.

Nid yw hynny'n golygu nad yw'r trefniadau newydd yn heriol. Tarfwyd ar gadwyni cyflenwi yn sgil y gofynion o ran rheolau tarddiad sydd wedi eithrio rhai cynhyrchion o'r gyfradd tariff o 0%. Mae rhai gwaharddiadau mewn lle, sy'n golygu na all y DU allforio rhai cynhyrchion penodol i'r UE, ac mae gwaharddiad ar datws hadyd eisoes wedi tarfu ar ffermwyr a fyddai fel arfer yn allforio i'r UE. Yn sgil newid mor fawr i'n perthynas fasnachu, roedd disgwyl rhywfaint o darfu, ac yn ddi-os, mae'r byr rybudd a'r amser i roi'r trefniadau ar waith wedi cynyddu'r anawsterau hyn. Mae gwrthdaro wrth y ffin yn fwrn, a cholledion i fusnesau a cholledion bwyd yn deillio o hynny.

Mae'n rhaid i ni ystyried hyn yn ei wir oleuni; o ystyried amseriad yr adroddiad hwn, nid yw'r Comisiwn wedi cael cyfle i werthuso faint o fasnach sydd wedi'i effeithio, ond rydym yn cydnabod yr heriau gwirioneddol ar hyn o bryd sy'n amlwg yn y tarfu ar gyflenwadau bwyd ac argaeledd bwyd i gwsmeriaid.

Rydym o'r farn bod y cytundeb masnach yn codi pryderon i'r Gweinyddiaethau Datganoledig, yn arbennig o ran newid yr awdurdod rheoleiddio o Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop (EFSA) i asiantaethau'r DU. Mae'n ymddangos bod y cynnydd mewn gwrthdaro wrth fasnachu rhwng Gogledd Iwerddon a gweddill y DU wedi peri i rai archfarchnadoedd yng Ngogledd Iwerddon gyrchu cynhyrchion o Iwerddon a llefydd eraill y tu allan i'r DU.

Mae'n rhaid i ni gael trefn ar y tarfu hwn yn gyflym a meithrin hyder eto yn y fframwaith newydd, fel y gallwn sicrhau'r cyfleoedd a ysgogodd ymadawiad y DU yn y lle cyntaf.

### Goblygiadau ar gyfer y dyfodol

Roeddem i gyd yn awyddus i weld telerau'r cytundeb ac ar y cyfan roeddem yn falch o weld ei symlrwydd a'i gydbwysedd. Mae rhai elfennau o'r cytundeb newydd yn ddiddorol a gallant o bosibl fod yn fanteisiol mewn sawl ffordd yn y dyfodol, ac mae'n werth tynnu sylw at y ffyrdd hyn yma.

Yn gyntaf, mae'r mecanwaith ail-fantoli sydd wedi'i gynnwys yn y cytundeb yn offeryn defnyddiol. Mae'n debyg i'r mecanwaith llurgunio'r farchnad rydym yn ei gynnig, gyda'r nod o fynd i'r afael â materion yn ymwneud â chystadleuaeth annheg. Mae hyn yn golygu nad yw ein hargymhellion yr un mor newydd ac arloesol ag y byddent wedi bod fel arall, ond gallai'r tebygrwydd olygu bod ein polisi mewnforio arfaethedig yn fwy tebygol o fod yn dderbyniol i bartneriaid masnachu posibl. Mae'n bwysig nodi y gellir defnyddio'r mecanwaith hwn mewn ffordd ymosodol neu amddiffynnol. Yn ymosodol, mae'n ymdrin â sefyllfaoedd lle mae partneriaid masnachu yn atal allforwyr y DU rhag cyrchu'r farchnad drwy lurgunio'r farchnad. Yn amddiffynnol, gellid ei ddefnyddio mewn sefyllfaoedd lle gallai marchnad dramor fod wedi'i llurgunio, a hynny'n deillio o lurguniad gan lywodraeth neu randdirymiad o normau a gytunwyd yn rhyngwladol, sy'n arwain at allforion gormodol o'r farchnad honno.

Mae'r cytundeb hefyd yn hybu egwyddorion craidd diogelu'r amgylchedd, yn unol ag ymrwymiadau rhyngwladol a domestig y DU. Mae erthygl 7.4 y Cytundeb Masnach yn cynnwys cyfeiriad at egwyddorion amgylcheddol a gydnabyddir yn rhyngwladol y gellir eu mabwysiadu mewn perthynas ag asesiadau effaith, camau ataliol, gweithredu'n rhagofalus, cywiro wrth y ffynhonnell a llygrwr yn talu. Yn y cyd-destun hwn, mae'n ddymunol ac yn realistig i Lywodraeth y DU ddilyn strategaeth uchelgeisiol iawn i godi safonau byd-eang bwyd-amaeth mewn perthynas â'r amgylchedd a newid hinsawdd mewn cytundebau masnach eraill. Rydym yn ymdrin â hyn mewn mannau eraill yn ein hadroddiad [gweler pennod 4 a 6]. Mae'n rhaid gwneud hyn ochr yn ochr ag agenda rhyddfrydoli.

Mae'r bennod ar fesurau iechydol a ffytoiechydol yn y cytundeb yn cynnwys geiriad ynghylch cydweithredu ar ymwrthedd gwrthficrobaidd, hybu systemau bwyd cynaliadwy a diogelu lles anifeiliaid. Mae testunau'r erthyglau hyn gyda'r mwyaf manwl o unrhyw gytundeb masnach rydd sydd gan yr UE neu'r DU mewn lle. Mae hyn yn torri tir newydd ac yn gosod y sylfaen ar gyfer Cytundebau Masnach Rydd (FTAs) yn y dyfodol a lefel newydd o uchelgais i'r ddwy ochr. Yn benodol, mae'r cytundeb yn esbonio y bydd y DU a'r UE yn cydweithio â phartneriaid rhyngwladol eraill i leihau'r defnydd diangen o sylweddau gwrthficrobaidd wrth gynhyrchu anifeiliaid ac i ddiddymu dros amser y defnydd a wneir ohonynt yn rhyngwladol i hybu twf. Mae hyn yn cyd-fynd â'r nod o wrthsefyll ymwrthedd gwrthficrobaidd, yn unol â'r dull Iechyd Cyfunol ac yn cydymffurfio â'r Cynllun Gweithredu Byd-eang. Mae hwn yn fesur arbennig o galonogol a chadarnhaol.

# Awdurdodau cymwys y DU a'r UE

### Asiantaeth Safonau Bwyd

Yr Asiantaeth Safonau Bwyd, a sefydlwyd yn 2000, yw'r adran annibynnol o'r llywodraeth sy'n gweithio i ddiogelu iechyd y cyhoedd a buddiannau ehangach defnyddwyr mewn perthynas â bwyd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae'r Asiantaeth yn ymdrin â diogelwch bwyd a diddordebau eraill defnyddwyr mewn perthynas â bwyd, yn cynnwys pris, argaeledd, a rhai agweddau ar safonau cynhyrchu bwyd fel pryderon amgylcheddol a lles anifeiliaid, gan sicrhau bod gan ein bwyd enw da o ran diogelwch a dilysrwydd yn y DU a thramor.

### Safonau Bwyd yr Alban (FSS)

Mae FSS yn sicrhau bod bwyd yn ddiogel i'w fwyta, gan sicrhau bod defnyddwyr yn gwybod beth maen nhw'n ei fwyta ac i wella maeth. Sefydlwyd FSS gan Ddeddf Bwyd (Yr Alban) 2015 fel swyddfa anweinidogol. Mae FSS yn helpu i ddiogelu'r cyhoedd rhag risgiau i iechyd a allai gael eu hachosi gan fwyd, ac mae'n rhoi cyngor ynghylch sut bydd diet yn hybu iechyd da. Mae FSS yn canolbwyntio ar ddiddordebau gorau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd.

### Swyddfa Sicrwydd Masnach Iechydol a Ffytoiechydol y DU

Bydd Swyddfa Sicrwydd Masnach Iechydol a Ffytoiechydol y DU yn cydlynu sicrwydd masnach iechydol a ffytoiechydol yn y DU i sicrhau bod partneriaid masnachu yn bodloni amodau mewnforio ar gyfer diogelwch a safonau bwyd a phorthiant ac ar gyfer iechyd a lles anifeiliaid.

### Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop (EFSA)

Asiantaeth Ewropeaidd a ariennir gan yr Undeb Ewropeaidd yw Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop EFSA. Fe'i sefydlwyd yn 2002 yn dilyn cyfres o argyfyngau bwyd ar ddiwedd y 1990au, i fod yn ffynhonnell o gyngor a chyfathrebu gwyddonol ar risgiau sy'n gysylltiedig â'r gadwyn fwyd.

### SANTE F

Mae'r Gyfarwyddiaeth Gyffredinol ar Iechyd a Diogelwch Bwyd (SANTE F) yn cynnal archwiliadau, arolygiadau a gweithgareddau cysylltiedig. Mae hyn yn sicrhau bod deddfwriaeth yr UE ar feysydd fel diogelwch bwyd a phorthiant, iechyd anifeiliaid, lles anifeiliaid, ac iechyd planhigion, yn cael ei gweithredu a'i gorfodi'n mewn ffordd briodol, yn yr UE ac mewn gwledydd y mae'r UE yn masnachu â nhw. Cyn i wlad gael mynediad i farchnad yr UE rhaid iddi yn gyntaf basio archwiliad a gynhelir gan SANTE F yn dangos y gall fodloni holl ofynion yr UE.



## 2.2 Y farchnad fewnol

Daeth Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig i rym ar 17 Rhagfyr 2020. Mae'n gam hanfodol i sicrhau y gall busnesau bwyd-amaeth barhau i fasnachu'n rhydd ar draws y DU. Mae marchnad fewnol gadarn ac unedig ar draws y DU hefyd yn sylfaen gref ar gyfer masnachu nwyddau a gwasanaethau bwyd-amaeth ar draws y byd.

Adrannau mwyaf perthnasol y Ddeddf i fwyd-amaeth yw egwyddorion cydnabyddiaeth gilyddol a pheidio â gwahaniaethu o ran nwyddau a gwasanaethau. Mae'r rhain yn ffurfio egwyddorion cyrchu'r farchnad a fydd yn galluogi busnesau i fasnachu heb rwystrau ychwanegol yn seiliedig ar ba genedl y maent ynddi. Mae cydnabyddiaeth gilyddol yn hanfodol bwysig. Mae'n golygu y gall cynnyrch sy'n bodloni gofynion rheoleiddio perthnasol yn y rhan o'r DU lle caiff ei gynhyrchu, neu ei fewnforio iddi, gael ei werthu mewn unrhyw ran arall o'r DU, heb orfod cadw at ofynion rheoleiddio perthnasol yn y rhan arall honno. Mae peidio â gwahaniaethu yn golygu bod gwahaniaethu uniongyrchol neu anuniongyrchol, yn seiliedig ar driniaeth wahaniaethol o nwyddau lleol a nwyddau sy'n dod i mewn, yn cael ei wahardd. Mae rhai meysydd sy'n gysylltiedig â bwyd-amaeth a fydd yn cael eu heithrio o gwmpas cydnabyddiaeth gilyddol ond yn cael eu cynnwys o fewn cwmpas peidio â gwahaniaethu.

Yn ogystal, mae gweithredu Protocol Gogledd Iwerddon yn arbennig o bwysig i'r sector bwyd-amaeth. Caiff egwyddorion cyrchu'r farchnad eu haddasu mewn perthynas â Gogledd Iwerddon i ystyried Protocol Gogledd Iwerddon a pholisi Mynediad Dirwystr Llywodraeth y DU. Mae Protocol Gogledd Iwerddon yn darparu bod rhai o ddeddfwriaethau tollau yr UE yn berthnasol i'r DU mewn perthynas â Gogledd Iwerddon. Yr adran yn y Protocol sydd o'r pwys mwyaf i fwyd-amaeth yw'r angen i hwyluso llif dirwystr nwyddau rhwng Prydain a Gogledd Iwerddon.

Mae'r trefniadau hyn ar gyfer y farchnad fewnol yn gadarnhaol ar y cyfan i fasnach bwyd-amaeth; mae'n rhaid i unrhyw ymgais i ryddhau llif nwyddau a lleihau biwrocratiaeth fod y peth iawn i'w wneud. Fodd bynnag, mae'n gwbl amlwg o benawdau newyddion a straeon anecdotaidd, bod rhoi'r trefniadau ar waith yn anodd. Mae'r tarfu a welsom yn bryder gwirioneddol; yn aml, y fasnach fwyaf arwyddocaol a wnawn yw'r fasnach nes at adref. Rhaid i Lywodraeth y DU gymryd goblygiadau hyn o ddifri, yn enwedig mewn perthynas â sectorau fel bwyd-amaeth lle mae'r elw yn aml yn fach.

# Strategaeth masnach bwyd-amaeth



Defaid yn Llangollen, Cymru

# 3. Strategaeth masnach bwyd-amaeth

## 3.1 Yr angen am strategaeth gydlynol

Y ffordd orau o wireddu uchelgeisiau'r DU am bolisi masnach bwyd-amaeth yw os oes cyd-eglurder o ran bwriad. Mae'r angen i fwrw ymlaen â thrafodaethau masnach ac i fanteisio ar gyfleoedd ôl-UE yn gyflym, yn ddealladwy. Ond mae angen i bolisi masnach fod yn seiliedig ar uchelgeisiau hirdymor.

Ni ellir ystyried masnachu mewn amaethyddiaeth a bwyd fel mater ar wahân. Yn amlwg, mae'r cysylltiadau annatod rhwng agendâu rhyngwladol a domestig yn golygu bod yn rhaid i Lywodraeth y DU fod â strategaeth fwyd uchelgeisiol, gyffredinol mewn lle. Y gwaith y mae Henry Dimbleby wedi'i wneud, hyd yma, ar y Strategaeth Fwyd Genedlaethol ar gyfer Lloegr,[10] yw'r adolygiad sylweddol cyntaf o'r system fwyd ers 75 mlynedd ac roedd yn gyd-destun defnyddiol i ni. Mae'n gosod lefel o uchelgais ar gyfer y system fwyd a gobeithiwn y bydd Llywodraeth y DU yn glynu wrth y lefel honno wrth roi canfyddiadau Dimbleby ar waith. Mae gan y Gweinyddiaethau Datganoledig eu strategaethau a'u cynlluniau eu hunain mewn lle.

Yn y cyd-destun hwnnw, dylai Llywodraeth y DU felly gyflwyno strategaeth masnach glir a chynhwysfawr ar gyfer bwyd-amaeth a fyddai'n tanategu diplomyddiaeth fasnach fyd-eang, trafodaethau masnach a chefnogaeth i fasnachwyr. Mae nifer o ffactorau yn awgrymu bod angen strategaeth bwrpasol ar gyfer bwyd-amaeth: natur sensitif y sector bwyd-amaeth, y we gymhleth o safonau a rheoleiddio sy'n ei amgylchynu, yr ailstrwythuro aruthrol y mae'r sector yn ei wynebu o ganlyniad i adael yr UE a'r ffaith ei fod yn aml yn rhwystr dadleuol mewn trafodaethau masnach.

Dylid datblygu strategaeth i alluogi gwahanol adrannau llywodraeth y DU i gydgysylltu a chydlynu yn well. Mae ar yr adrannau angen rolau a chyfrifoldebau mewn polisi masnach sydd wedi'u diffinio'n glir er mwyn sicrhau polisi a chefnogaeth cydlynol i'r diwydiant. Fodd bynnag, dylai fod canolbwynt clir, canolog ar gyfer cydlynu materion masnach bwyd-amaeth gydag arweinwyr y diwydiant. Dylai fod hefyd weinidog penodedig sydd â chyfrifoldeb penodol dros arwain ar fasnach bwyd-amaeth, a fyddai'n sicrhau cydlyniad polisi ar draws y llywodraeth ac a fyddai'n arwain ar bwyso am godi safonau byd-eang ar yr amgylchedd, lles anifeiliaid a masnach foesegol mewn fforymau rhyngwladol.

Dylai'r strategaeth fynd i'r afael â'r meysydd canlynol:

- y dull i'w ddilyn ar gyfer ymgysylltu dwyochrog, amlochrog a lluosochrog mewn fforymau rhyngwladol a chyda gwledydd eraill o'r un anian
- proses i baratoi ar gyfer, negodi a chynnal asesiadau manwl o gytundebau masnach, gyda dealltwriaeth glir o'r goblygiadau, y cyfnewidiadau a'r amodau digyfnewid a fyddai'n berthnasol oddi mewn iddynt
- hyrwyddo safonau craidd, gan adlewyrchu amcanion rheoleiddiol dilys y DU ar newid hinsawdd, yr amgylchedd, lles anifeiliaid a masnach foesegol, mewn unrhyw gytundebau masnach a ffefrir
- sicrhau bod polisi masnach yn cyd-fynd ag unrhyw bolisïau domestig cysylltiedig
- blaenoriaethu cyrchu'r farchnad, dileu rhwystrau technegol i fasnach, ac ymrwymiad i wella'r amgylchedd rheoleiddio y mae'r sector bwyd-amaeth yn gweithredu o'i fewn gartref ac yn rhyngwladol
- gwella cystadleurwydd allforion, hyrwyddo masnach a chanfod cyfleoedd yn y farchnad ar gyfer cynhyrchion y DU sy'n cyd-fynd â chryfderau a gallu'r DU i gyflenwi
- mapio cyfleoedd yn y farchnad, risgiau a rhwystrau yn glir, ble mae gan y DU fantais neu anfantais gystadleuol, nodweddion arbennig marchnadoedd tramor sy'n eu gwneud yn ddeniadol a sut y gall sectorau'r DU fanteisio ar hyn, a sut caiff tystiolaeth ei defnyddio i gefnogi'r dadansoddiad hwn orau
- sut bydd llywodraeth y DU yn ymgysylltu â busnesau a'r gymdeithas
- cynllun ar gyfer sicrhau'r adnoddau a'r arbenigedd cywir i gyflawni polisi masnach a hyrwyddo masnach yn dda, o fewn Llywodraeth y DU ond hefyd mewn timau cryfach dramor

10 https://www.nationalfoodstrategy.org/

# "Blaenoriaethu sector bwyd-amaeth domestig ffyniannus a gefnogir gan bolisïau masnach a domestig sy'n ategu ei gilydd ."

Mae ymgysylltu effeithiol yn hanfodol er mwyn meithrin a chynnal ymddiriedaeth rhwng y llywodraeth a'i phartneriaid a'i rhanddeiliaid. Dylai'r Adran Masnach Ryngwladol weithio'n agos gyda'r Gweinyddiaethau Datganoledig i ddeall ac adlewyrchu eu blaenoriaethau penodol. Bydd partneriaeth wirioneddol yn manteisio i'r eithaf ar y cyfle i ganfod ble gall cyfleoedd newydd i allforio, buddsoddi a chyrchu'r farchnad sicrhau'r manteision mwyaf i bob rhan o'r DU.

Dylai'r Adran hefyd ymgysylltu'n eang â busnesau, cymdeithas sifil, arbenigwyr ac eraill sydd â diddordeb clir mewn masnach bwyd-amaeth. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y strategaeth yn gynhwysfawr, yn adlewyrchu anghenion busnesau ac wedi'i wreiddio yn realiti masnachu dydd-i-ddydd. Bydd hefyd yn helpu i sicrhau'r lefel gywir o uchelgais er mwyn symbylu busnes a llwyddiant economaidd a hefyd mewn perthynas â blaenoriaethau dinasyddion o gylch pryderon amgylcheddol, moesegol, dynol a lles anifeiliaid.

**Argymhelliad 1:**
Dylai Llywodraeth y DU ddatblygu strategaeth masnach feiddgar ac uchelgeisiol ar gyfer bwyd-amaeth. Byddai hyn yn galluogi dull cydlynol ar gyfer y sector ar draws Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig ac yn darparu fframwaith o flaenoriaethau ar gyfer trafodaethau masnach yn y dyfodol. Dylai fod yn seiliedig ar ddull rhyddfrydol o ymdrin â pholisi masnach, gan ganolbwyntio ar ddod â chyfleoedd newydd i fusnesau yn y DU, wedi'i gymedroli gan ddiogelu safonau pwysig ac wedi'i fframio'n dda yng nghyd-destun strategaeth fwyd ehangach y DU.

**Argymhelliad 2:**
Dylai fod gweinidog â chyfrifoldeb penodol i arwain ar fasnach bwyd-amaeth, a fyddai'n sicrhau cydlyniad polisi ar draws llywodraeth y DU. Byddai'r gweinidog yn arwain o ran pwyso am godi safonau byd-eang ar yr amgylchedd, lles anifeiliaid a masnach foesegol mewn fforymau rhyngwladol.

## 3.2 Gweledigaeth ac Egwyddorion

Rydym yn cynnig y dylid datblygu strategaeth bwyd-amaeth y DU o amgylch y weledigaeth ganlynol:

"Mae gan y DU bolisi masnach uchelgeisiol sy'n cyfrannu at system ffermio a bwyd fyd-eang sy'n deg ac y mae pawb sy'n cymryd rhan ynddi, gan gynnwys ffermwyr, busnesau a dinasyddion, yn ymddiried ynddi o'r tarddiad hyd at y defnydd terfynol. Mae ein bwyd yn ddiogel, yn iach, yn fforddiadwy, yn cael ei gynhyrchu mewn ffordd nad yw'n niweidio'r blaned, sy'n parchu urddas anifeiliaid ac yn rhoi elw priodol i'r rhai sy'n cymryd rhan."

Rydym yn argymell y dylai polisi masnach y DU, sy'n cynhyrchu gwerth ac sy'n seiliedig ar werthoedd, fod yn seiliedig ar 6 egwyddor sy'n canolbwyntio ar weithredu:

1. Hyrwyddo rhyddfrydoli masnach, i ddylanwadu'n gadarnhaol ar arloesedd a chynhyrchiant, a phris a dewis i ddefnyddwyr
2. Blaenoriaethu sector bwyd-amaeth domestig ffyniannus a gefnogir gan bolisïau domestig a masnach sy'n ategu ei gilydd
3. Sicrhau bod mewnforion bwyd-amaeth yn cyrraedd safonau perthnasol y DU a rhai rhyngwladol o ran diogeledd bwyd a bioddiogeledd
4. Paru mynediad di-dariff i'r farchnad gyda'r hinsawdd, yr amgylchedd, lles anifeiliaid a safonau moesegol perthnasol, gan unioni materion ynghylch cystadleuaeth sy'n codi pan nad yw mewnforion a ganiateir yn bodloni safonau perthnasol y DU a rhyngwladol
5. Arwain ar newid, pan fydd ei angen, i'r fframwaith rhyngwladol o reolau ar fasnach a safonau perthnasol, i fynd i'r afael â heriau byd-eang newid hinsawdd a dirywiad amgylcheddol
6. Cefnogi gwledydd sy'n datblygu i gael mynediad at fanteision llawn y system fasnachu fyd-eang

Er mwyn cyflawni nodau a manteisio yr egwyddorion hyn, mae'n rhaid mynd i'r afael ag ystyriaethau allweddol:

- dylai polisi masnach barchu'r setliadau datganoli a blaenoriaethau penodol pob un o rannau cyfansoddol y DU, ar yr un pryd â chynnal cyfanrwydd y farchnad fewnol
- mae angen cydlyniad rhwng polisi masnach bwyd-amaeth a pholisi amaethyddol domestig, yn enwedig o ran amserlenni ar gyfer newid a chymorth ariannol trosiannol y gallai fod ei angen
- mae angen datblygu polisi mewnforion bwyd-amaeth, sy'n gysylltiedig â thariffau, mewn ffordd sy'n gallu mynd i'r afael â llurguniadau gwirioneddol yn y farchnad ac annog partneriaid masnachu i gyrraedd safonau perthnasol a chytunedig y DU ble mae bylchau
- dylid gweithredu polisi masnach gyda llywodraethu priodol ac uchelgeisiol, wedi'i ategu gan ymgynghori, tryloywder ac adolygu
- mae polisi effeithiol ar gyfer rhyddfrydoli masnach yn gofyn am ganolbwyntio'n ddi-baid ar agor marchnadoedd bwyd-amaeth rhyngwladol, buddsoddi yn hynny, a chymorth i fusnesau o bob maint i gyrchu'r marchnadoedd hynny
- mae llunio polisïau yn gofyn am ymagwedd gydlynol sy'n cynnwys llywodraeth, y sector preifat, a ffordd o gydlynu ymdrechion marchnata'r sector bwyd-amaeth; a
- dylid cydnabod a hyrwyddo rôl safonau trydydd parti archwiliadwy fel rhai sy'n ategu safonau statudol, yn y gwaith o hwyluso masnach a llywio dewis defnyddwyr.

## 3.3 Dyfodol bwyd

Bydd strategaeth masnach gadarn yn cydnabod ac yn adlewyrchu'r tueddiadau byd-eang sy'n dylanwadu ar ddiogeledd bwyd, tlodi a chynaliadwyedd cyffredinol y system fwyd a ffermio. Mae diogeledd bwyd byd-eang yn her i'r holl fyd ac, wrth fynd i'r afael â'r her hon, mae pob gwlad yn gyd-ddibynnol.

Disgwylir y bydd poblogaeth y byd wedi cynyddu i 9.7 biliwn erbyn 2050. Byddai hynny'n golygu cynnydd o fwy na 25% o ffigur 2020[11]. Bydd twf incwm mewn gwledydd incwm isel a chanolig yn cyflymu newidiadau mewn diet tuag at gig, cynnyrch llaeth, ffrwythau a llysiau, a bydd hynny'n gofyn newidiadau cymesur mewn allbynnau ac yn rhoi pwysau ar adnoddau naturiol gwerthfawr. Yn y cyfamser, mae cyfran sylweddol o gynnyrch amaethyddol yn troi'n wastraff. Byddai lleihau'r colledion hyn yn lleihau'r pwysau i gynhyrchu mwy. Mae cynhyrchiant yn cael ei rwystro gan ddirywiad adnoddau naturiol, colli bioamrywiaeth a lledaeniad plâu a chlefydau mewn planhigion ac anifeiliaid, rhai ohonynt yn dechrau datblygu ymwrthedd gwrthficrobaidd. Mae'r newid yn yr hinsawdd yn effeithio'n anghymesur ar ranbarthau ble mae ansicrwydd bwyd, a hynny'n dwysáu'r anfanteision sydd eisoes yn bodoli.

Dylai llywodraethu cenedlaethol a rhyngwladol effeithiol a chydlynol fynd i'r afael â'r heriau hyn ar fyrder. Mae Agenda 2030 y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Datblygu Cynaliadwy wedi siapio'r her hon ac yn bwriadu tywys gwledydd ar hyd 'llwybr cynaliadwy a chydnerth'. Dylem gydnabod y rheidrwydd i sicrhau bod ein strategaeth masnach yn hybu'r amcanion hyn.

11 https://www.prb.org/2020-world-population-data-sheet/

## 3.4 Wynebu realiti

Bydd y blynyddoedd nesaf yn dod â newid digynsail, ond bydd cyfleoedd newydd yn agor i'r sector bwyd-amaeth wrth i ni addasu i amgylchedd ôl-UE ac ôl-COVID. Bydd llawer yn wahanol, a bydd addasu i hynny yn haws i rai nag i eraill.

Dylem wynebu'r dyfodol gyda pholisi pragmatig a chanddo seiliau cadarn. Yn ddealladwy, mae rhethreg llywodraeth y DU yn aml yn pwysleisio y bydd pawb ar ei ennill. Ond y realiti yw na fydd pawb yn well ei fyd. Bron yn sicr, bydd gadael yr UE yn golygu ailstrwythuro yn y sector amaethyddol. Bydd cymorth y Llywodraeth yn helpu busnesau gyda'r newidiadau, ond rydym yn disgwyl y bydd rhai yn methu â chadw i fyny mewn amgylchedd newydd a mwy cystadleuol ac y byddant yn gadael y diwydiant. Y peth pwysig yw i Lywodraeth y DU fod yn onest ac agored am hyn, fel y gallant liniaru'r effeithiau a thargedu cymorth trosiannol at y rhai y gall eu helpu.

Drwy gyfrwng masnach ryngwladol, dylem ymdrechu i sicrhau cystadleuaeth deg; yn sicr, dylem fynd i'r afael â llurguniadau annerbyniol yn y farchnad a rhoi'r sylfaen orau i'n busnesau fasnachu a llwyddo. Ond y realiti yn y bôn yw bod sefyllfa gwbl deg a chydradd i bawb, ar lefel fyd-eang, yn anghyraeddadwy. Mae gan bob gwlad ei gwe gymhleth ei hun o bolisïau, rheoleiddio, mecanweithiau cefnogi a hanes. Wrth i ni ymdrechu i sicrhau tegwch, dylem ganolbwyntio ar wneud y gorau o gryfderau'r DU mewn meysydd lle mae gennym fantais dros eraill.

Bydd angen ychydig o gymorth ychwanegol ar wledydd sy'n datblygu i lwyddo yn lleol ac mewn cadwyni cyflenwi byd-eang, ac i ddefnyddio masnach fel un llwybr i godi allan o dlodi. Rydym wedi bod yn ymwybodol y gallai ein dull o weithredu, ac yn arbennig ein polisi mewnforio arfaethedig a gyflwynir yn yr adroddiad hwn, gynnig llai o fanteision cymesur i'r gwledydd hyn. Yn anffodus, gyda rhyddfrydoli masnach ac wrth i dariffau a rhwystrau eraill ddiflannu, mae'n anochel y bydd y driniaeth ffafriol a roddir i wledydd sy'n datblygu yn unioni. Y peth pwysig yw cydnabod hyn a bod yn ymwybodol y bydd unrhyw newidiadau i reolau masnachu'r DU, yn ogystal ag ymrannu cynyddol oddi wrth drefniadau'r UE, o bosibl yn fwy anodd i wledydd sy'n datblygu addasu iddynt. Yna, dylem roi cymorth mewn lle i'w helpu i addasu.

**"Mae diogeledd bwyd byd-eang yn her i'r holl fyd ac, wrth fynd i'r afael â'r her hon, mae pob gwlad yn gyd-ddibynnol."**



# Dyfodol Bwyd

## Tueddiadau a heriau byd-eang

**Erbyn y Flwyddyn**
**2050**
**Poblogaeth y Byd**
**9.7 biliwn**

**2/3**
yn byw mewn ardaloedd trefol

Bydd nifer y bobl ifanc 15-24 oed yn cynyddu'n sylweddol yn Affrica Is-Sahara a De Asia

Bydd y galw am fwyd yn tyfu

**1**
**Gwella cynhyrchiant amaethyddol yn gynaliadwy er mwyn bodloni'r galw cynyddol**

Mae'r galwadau am fwyd yn cynyddu cystadleuaeth am adnoddau naturiol, datgoedwigo a diraddio tir

**2**
**Sicrhau sylfaen adnoddau naturiol gynaliadwy**

Mae cynyddu allyriadau nwyon tŷ gwydr ynni ffosil yn gwaethygu newid hinsawdd

Mae newid hinsawdd yn peryglu cynhyrchu cnydau a da byw, stociau pysgod a physgodfeydd

**3**
**Mynd i'r afael â Newid hinsawdd a dwysáu peryglon naturiol**

**700 miliwn**
o bobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig yn dal yn dlawd iawn heddiw

**4**
**Dileu tlodi eithafol a lleihau anghydraddoldeb**

**800 miliwn**
o bobl yn llwglyd yn gronig

**2 biliwn**
Yn dioddef o ddiffygion microfaethynnau

Mae gorbwysau a gordewdra yn cynyddu ledled y byd

**5**
**Rhoi stop ar newyn a phob math o ddiffyg maeth**

Yn fyd-eang, mae tua thraean o'r holl fwyd a gynhyrchir yn cael ei golli neu ei wastraffu gan arwain at golledion i ffermwyr a phwysau diangen ar adnoddau naturiol

**6**
**Gwneud systemau bwyd yn fwy effeithlon, cynhwysol a chadarn**

Bydd twf yn y boblogaeth, globaleiddio, anghydraddoldebau a newid hinsawdd yn cyflymu mudo oherwydd trallod

**7**
**Gwella cyfleoedd i ennill incwm mewn ardaloedd gwledig a mynd i'r afael ag achosion sylfaenol mudo**

**1/2 biliwn**
o bobl mewn mwy nag 20 o wledydd yn dioddef effaith yr argyfwng hirfaith

**8**
**Meithrin gwydnwch i argyfyngau hirfaith, trychinebau a gwrthdaro**

Mae achosion o blâu a chlefydau trawsffiniol planhigion ac anifeiliaid yn tyfu'n frawychus

**9**
**Atal bygythiadau trawsffiniol newydd i amaethyddiaeth ac i'r system fwyd**

**10**
**Mynd i'r afael â'r angen am drefn lywodraethu genedlaethol a rhyngwladol cydlynol ac effeithiol**

http://www.fao.org/resources/infographics/infographics-details/en/c/471471/

# Yr hinsawdd, yr amgylchedd, lles anifeiliaid a masnach foesegol

# 4. Yr hinsawdd, yr amgylchedd, lles anifeiliaid a masnach foesegol


Fferm wynt yn yr Alban

## 4.1 Newid hinsawdd a'r amgylchedd

### Ymagwedd y DU

Newid hinsawdd yw prif her ein cenhedlaeth. Bernir bod y DU ymhlith y rhai sydd ar flaen y gad o ran mynd i'r afael â'r her. Mi oedd, er enghraifft, yn un o'r prif economïau i ymgorffori targed o sero allyriadau net mewn cyfraith erbyn 2050. Fodd bynnag, mae angen anorchfygol i'r llywodraeth ddangos arweinyddiaeth cenedlaethol a rhyngwladol. Mae hyn yn golygu camau gweithredu, nid addewidion ac ymrwymiadau. Rydym yn cydnabod y bydd y DU yn cael yr amgylchedd y mae'n barod i dalu amdano.

Mae diddordeb defnyddwyr mewn cynaliadwyedd, newid hinsawdd a'r amgylchedd yn uchel ac yn tyfu. Dangosodd ein hymchwil fod ystyriaeth o'r amgylchedd a'r newid hinsawdd, i ddefnyddwyr y DU, ymhlith y blaenoriaethau o ran penderfyniadau prynu bwyd. Mae ymchwil gan fanwerthwyr wedi cadarnhau bod lleihau pecynnau plastig yn flaenoriaeth i ddefnyddwyr. Mae craffu ar bolisïau masnach yn hyn o beth yn debygol o dyfu. Yn ôl *Which?*, mae defnyddwyr yn cydnabod bod cysylltiad cryf rhwng masnach a'r amgylchedd[12]. Maent am i gytundebau masnach y DU helpu i gyflawni targed 2050 sero net y DU a darparu arweinyddiaeth drwy ein hymrwymiadau amgylcheddol. Rhaid i ni beidio â siomi ein plant, ein hwyrion a'n hwyresau drwy anwybyddu neu arafu ymdrechion i ddelio â'r materion hyn.

Bydd y diwydiant bwyd-amaeth ymhlith y rhai sy'n cyfrannu at y newid hinsawdd a heriau amgylcheddol eraill yr effeithir arnynt fwyaf, ond mae hefyd ymhlith y rhai sy'n dangos arweiniad wrth fynd i'r afael ag ef. Mae ei arweinwyr wedi anabod brys a graddfa'r newidiadau sydd eu hangen. Mae arferion masnachol sy'n ymwneud â diogelu a gwella'r amgylchedd yn aml wedi datblygu cyn polisi a thargedau llywodraeth ddomestig; er enghraifft, mae gan Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU Cymru), uchelgais i sector ffermio'r DU gyflawni allyriadau sero net erbyn 2040. Mae ein ffermwyr a'n tyfwyr eisoes yn geidwaid ein cefn gwlad gwerthfawr ac yn fedrus mewn rheolaeth amgylcheddol. Mae polisi newydd y llywodraeth yn bwriadu cefnogi'r angen a'r uchelgais i ddarparu nwyddau cyhoeddus. Mae manwerthwyr ac eraill yn y gadwyn gyflenwi bwyd hefyd yn ymrwymo i weithredu drwy eu strategaethau cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol eu hunain a thrwy'r gofynion sydd wedi'u hymgorffori mewn cynlluniau sicrwydd trydydd parti.

> **"Newid hinsawdd yw'r her fawr i'n cenhedlaeth."**

12 https://campaigns.which.co.uk/trade-deals/national-trade-conversation/

Y llynedd, cyhoeddodd Llywodraeth y DU hefyd y bydd adrodd am risgiau yn yr hinsawdd yn orfodol i fusnesau mawr a sefydliadau ariannol, gyda gweithrediad graddol o 2021[13]. Bydd gofyn i'r sefydliadau hynny ddatgelu risgiau materol a chyfleoedd sy'n deillio o newid hinsawdd o dan wahanol senarios hinsawdd yn y dyfodol. Bydd angen iddynt hefyd ddatgelu allyriadau nwyon tŷ gwydr eu sefydliad o dan 3 phennawd ar wahân:

1. Allyriadau uniongyrchol lle mae gan y cwmni reolaeth weithredol;
2. Defnyddio ynni a fewnforir lle mae gan y cwmni reolaeth weithredol; a
3. Allyriadau anuniongyrchol sy'n gysylltiedig ag effaith cadwyn werth cwmni.

Mae hwn yn gam arall i gyrraedd targed uchelgeisiol sero net y DU, ac mae gan adferiad economaidd ôl-COVID-19 y DU y potensial i leihau'r risgiau sy'n deillio o newid hinsawdd.

## Polisi Masnach y DU

Dylai polisi masnach y DU ysgogi modelau cynhyrchu a defnyddio mwy cynaliadwy. Dylid ymgorffori darpariaethau perthnasol mewn Cytundebau Masnach Rydd, gan hyrwyddo datblygiad y safonau byd-eang. Dylid ystyried defnyddio cymalau 'anatchweliad' mewn Cytundebau Masnach Rydd (y cymalau sy'n ymrwymo i beidio â gostwng safonau). Gallai'r DU dynnu ar strategaethau bwyd domestig sy'n cael eu rhoi ar waith yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon i lunio'r darpariaethau hynny.

Rydym yn cydnabod bod arweinyddiaeth ddomestig y DU o ran mynd i'r afael â'r newid hinsawdd a'r amgylchedd yn golygu y gallai busnes y DU wynebu risg gystadleuol wrth fasnachu â gwledydd nad yw eu safonau amgylcheddol yn cyfateb i'r DU o bosibl. Bydd yn bwysig diogelu safonau amgylcheddol y DU drwy roi dull beiddgar ar waith o ran mewnforion a nodwyd gennym yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.

## Arweinyddiaeth yn yr hinsawdd ac amgylcheddol drwy gydweithrediad rhyngwladol

Yn fyd-eang, mae heriau newid hinsawdd, colli bioamrywiaeth, pridd, ansawdd dŵr ac aer, a phwysau amgylcheddol eraill yn gofyn am weithred ar frys. Rhaid i'r DU ddefnyddio'r holl offer sydd ar gael iddo wrth fynd i'r afael â hwy ac mae hyn yn cynnwys polisi masnach. Mae angen i bolisi masnach cyffredinol ymateb i newid hinsawdd, codi safonau a pherfformiad amgylcheddol byd-eang a helpu i gyflawni Cynllun Amgylcheddol 25 Mlynedd y DU[14]. Rhaid i'r DU arwain drwy esiampl gyda'i ymrwymiadau domestig. Rhaid iddo osgoi tanseilio ei ddull domestig neu 'wrthbwyso' ei effaith amgylcheddol drwy ei bolisi mewnforio. Rhaid i'r DU ddangos arweinyddiaeth fyd-eang drwy weithio gydag eraill i godi safonau ledled y byd. Ni ddylai hyn fod yn groes i ymagwedd ryddfrydol tuag at fasnachu oherwydd bydd effaith hirdymor newid hinsawdd a dirywiad amgylcheddol yn arwain at ganlyniadau negyddol dwys ar y system fwyd gyfan yn fyd-eang.

Rydym yn pwyso ar Lywodraeth y DU i weithio gyda phartneriaid o'r un meddylfryd ac arwain y gwaith o greu fframwaith safonau a gydnabyddir yn fyd-eang ar gyfer yr amgylchedd. Byddai hyn yn caniatáu i wledydd ddod i gytundeb ar gyfres sylfaenol o feini prawf ar gynhyrchu cynaliadwy ar draws ystod o ffactorau megis bioamrywiaeth, iechyd y pridd, ansawdd dŵr ac aer a gwenwyndra agrocemegol. Byddai angen i'r gwledydd dan sylw weithio gyda'u cymdeithas sifil, y byd academaidd, busnesau ac eraill i ddatblygu fframwaith o'r fath. Un enghraifft yw 'Codex Planetarius' y WWF yr ydym yn ei gymeradwyo fel model y gallai'r DU ei ddefnyddio wrth eirioli am gonsensws amlochrog ar safonau amgylcheddol ar gyfer cynhyrchu bwyd-amaeth. Er mwyn llwyddo yn y dull hwn, byddai angen i'r DU arwain drwy esiampl drwy sefydlu cyfres gyfatebol o safonau amgylcheddol cenedlaethol manwl gywir.

Mae angen hwyluso cydweithredu rhyngwladol hefyd gyda chyfres glir o fetrigau cyson ar gyfer mesur cynaliadwyedd amgylcheddol ar draws y gadwyn gyflenwi bwyd-amaeth fyd-eang. Rydym yn argymell bod y DU yn cefnogi ac yn arwain ar hyn. Mae'n hanfodol bod y metrigau yn gyson ac yn seiliedig ar wyddoniaeth. Byddai hyn yn lliniaru'r risg y bydd y metrigau yn cael eu gwleidydda. Mae hefyd yn bwysig bod unrhyw fetrigau a ddatblygir yn llenwi'r bylchau sylweddol sy'n bodoli mewn data a all fesur cynnydd mewn perthynas â Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig. Yna, dylid defnyddio meincnodi rhyngwladol i asesu cynnydd pob gwlad. Dyliai meincnodi gael ei ddatblygu ar sail ecwiti, ac yng nghyd-destun datblygu cynaliadwy ac ymdrechion i gael gwared ar dlodi, sy'n flaenoriaethau hanfodol ar gyfer llawer o wledydd sy'n datblygu, a dylai fod yn unol â'r dull a gymerwyd yng Nghytundeb Paris.

13 https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/933782/FINAL_TCFD_REPORT.pdf
14 https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/925779/25-yep-indicators-2019.pdf



# Astudiaeth achos

## Codex Planetarius

Byddai Codex Planetarius yn darparu system orfodol i fonitro iechyd adnoddau amgylcheddol adnewyddadwy a ddefnyddir i gynhyrchu bwyd a fasnachir yn fyd-eang. Gan ganolbwyntio ar raddfa blanedol, mae'n sefydlu ac yn gofyn am lefelau perfformiad gofynnol i wledydd fynd i mewn i farchnadoedd byd-eang. Byddai Codex Planetarius newydd yn eistedd ochr yn ochr â'r Codex Alimentarius presennol ar gyfer diogelwch bwyd, gan roi safon a gydnabyddir yn rhyngwladol ar gyfer iechyd planedol sy'n adlewyrchu'r hyn sydd gennym ar gyfer iechyd a diogelwch pobl.

Byddai'r Codex Planetarius yn anelu at adeiladu consensws amlochrog o amgylch cyfres o feini prawf gofynnol sy'n gyfystyr â chynhyrchu cynaliadwy ar gyfer y nwyddau bwyd pwysicaf a fasnachir yn fyd-eang, a fydd yn cynnwys a hysbysu llywodraethau, cynhyrchwyr, busnesau, awdurdodau masnach, sefydliadau amlochrog, cyrff anllywodraethol, cymdeithasau sifil a sefydliadau allweddol eraill.

Er bod gwledydd blaenllaw a mentrau gwirfoddol yn gallu ac yn gosod eu safonau amgylcheddol uwch eu hunain i symud tuag at gynhyrchu cynaliadwy, nid yw llawer yn gwneud hynny, gan caniatáu i'r 25% isaf o gynhyrchwyr sy'n cyfrif am 50% o ddifrod amgylcheddol barhau i ddefnyddio'r arferion amaethyddol mwyaf anghynaliadwy a niweidiol.

Byddai datblygu'r codex newydd hwn yn creu fforwm a phroses agored a thryloyw ar gyfer dod i gonsensws ar y materion hyn. Gellid ymgorffori'r safonau gofynnol hyn mewn safonau bwyd cynaliadwy, gan gynnwys canllawiau a chodau ymarfer. Byddai'n cyfrannu at leihau colli bioamrywiaeth, hyrwyddo nodau adfer, ac yn helpu i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a achosir gan systemau bwyd sy'n effeithio ac, yn eu tro, yn cael eu heffeithio gan newid hinsawdd.

# NODAU DATBLYGU CYNALIADWY



Dylai'r DU hefyd gymryd rhan mewn trafodaethau amlochrog perthnasol, megis negodi amlochrog y Cytundeb ar Newid Hinsawdd, Masnach a Chynaliadwyedd (ACCTS) gyda Seland Newydd, Costa Rica, Fiji, Gwlad yr Iâ, Norwy a'r Swistir. Credwn y dylid rhoi cyfrifoldeb penodol i weinidog y llywodraeth i arwain ar hyn a materion pwysig eraill sy'n seiliedig ar safonau yn Sefydliad Masnach y Byd a chyrff rhyngwladol eraill.

### 2021: blwyddyn ar gyfer arweinyddiaeth y DU

2021 yw'r flwyddyn i'r DU ddangos arweinyddiaeth amgylcheddol. Er mwyn i fasnach fyd-eang ffynnu yn y dyfodol, rhaid ei gwneud yn fwy cynaliadwy ac yn gallu gwrthsefyll ergydion allanol. Rhaid i'r DU arddangos ei safonau uchel ei hun, dwyn pwysau ar fforymau rhyngwladol a gweithio gyda phartneriaid rhyngwladol i godi safonau'r hinsawdd a'r amgylchedd. Mae'r cyfleoedd yn cynnwys COP26 (Newid Hinsawdd), COP15 (Amrywiaeth Fiolegol), Uwchgynhadledd G7, 12fed Cynhadledd Weinidogol Sefydliad Masnach y Byd, Uwchgynhadledd Systemau Bwyd y Cenhedloedd Unedig a Fforwm Economaidd y Byd yn Davos. Yn y digwyddiadau hyn rydym yn argymell bod y DU yn mynd i'r afael â'r canlynol:

- bod yn rhaid i weithgarwch masnach ymgorffori ystyriaethau newid hinsawdd yn ogystal ag adnabod metrig addas yn seiliedig ar wyddoniaeth sydd wedi'i ddadwleidydda ar gyfer mesur effeithiau
- dull gwyddoniaeth ac yn seiliedig ar ddata i'w ddatblygu ar gyfer cyfrifo methan carbon a methan anifeiliaid sy'n cnoi cil. Bydd hyn yn cynnwys datrys y materion gwleidyddol sy'n atal y Panel Rhynglywodraethol ar Newid Hinsawdd (IPCC) rhag mabwysiadu'r sail wyddonol ar gyfer sut y cyfrifir methan anifeiliaid sy'n cnoi cil
- cydweithredu â phartneriaid masnachu sy'n datblygu mecanweithiau megis addasiadau i ffiniau carbon, er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni amcanion lliniaru byd-eang a masnach agored effeithiol
- gwthio i wledydd eraill gael yr un lefel o ymrwymiad i nodau amgylcheddol â'r DU, mewn meysydd arweinyddiaeth, megis ar dargedau sero net
- adeiladu ar yr hyn a gyflawnwyd drwy safonau uchel y DU, gan gynnwys gostyngiadau mewn plaladdwyr, gwastraff bwyd a phecynnu, defnyddio plastigau, ymwrthedd gwrthficrobaidd (AMR), tanwyddau ffosil a defnydd uwch o ynni adnewyddadwy

**Argymhelliad 3:**
Mae newid hinsawdd a phwysau amgylcheddol eraill o'r pwys mwyaf fel bod rhaid i Lywodraeth y DU sicrhau eu bod yn rhan annatod o'i pholisi masnach a'i thrafodaethau. Dylai hyrwyddo'r materion hyn mewn fforymau rhyngwladol, yn enwedig y COP26. Dylai gefnogi creu fframwaith safonau byd-eang ar gyfer yr amgylchedd a metrigau clir ar gyfer mesur cynaliadwyedd amgylcheddol, tra'n sefydlu cyfres gyfatebol o safonau cenedlaethol manwl gywir. Gallai Codex Planetarius yr WWF fod yn fodel i adeiladu'r uchelgeisiau hyn.

## 4.2 Lles Anifeiliaid

### Cryfder ac arweinyddiaeth y DU

Mae'r DU yn cael ei chydnabod yn fyd-eang am fod ymhlith y gorau o ran safonau ac arferion lles anifeiliaid. Mae fframwaith cyfreithiol cryf a chynhwysfawr yn sail i safonau uchel y DU. Y DU, yn nodedig, oedd y wlad gyntaf yn y byd i ddeddfu deddfwriaeth genedlaethol ar les anifeiliaid ac mae wedi cryfhau ei hymrwymiad yn barhaus byth ers hynny. Yn ystod ei haelodaeth o'r UE, aeth y DU ymhellach na chytunodd yr UE ar fesurau, gan gyflwyno rheoliadau cynhyrchu domestig i wella lles anifeiliaid yn y DU.

Mae ymrwymiad sector bwyd-amaeth y DU i safonau uchel o les anifeiliaid, sy'n aml yn mynd ymhellach na'r hyn sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth genedlaethol, yn cael ei ddangos gan y trefniadau masnachol sydd ar waith drwy'r gadwyn fwyd rhwng ffermwyr, cyflenwyr, gweithgynhyrchwyr, manwerthwyr ac arlwywyr. Mae'r rhan fwyaf o ffermwyr yn arddangos hyn yn fwyaf amlwg drwy gofrestru ar gyfer cynlluniau sicrwydd gwirfoddol megis Red Tractor, Cynllun Gwarant Fferm Da Byw neu gynllun Sicrwydd Ansawdd Fferm Cig Eidion a Chig Oen Gogledd Iwerddon. Yn aml, bydd manwerthwyr a busnesau yn y sector lletygarwch yn mynnu cadw at eu safonau eu hunain a chynlluniau eraill megis RSPCA Assured, y Cyngor Stiwardiaeth Forol, Cymeradwyaeth Cyflenwyr Diogel a Lleol (SALSA) a Safon Fyd-eang Consortiwm Manwerthu Prydain.

Mae perfformiad uchel y DU a'i gefnogaeth o safonau lles uchel yn rhoi pwynt gwerthu unigryw inni y gallwn ei ddefnyddio i dargedu marchnadoedd allforio yn llwyddiannus gyda'n cig, pysgod, llaeth a chynhyrchion anifeiliaid eraill. Wrth i ni adael cyfyngiadau aelodaeth yr UE a dechrau ar gyfnod newydd o drafodaethau masnach, mae sylw'r cyhoedd, fodd bynnag, wedi canolbwyntio'n sylweddol ar y risg posibl o fewnlifiad o gynnyrch a fewnforiwyd i'r DU, a gynhyrchir yn unol gyda safonau lles is. Mae'r pryder yn rhannol ynghylch erydiad yn llwyddiannau'r DU o ran gwella safonau lles anifeiliaid fferm, ac yn rhannol ynghylch y posibilrwydd o danseilio gallu cynhyrchwyr y DU i gystadlu â chynhyrchion o wledydd sydd â chostau cynhyrchu is o ganlyniad i safonau lles wedi'u cyfaddawdu.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gweld y Llywodraeth yn cael ei lobïo er mwyn cael sicrwydd a diogelwch. Dyna oedd un o'r ffactorau ysgogol wrth sefydlu'r Comisiwn hwn. Rydym wedi cymryd y cyfrifoldeb hwnnw o ddifrif ac wedi nodi ein polisi arfaethedig yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn. Ar yr un pryd, fodd bynnag, mae'n bwysig bod y ddadl gyhoeddus emosiynol yn seiliedig ar ffeithiau am y risgiau gwirioneddol sy'n deillio o fewnforion, yn hytrach na'u bod yn seiliedig ar ddyfalu llai gwybodus. Dyna pam y bydd gosod amcan gwrthrychol cadarn a thryloyw ac asesu effaith cytundebau masnach posibl yn hanfodol.

## Pryderon lles defnyddwyr

Mae lles anifeiliaid yn agos at galonnau cyhoedd Prydain. Adlewyrchir hyn yn ymddygiad defnyddwyr sy'n dod yn fwyfwy ymwybodol o'r materion sy'n ymwneud â lles anifeiliaid. Dangosodd ein hymchwil nad yw defnyddwyr yn ymwybodol iawn o fewnforion nad ydynt yn cyfarfod safonau cynhyrchu domestig y DU. Mae'r fframwaith rheoleiddio presennol yn canolbwyntio ar fwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw sy'n cael ei gyflenwi'n uniongyrchol i'r defnyddiwr. O fod yn fwy eglur ynghylch safonau ar gyfer mewnforion, mae cyfleoedd yn codi i weithio gyda'r diwydiant er mwyn gwella tryloywder a gwybodaeth drwy gadwyni cyflenwi bwyd.

Penderfynodd ein Gweithgor Defnyddwyr fod tryloywder ar les yn y system fwyd, trwy wybodaeth a labelu clir, yn meithrin ymddiriedaeth ac yn ysbrydoli defnyddwyr i wneud penderfyniadau ymwybodol. Mae cynlluniau sicrwydd yn chwarae rhan ddefnyddiol wrth gynnig mesur 'dirprwy' ar gyfer ystod o safonau perfformiad, mewn ffordd sy'n hawdd i ddefnyddwyr ei gydnabod. Ar ôl i'r UE gyflwyno dull gorfodol o labelu cynhyrchu ar gyfer wyau yn 2004, cynyddodd gwerthiant wyau buarth yn y DU o 32% yn 2004 i 60% yn 2019[15]. Yna, arweiniodd y pwysau hwn gan ddefnyddwyr at y diwydiant yn newid ei ddull o weithredu a diwygio dulliau cynhyrchu.

Mae rhai sefydliadau yn y diwydiant yn gweithio ar hyn o bryd ar feithrin ymddiriedaeth gyda defnyddwyr. Er enghraifft, yn nigwyddiad blynyddol Dydd Sul Fferm Agored LEAF, roedd 93% o'r ymwelwyr yn teimlo'n fwy cysylltiedig â'r ffermwyr a gynhyrchodd eu bwyd[16]. Mae digwyddiadau o'r fath yn meithrin ymddiriedaeth rhwng defnyddwyr a'r diwydiant ffermio ac yn ysbrydoli defnyddwyr i wneud penderfyniadau mwy ymwybodol.

## Cyfleoedd o'n blaenau

Ni fydd ymddygiad defnyddwyr, ynddo'i hun, yn diogelu safonau lles craidd y DU os caiff masnach ei ryddfrydoli. Mae amrywiaeth sylweddol mewn safonau lles anifeiliaid ledled y byd. Nid yw'r DU yn mynnu bod cynnyrch sy'n cael ei fewnforio yn cyrraedd safonau amgylcheddol neu les anifeiliaid y DU wrth gael eu mewnforio i'r DU. Mae'r dull polisi beiddgar a gynigir yn yr adroddiad hwn yn cyfateb i ryddfrydoli masnach pellach er mwyn diogelu safonau megis lles anifeiliaid, gyda mecanweithiau ar gyfer unioni'r materion cystadleuaeth a fyddai'n codi lle nad yw allforion a ganiateir yn cyrraedd y safonau perthnasol.

Nid yw'r dull polisi hwnnw, er ei fod yn bwysig ynddo'i hun, yn ddigonol. Mae ymagwedd sy'n seiliedig ar werth at fasnachu ac agor marchnad y DU i'r byd yn ei gwneud yn ofynnol i'r DU fanteisio ar ei harbenigedd domestig cryf a dangos arweinyddiaeth wrth godi safonau byd-eang. Mae'n rhaid i ni wneud hyn er mwyn bod yn deg – yn deg i gynhyrchwyr a defnyddwyr domestig drwy godi safonau, ac er mwyn bod yn deg i'r anifeiliaid yr ydym yn dibynnu arnynt am fwyd. Drwy gyflwyno cynigion sydd wedi'u llunio'n ofalus, yn gyson ac yn seiliedig ar dystiolaeth, gall y DU weithio gyda phartneriaid rhyngwladol mewn dull aml-elfen i godi safonau lles anifeiliaid yn fyd-eang.

Dylai Llywodraeth y DU ystyried mesurau megis cymalau anatchweliad, sy'n ei gwneud yn ofynnol nad yw gwledydd yn lleihau eu safonau, o fewn cytundebau masnach dwyochrog.

Rhaid i'r DU ddyblu ei hymdrechion i weithio gyda gwledydd tebyg o fewn Sefydliad Iechyd Anifeiliaid y Byd er mwyn cryfhau ac ymestyn ei safonau ar les anifeiliaid. Mae'r DU yn rhagori ar lawer o'r safonau iechyd a lles anifeiliaid sydd wedi cael eu mabwysiadu gan Sefydliad Iechyd Anifeiliaid y Byd a dylai geisio dylanwadu ar safonau byd-eang fel bod eraill yn gwneud yr un fath. Mae hefyd angen diwygio o fewn Sefydliad Masnach y Byd, lle ceir heriau penodol. Ar hyn o bryd, nid yw cyfyngiadau masnach ar sail lles yn dderbyniol yn gyffredinol o dan reolau Sefydliad Iechyd y Byd, er y gallai eithriadau o dan y Cytundeb Cyffredinol ar Dariffau a Masnach Erthygl 20(a) mewn rhai amgylchiadau penodol fod yn bosibl. Credwn y dylid rhoi cyfrifoldeb penodol i weinidog i arwain ar y materion hyn a materion eraill sy'n seiliedig ar safonau yn Sefydliad Masnach y Byd a chyrff rhyngwladol eraill.

**Argymhelliad 4:**
Dylai'r DU fanteisio ar ei chryfderau o ran lles anifeiliaid er mwynarwain y byd wrth ei ymgorffori mewn poli masnach. Dylai Llywodraeth y DU chwarae rhan arweiniol mewn fforymau rhyngwladol, er mwyn codi safonau byd-eang ar les anifeiliaid. Dylai wneud hyn drwy fuddsoddi mewn cyfleusterau arbenigol ac arbenigwyr a all roi cyngor annibynnol i'r llywodraeth. Yna, dylai ddatblygu perthnasau rhyngwladol a chyflwyno cynigion sy'n cael eu llunio'n ofalus, sy'n argyhoeddiadol ac yn seiliedig ar dystiolaeth.

## Mynd i'r afael â'r bygythiad byd-eang o ymwrthedd gwrthficrobaidd

Un o'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer cydweithredu â phartneriaid rhyngwladol yw hyrwyddo defnydd cyfrifol o driniaethau gwrthficrobaidd wrth gynhyrchu anifeiliaid ac i roi'r gorau i'w defnyddio'n rhyngwladol fel hyrwyddwyr twf, yn unol â'r dull Iechyd Cyfunol o leihau'r bygythiad byd-eang o ymwrthedd gwrthficrobaidd.

Ers cyhoeddi'r Adolygiad o Ymwrthedd Gwrthficrobaidd, dan gadeiryddiaeth yr Arglwydd O'Neill[17] yn 2016, mae ffermwyr y DU ac eraill wedi cyflymu eu hymdrechion i leihau'r defnydd o wrthfiotigau ac yn enwedig y gwrthfiotigau allweddol sy'n gysylltiedig â risgiau i iechyd pobl. Cyflawnwyd llawer o'r gwaith hwnnw heb droi at reoleiddio. Dylai'r DU efelychu cytundeb yr UE-DU a chael polisi AMR cryf o fewn cytundebau masnach i godi lefelau gweithredu i gyd-fynd â'n dull domestig. Dylai'r polisïau hyn adlewyrchu cytundebau rhyngwladol gan gynnwys Cynllun Gweithredu Byd-eang Sefydliad Iechyd y Byd ar AMR. Dylai'r DU ddefnyddio cyfleoedd i yrru camau gweithredu ar AMR trwy bolisi masnach mewn fforymau megis Uwchgynhadledd Diogelwch Bwyd y Cenhedloedd Unedig yn ddiweddarach eleni. Wrth ystyried a all gwledydd sy'n allforio fodloni eu gofynion mewnforio SPS, dylai'r DU sicrhau bod ganddynt Gynllun Gweithredu Cenedlaethol effeithiol ar AMR.

**Argymhelliad 5**:
Mae'n bwysig mynd i'r afael ag ymwrthedd gwrthficrobaidd yn unol â Chynllun Gweithredu Byd-eang Sefydliad Iechyd y Byd. Dylai llywodraeth y DU gymhwyso'r dull a gymerwyd yng Nghytundeb Cydweithredu UE-DU, ym mhob trafodaeth ynghylch masnach yn y dyfodol. Dylai hefyd fabwysiadu safiad cryf ar AMR mewn fforymau amlochrog ac yn Uwchgynhadledd Systemau Bwyd y Cenhedloedd Unedig yn ddiweddarach yn 2021.

15 https://ahdb.org.uk/consumer-insight-trust-transparency-and-traceability
16 https://s3-eu-west-1.amazonaws.com/leaf-website/LEAFs-Global-Impacts-Report-2020-FINAL.pdf
17 https://amr-review.org/sites/default/files/160525_Final%20paper_with%20cover.pdf

# “Mae defnyddwyr yn disgwyl i hawliau dynol cryf, gan gynnwys hawliau llafur, gyd-fynd â rhyddfrydoli masnach.”

## 4.3 Masnach foesegol: hawliau dynol gan gynnwys gweithwyr

### Cyd-destun

Gan fod masnach bwyd-amaeth y DU wedi ehangu ymhellach i farchnadoedd newydd, mae diddordeb y cyhoedd a chraffu wedi cynyddu yn yr un modd. Mae defnyddwyr eisiau gwybod o ble mae bwyd wedi'i fewnforio yn dod a sut y cafodd ei gynhyrchu. Mae defnyddwyr yn disgwyl i hawliau dynol cryf, gan gynnwys hawliau llafur, gyd-fynd â rhyddfrydoli masnach ac maent eisiau sicrwydd bod cynnyrch yn cael eu creu yn foesegol[18]. Mae masnachu moesegol wedi bod yn un o'n prif ystyriaethau trwy waith y Comisiwn. Mae'n rhaid i werthoedd moesegol barhau i gael eu hintegreiddio i bolisi masnach ac nid eu dehongli fel 'allanoldeb.' Nid ydynt yn 'braf i gael.' Dylai Llywodraeth y DU ystyried yn ofalus a ddylid mynd i'r afael â thrafodaethau masnach gyda gwledydd sydd ag achosion o droseddau hawliau dynol, a sut. Dylai ystyried sut y gallai polisi masnach ategu amcanion polisi tramor cyffredinol.

Yn fyd-eang, mae gweithwyr yn y sector amaethyddol yn arbennig o agored i gamdriniaeth. Yn 2018, adroddodd Rapporteur Arbennig y Cenhedloedd Unedig ar yr Hawl i Fwyd fod “gweithwyr amaethyddol, gan gynnwys menywod, plant ac ymfudwyr a gweithwyr planhigfeydd, yn wynebu cyflogau isel, gwaith rhan-amser, anffurfioldeb, a diffyg diogelwch cymdeithasol ac economaidd.” [19]Wrth i'r galw byd-eang am fwyd gynyddu, gall y pwysau ar weithwyr â chyflog isel i weithio oriau hirach godi hefyd. Mae ein hymchwil yn awgrymu y gallai'r DU ganolbwyntio'n gyntaf ar gadwyni cyflenwi ar gyfer bananas, reis, coco, coffi a the. Yn ogystal â hyrwyddo hawliau dynol yn fyd-eang, byddai ymdrechion y DU i gynnal hawliau gweithwyr yn y cadwyni cyflenwi hyn hefyd yn elwa ar dwf economaidd a chyfleoedd i'r rhai mewn gwledydd sy'n datblygu.

Mae busnesau bwyd-amaeth y DU wedi arwain y ffordd, gyda dulliau eang a chadarnhaol o gyrchu moesegol wedi'u cynnwys yn eu hethos sefydliadol a'u strategaethau cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol. Mae busnesau'n cydweithio'n agos gyda phartneriaid mewn gwledydd eraill i gynnal safonau uchel ar lafur moesegol drwy gydol cadwyni cyflenwi byd-eang cymhleth. Mae cynlluniau sicrwydd trydydd parti yn rhoi rhagor o wybodaeth a sicrwydd i'r defnyddiwr. Bu i ni nodi cryfder brandiau Masnach Deg a Chynghrair y Goedwig Law ymhlith y cynlluniau sicrwydd oedd gyda'r ymwybyddiaeth fwyaf ymysg y cyhoedd. Er bod perfformiad busnes wedi bod yn gryf, mae cyfleoedd i lywodraethau gamu ymlaen a chefnogi'r hyn y maent yn ei wneud gyda rheoleiddio cryfach.

### Polisi a diplomyddiaeth llywodraeth y DU

Mae'n rhaid i Lywodraeth y DU gynnal hawliau llafur yn y DU a chefnogi busnesau i orfodi safonau, adnabod troseddwyr ac adeiladu clymbleidiau byd-eang i sicrhau nad oes unrhyw weithwyr yn cael eu cam-drin wrth gynhyrchu bwyd. Mae Llywodraeth y DU wedi gosod uchelgais i'w pholisi masnach fod yn “seiliedig ar werthoedd a chynhyrchu gwerth”[20]. Yn draddodiadol, mae hawliau dynol, gan gynnwys hawliau llafur, wedi chwarae rhan gyfyngedig yn unig mewn polisi masnach, ond nid yw hyn yn wir bellach. Ers 2013, mae dros 80% o gytundebau masnach rydd wedi cael darpariaethau hawliau llafur ac iaith hawliau dynol yn aml yn ymddangos mewn rhagymadroddion i gytundebau[21].

Yn gyntaf, mae'n rhaid i'r DU sicrhau ei bod yn arwain drwy esiampl ac nad oes unrhyw weithwyr amaethyddol yn cael eu cam-drin yn y DU. Mae'r Ddeddf Caethwasiaeth Fodern yn ceisio mynd i'r afael â hyn a disgwylir iddi gael ei chryfhau gan Lywodraeth y DU, yn ôl cynlluniau a gyhoeddwyd ym mis Medi 2020, fel bod busnesau nad ydynt yn bodloni gofynion tryloywder yn cael eu dirwyo[22]. Fodd bynnag, mae gweithwyr amaethyddol yn aml yn rhai tymhorol ac yn ymfudwyr, felly mae eu statws cyflogaeth ynghlwm wrth eu statws mewnfudo, a all arwain at ecsbloetiaeth yn ei hun. Mae'r Awdurdod Meistri Gangiau a Cham-drin Llafur yn diogelu gweithwyr sy'n agored i niwed ac yn cael eu hecsbloetio, ond dylai Llywodraeth y DU sicrhau bod yr Awdurdod hwn yn cael digon o gefnogaeth er mwyn chwarae rhan ragweithiol. Dylai'r diwydiant hefyd sicrhau bod pob busnes yn cynnal hawliau gweithwyr ac yn darparu cyflog a thriniaeth teg ac yn adeiladu ar fentrau presennol sydd â'r nod o wella gwybodaeth ac addysg o fewn y diwydiant llafur tymhorol i warchod rhag camfanteisio ar weithwyr.

18 Strategaeth Accenture, 2018: https://newsroom.accenture.com/news/covid-19-increasing-consumers-focus-on-ethical-consumption-accenture-survey-finds.htm
19 https://www.ohchr.org/EN/NewsEvents/Pages/DisplayNews.aspx?NewsID=23754&LangID=E
20 Ysgrifennydd Gwladol, Chatham House: https://www.gov.uk/government/speeches/chatham-house-speech-liz-truss-sets-out-vision-for-values-driven-free-trade
21 Asesiad o Ddarpariaethau Llafur mewn Trefniadau Masnach a Buddsoddi, Y Sefydliad Llafur Rhyngwladol, 2016: https://www.ilo.org/global/publications/books/WCMS_498944/lang--en/index.htm
22 https://www.gov.uk/government/news/new-tough-measures-to-tackle-modern-slavery-in-supply-chains

Dylai'r DU hefyd fod yn feiddgar wrth fynd i'r afael â'r materion hyn o fewn ei pholisi tramor a masnach. Mae penderfyniad diweddar y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu i gefnogi busnesau i dorri cysylltiadau â busnesau sy'n cyflenwi cynnyrch sydd wedi'i gynhyrchu drwy ddefnyddio llafur gorfodol yn dangos bod Llywodraeth y DU yn barod i weithredu er mwyn diogelu hawliau dynol mewn polisi masnach[23]. Er mwyn osgoi cyhuddiadau o ragfarn wleidyddol, mae Llywodraeth y DU angen safbwynt clir ar hawliau masnach a hawliau dynol y mae'n ei dilyn mewn trafodaethau cytundeb masnach rydd, yn ogystal ag yn ei pholisi masnach ehangach.

Dangosodd y bennod lafur yng Nghytundeb Partneriaeth y Môr Tawel y gall hawliau dynol fod yn rhan ganolog o bolisi masnach. Wrth fynd ar drywydd masnach sy'n 'seiliedig ar werthoedd', dylai Llywodraeth y DU drafod penodau llafur a darpariaethau Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol yn ei gytundebau masnach rydd yn y dyfodol, ac ystyried cymalau atal dros dro i ddiogelu a hyrwyddo hawliau dynol a masnach foesegol ledled y byd.

## Gorfodaeth

Dylai Llywodraeth y DU barhau i gefnogi busnesau i orfodi safonau ar hyd cadwyni cyflenwi byd-eang. Mae'r DU yn bartner i'r Sefydliad Llafur Rhyngwladol ac mae Llywodraeth y DU yn annog cwmnïau, undebau llafur a sefydliadau gwirfoddol i ymuno â'r Fenter Masnachu Moesegol a mabwysiadu ei chod sylfaenol. Mae sefydliadau sector preifat megis Sedex yn gwirio cydymffurfiaeth drwy archwiliadau dirybudd ar gadwyni cyflenwi. Mae manwerthwyr yn gosod ac yn cynnal safonau uchel ar hyd eu cadwyni cyflenwi a dylai'r Llywodraeth barhau i'w cefnogi. Mae defnyddwyr y DU yn gwerthfawrogi hyn ac yn gynyddol ymwybodol o faterion moesegol: cynyddodd gwerthiant y brand Masnach Deg o 13.7% rhwng mis Hydref 2019 a mis Hydref 2020[24].

Dylai Llywodraeth y DU flaenoriaethu gorfodaeth dramor fel rhan o'i pholisi masnach 'seiliedig ar werthoedd'. Mae angen dal busnesau tramor i gyfrif am dorri cyfraith ddomestig yn y gwledydd y maent yn gweithredu ynddynt. Y ffordd orau o yrru cydymffurfiaeth yw drwy amlygu gorfodaeth wael o'r gyfraith honno. Gallai Llywodraeth y DU gynnal ei hasesiad ei hun i roi cerdyn sgorio rheolaidd ar berfformiad gan wledydd allforio, gan ganiatáu i fusnesau'r DU wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch cyrchu a thynnu sylw at y gymuned fyd-eang lle mae problemau. Dylai Llywodraeth y DU hefyd sicrhau bod cyllid yn cefnogi cyfundrefnau gorfodi effeithiol, hyfforddiant a chefnogi gorfodaeth ym mhob gwlad.

Mae cyfyngiadau i'r hyn y gall Llywodraeth y DU ei wneud yn y system fasnachu fyd-eang. Fodd bynnag, os yw'n datblygu clymbleidiau byd-eang gyda manwerthwyr, cyflenwyr a chymdeithas sifil, gall helpu i gynyddu tryloywder a rhoi pwysau ar droseddwyr. Cafodd pŵer ymgysylltu amlochrog ei ddangos yn yr ymyrraeth yn y Diwydiant Bwyd Môr Thai. Yn 2012, yn dilyn pryderon cynyddol am amodau cyflogaeth ac adroddiadau am gam-drin gweithwyr yn systemig, ymunodd manwerthwyr o UDA, y DU a'r UE ynghyd â llywodraethau a chyrff anllywodraethol i roi pwysau ar y diwydiant i ddiwygio. Cafodd yr ymdrechion hynny eu gwobrwyo gyda gwelliannau gwirioneddol yn amodau'r rhai sy'n ymwneud â'r diwydiant.

**Argymhelliad 6:**
Dylai Llywodraeth y DU ymateb i'r newid amlwg yn agweddau'r cyhoedd tuag at fasnachu moesegol a nodi ei huchelgeisiau ar gyfer y sector bwyd-amaeth, er mwyn gosod esiampl i sectorau eraill. Dylai gynnal asesiad o arferion gorfodi dramor, er mwyn rhoi perfformiad cerdyn sgorio rheolaidd ar wledydd sy'n allforio. Dylai geisio cynnwys pennod llafur a darpariaethau Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol ym mhob un o'r Cytundebau Masnach Rydd. Yn olaf, dylai sicrhau bod y DU yn arwain drwy esiampl ym Mhrydain. Bydd hyn yn cynnwys gwella'r gefnogaeth i Awdurdod Meistri Gangiau a Cham-drin Llafur y DU. Mae hefyd yn golygu galw ar ddiwydiant y DU i sicrhau bod cyflogau ac amodau teg yn cael eu darparu ar gyfer gweithwyr tymhorol.

**Argymhelliad 7:**
Dylai Llywodraeth y DU geisio adeiladu cynghreiriau byd-eang i hyrwyddo a diogelu hawliau llafur gweithwyr mewn cadwyni cyflenwi allweddol. Mae ein hymchwil yn awgrymu y gallai'r DU ganolbwyntio'n gyntaf ar gadwyni cyflenwi ar gyfer bananas, reis, coco, coffi a the. Dylai gydweithio o fewn y Sefydliad Llafur Rhyngwladol, fel aelod sefydlol, i wthio i 8 confensiwn craidd y Sefydliad Llafur Rhyngwladol ddod yn asesiad o berfformiad ar hawliau llafur sy'n gysylltiedig gyda masnach, yn hytrach nag ymarferiad cofrestru.



23 https://www.gov.uk/government/news/uk-government-announces-business-measures-over-xinjiang-human-rights-abuses
24 https://www.ethicalconsumer.org/research-hub/uk-ethical-consumer-markets-report

**Safonau.**



Pigs in Scotland

# 5. Safonau

## 5.1 Pam mae safonau'n bwysig?

Mae safonau'n bwysig yn ddomestig ar gyfer rhoi sicrwydd i ddefnyddwyr bod eu bwyd yn cael ei gynhyrchu mewn ffordd sy'n ddiogel ac yn cydymffurfio â chyfreithiau amgylcheddol neu les anifeiliaid y DU. Yn rhyngwladol, gall safonau bwyd helpu i lunio llif masnach a hwyluso allforion gwerth uchel. Gallant hefyd gael effaith negyddol ar fasnach; yn gryno, os yw safonau mewnforio yn cael eu gosod yn rhy uchel, gallant weithredu neu ymddangos fel rhwystr nad yw'n tariff.

Mae pwysigrwydd safonau bwyd-amaeth wedi cael ei drafod yn eang yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae nifer o benawdau wedi cael eu llywodraethu gan alwadau ar Lywodraeth y DU i sicrhau nad yw cytundebau masnach yn y dyfodol yn gwanhau nac yn tanseilio safonau'r DU, yn enwedig ar les anifeiliaid na'r amgylchedd. Mewn rhai achosion, mae'r galwadau hynny yn seiliedig ar ddehongliad o safonau nad yw'n gwahaniaethu'n glir rhwng safon yng nghyfraith y DU, neu ddiwydiant preifat neu safon trydydd parti, sy'n golygu eu bod yn heriol mynd i'r afael â nhw. Darparodd hyn un o brofion llymaf y Comisiwn.

Mae gan y DU gyfle nawr, am y tro cyntaf ers degawdau, i hyrwyddo ein safonau ein hunain a sbarduno newid byd-eang cadarnhaol.

Credwn bod modd i'r DU gydbwyso datblygu polisi masnach rhyddfrydoli gyda diogelu ein rheolaethau pwysig ein hunain ar faterion megis diogelwch bwyd neu gaethwasiaeth fodern a heb rwystro trafodaethau, neu gael eu hystyried i fod yn warchodol. Ond mae taro'r cydbwysedd hwn yn anodd a bydd angen dull newydd o weithredu, a nodwyd gennym yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn (pennod 6).

## 5.2 Beth ydym ni'n ei olygu wrth safonau?

Mae gwahaniaeth rhwng safonau cynnyrch a safonau cynhyrchu:

- **Mae safonau cynnyrch** yn nodweddion cynnyrch y gellid eu mesur ar y ffin, er enghraifft pe bai mater diogelwch bwyd megis halogiad gan weddillion plaladdwyr anghyfreithlon a allai gael effaith ar iechyd pobl; a
- **Mae safonau cynhyrchu** yn ymwneud â'r broses gynhyrchu a byddent yn sicrhau diogelwch neu ansawdd y cynnyrch ond ni ellid eu cadarnhau drwy archwilio'r cynnyrch ar y ffin, er enghraifft os caiff cynnyrch ei farchnata fel cynnyrch organig, cynnyrch maes neu gynnyrch sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd.

### Safonau cynnyrch domestig

Yn y DU, mae cynhyrchwyr yn cydymffurfio ag ystod o ofynion cyfreithiol sy'n benodol i'w cynnyrch. Er enghraifft, gofyniad bod plaladdwr penodol yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd benodol ar gnydau er mwyn lleihau'r risgiau i'r amgylchedd neu iechyd pobl. Mae'r gofynion hyn yn aml yn ymwneud â diogelwch bwyd, rheoli clefydau, olrhain a lles anifeiliaid. Er nad yw'r rhain yn cael eu diffinio'n gyfreithiol fel 'safonau', maent yn gosod safon ofynnol y mae'n rhaid ei chyrraedd. O edrych ar ddofednod, mae gofynion cyfreithiol o ran isafswm maint cewyll ar gyfer dodwy ieir a chywennod o dan Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Lloegr) 2007 a deddfwriaeth gyfatebol yng ngwledydd eraill y DU. Mewn rhai achosion, bydd canllawiau hefyd i gynhyrchwyr a fydd yn adlewyrchu ond yn mynd y tu hwnt i'r gofynion cyfreithiol, yn yr achos hwn y Cod Ymarfer ar gyfer Lles Ieir Dodwy a Chywennod.

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae gofynion y DU yr un fath â'r rhai sy'n ofynnol gan yr UE. Mae gwahaniaethau amlwg o ran cynhyrchu cig ieir a chig moch, lle mae gan y DU ofynion lles llymach:

- Gellir stocio cig ieir yr UE i uchafswm o 42 kg y m$^2$ os bodlonir yr amodau yn Atodiad 5 Cyfarwyddeb 2007/43/EC, tra bod gan Loegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Chymru uchafswm absoliwt o 39 kg y m$^2$; a
- Mae stondinau cyfyng ar gyfer bridio hychod wedi cael eu gwahardd yn y DU ers 1999. Mae'r arfer hwn yn cael ei ganiatáu ar hyn o bryd ar gyfer yr UE sy'n dal i ganiatáu i hychod gael eu cyfyngu yn unigol am bedair wythnos ar ôl bridio. Daeth Cyfarwyddeb y Cyngor 2008/120/EC, sy'n gwahardd defnyddio stondinau hwch yn rhannol, i rym ar 1 Ionawr 2013.

Mae rhai safonau dewisol, megis y Safon Organig, yn cael eu tanategu gan y gyfraith. Gellir ond labelu cynnyrch yn 'organig' os ydynt yn cyrraedd y safon organig. Mae proses a gefnogir gan y llywodraeth ar gyfer profi cynnyrch organig, sy'n golygu y gall cynhyrchwyr gael eu harchwilio ar unrhyw adeg, unwaith y flwyddyn, gan y corff rheoli sy'n ardystio'r cynnyrch fel rhai organig.

Os yw'r gofyniad yn cael ei gymhwyso i fewnforion, yna mae'n rhaid iddo gydymffurfio â rheolau Sefydliad Masnach y Byd, fel yr amlinellir isod.

# "Nawr, mae gan y DU gyfle, am y tro cyntaf ers degawdau, i hyrwyddo ein safonau ein hunain a sbarduno newid byd-eang cadarnhaol."

## Safonau cynhyrchu domestig

Mae nifer o reoliadau yn y DU sy'n sicrhau bod cynnyrch bwyd-amaeth yn cael eu cynhyrchu mewn ffordd sy'n cydnabod tirwedd unigryw y DU. Cyn i'r DU adael yr UE, roedd y safonau cynhyrchu ar gyfer y DU (a chynhyrchwyr yr UE) wedi'u cynnwys yn y safonau deddfwriaethol ar gyfer trawsgydymffurfio. Nodwyd y rhain yn y ddeddfwriaeth Polisi Amaethyddol Cyffredin, gan y Comisiwn Ewropeaidd[25]. Mae'r DU bellach wedi ei disodli gyda Deddf Amaethyddol 2020. Gan fod amaethyddiaeth yn fater datganoledig, mae'r Gweinyddiaethau Datganoledig hefyd wedi bod yn datblygu eu cynlluniau cymorth ar gyfer y dyfodol.

Roedd y rheolau hyn yn sylfaen i bob ffermwr yn Lloegr sy'n gwneud cais am daliadau uniongyrchol (Cynllun y Taliad Sylfaenol) a rhai taliadau Datblygu Gwledig. Roeddent yn mynd i'r afael â'r amgylchedd; iechyd anifeiliaid, iechyd planhigion ac iechyd y cyhoedd; lles anifeiliaid a nodweddion y tirwedd. Bydd taliadau uniongyrchol ar ffurf newydd yn parhau i gynhyrchwyr y DU. Mae'r cynllun newydd wedi galluogi'r llywodraeth i roi taliadau i ffermwyr er mwyn buddsoddi mewn gwella cynhyrchiant, arallgyfeirio busnes neu i ymddeol o ffermio.

## Safonau preifat neu drydydd parti

Mae llawer o gynhyrchwyr yn y DU yn aelodau o safonau trydydd parti neu gynlluniau sicrwydd, sy'n cwmpasu safonau a chodau cynyrchiadau sy'n mynd y tu hwnt i'r hyn a ragnodir yng nghyfraith y DU. Drwy hyn, gall cynhyrchwyr fanteisio o fewn y farchnad ddomestig, drwy allu cyfathrebu ansawdd eu cynnyrch yn gliriach. Efallai y byddant hefyd yn gallu gwerthu i archfarchnadoedd neu brynwyr eraill sy'n gweithredu i gynlluniau a safonau penodol. Yn gyffredinol, mae'r cynlluniau hyn wedi dilyn neu wedi rhagweld y galw gan ddefnyddwyr ac wedi gwthio safonau i fyny.

Efallai y bydd cynhyrchwyr yn ei chael hi'n haws cael mynediad i farchnadoedd tramor, os bydd cymryd rhan mewn cynllun sicrwydd yn rhoi hyder iddynt eu bod yn cyd-fynd â'r gofynion ar gyfer marchnadoedd penodol. Fodd bynnag, nid yw aelodaeth o gynlluniau o'r fath yn ofyniad mewnforio ar gyfer llywodraethau tramor, ac ni ddylai fod. Gall roi hyder ychwanegol yn y cynnyrch i fanwerthwyr y farchnad a lliniaru rhwystrau sydd y tu ôl i'r ffin, megis gofynion y farchnad leol ar gyfer cyflwyno a phecynnu.

Mae safonau preifat hefyd yn berthnasol i fewnforion sy'n dod i'r DU. Bydd y prif fanwerthwyr, er enghraifft, yn aml yn mynnu safonau uwch na'r rhai a ragnodir yn rheoliadau mewnforio'r DU ar hyn o bryd. Er mwyn bodloni gofynion defnyddwyr neu gyfrifoldebau cymdeithasol corfforaethol, bydd angen i gynnyrch gyd-fynd â safonau cynhyrchu sy'n ymwneud â meysydd blaenoriaeth megis yr hinsawdd, yr amgylchedd, lles anifeiliaid neu arferion moesegol; materion na ellir eu gwirio ar y ffin yn rhwydd. Mae'r defnydd o gynlluniau preifat cadarn fel hyn yn llenwi bwlch pwysig i ddefnyddwyr gan y gallant gwmpasu safonau sy'n uwch neu'n ehangach o ran cwmpas nag y gall y llywodraeth ei gwneud yn ofynnol, oherwydd rheoliadau Sefydliad Masnach y Byd. Mae'r cynlluniau preifat hyn yn chwarae rhan bwysig wrth ddylanwadu ar newidiadau cadarnhaol mewn safonau gan eu bod yn cael eu mireinio a'u gwella o hyd mewn ymateb i alw defnyddwyr.

## Safonau rhyngwladol

Mae Sefydliad Masnach y Byd yn ymdrin â rheolau masnach byd-eang rhwng cenhedloedd. Mae camsyniad cyffredin bod Sefydliad Masnach y Byd yn gosod safonau cynnyrch a chynhyrchu. Nid yw'n gwneud hynny. Mae'r gwaith hwn yn cael ei gynnal gan gyrff gosod safonol rhyngwladol sy'n bodoli y tu allan i Sefydliad Masnach y Byd. O fewn Sefydliad Masnach y Byd, mae pwyllgorau'r SPS a'r Rhwystr Technegol i Fasnach (TBT) yn mynd i'r afael ag iechyd anifeiliaid, iechyd planhigion a iechyd pobl ac yn rheoleiddio rheolau masnach yn unol ag ymrwymiadau Sefydliad Masnach y Byd. Er enghraifft, mae Pwyllgor SPS Sefydliad Masnach y Byd yn nodi'r rheolau sylfaenol wrth gymhwyso asesiadau risg ar gyfer diogelwch bwyd. Mae'r cytundeb yn caniatáu i wledydd ddefnyddio gwahanol safonau a gwahanol ddulliau o arolygu cynnyrch.

Bu o gymorth i ni gyda'n dealltwriaeth o'r rheolau cyffredinol i gofio bod diogelwch bwyd o fewn cwmpas y Cytundeb SPS, tra bod gofynion neu labelu maeth, a diogelwch cynnyrch nad ydynt yn fwyd, o fewn cwmpas Cytundeb TBT.

25 Rheoliad (CE) Rhif 1122/2009 & 73/2009

## Safonau cysylltiedig â SPS

Ar gyfer diogelwch bwyd, ac iechyd anifeiliaid a phlanhigion, mae Cytundeb SPS Sefydliad Masnach y Byd yn nodi'r cyrff gosod safonol canlynol, y cyfeirir atynt yn aml fel y 'Tair Chwaer, 'yn ei ragymadrodd:

- Codex Alimentarius - rhaglen diogelwch bwyd ar y cyd Sefydliad Iechyd y Byd a Sefydliad Bwyd ac Amaeth;
- Sefydliad Iechyd Anifeiliaid y Byd - caiff ei adnabod yn well fel OIE, sef yr acronym ar gyfer Office International des Epizooties; ac
- Y Confensiwn Diogelu Planhigion Rhyngwladol - ar gyfer iechyd planhigion

Mae'r cytundeb o fewn Sefydliad Masnach y Byd yn gadael y posibilrwydd o ychwanegu cyrff eraill yn agored. Argymhellion yw'r safonau a osodir gan y cyrff hyn, ac nid ydynt wedi'u rhwymo mewn cyfraith. Y tu hwnt i'r Tair Chwaer, mae llawer o sefydliadau yn cydweithio i esblygu a siapio safonau SPS.

Mae gwledydd yn rhydd i fabwysiadu safonau gan y Tair Chwaer neu osod eu rhai eu hunain ar sail tystiolaeth wyddonol a dadansoddi risg, fel y gwnaeth UDA, er enghraifft, mewn perthynas â gweddillion plaladdwyr. Agwedd allweddol hyn ar gyfer gosod polisi masnach yw pan fydd gwledydd yn mabwysiadu'r safonau rhyngwladol, y byddant yn gyffredinol yn ddiogel rhag her gyfreithiol yn Sefydliad Masnach y Byd.

## Safonau cysylltiedig â Rhwystrau Technegol Masnachu (TBT)

Mae cytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar TBT yn ymestyn y tu hwnt i ddarpariaeth safonau cynnyrch i gynnwys labelu, rheoliadau a sut y caiff rheoliadau eu creu. Mae rheoleiddio TBT yn fater cymhleth gan fod nifer o gyrff sy'n gosod y safon o gwmpas y byd, gyda nifer yn ymwneud gyda'r sector preifat. Nid yw Cytundeb TBT yn cyfeirio at unrhyw gyrff penodol. Yn hytrach, mae'n creu “Cod Ymarfer Da ar gyfer Paratoi, Mabwysiadu a Chymhwyso Safonau” ac mae'n cadarnhau bod unrhyw gorff gosod safonau, sy'n cydymffurfio â'r cod, yn cael ei ystyried i fod yn cydymffurfio â'r cytundeb.





# Cyrff rhyngwladol

### Mae Pwyllgor Iechydol a Ffytoiechydol (SPS) Sefydliad Masnach y Byd

yn monitro sut mae gwledydd yn cymhwyso'r Cytundeb SPS, ac yn sicrhau bod gwledydd yn defnyddio rheoliadau SPS fel math o warchodaeth. Amcan y Cytundeb yw cynorthwyo masnach ryngwladol mewn bwyd, nwyddau amaethyddol ac anifeiliaid byw a ddefnyddir fel bwyd a helpu i oresgyn rhwystrau i fasnachu.

### Mae'r Sefydliad Bwyd ac Amaeth (FAO)

yn asiantaeth arbenigol gan y Cenhedloedd Unedig sy'n arwain ymdrechion rhyngwladol i drechu newyn.

### Y Comisiwn Codex Alimentarius, a elwir hefyd yn CAC,

yw rhan ganolog Rhaglen Safonau Bwyd Sefydliad Bwyd ac Amaeth a Sefydliad Iechyd y Byd i ddiogelu iechyd defnyddwyr a hyrwyddo arferion teg ym maes masnach bwyd.

### Mae'r Confensiwn Diogelu Planhigion Rhyngwladol

yn gytundeb rhynglywodraethol a lofnodwyd gan dros 180 o wledydd, gyda'r nod o ddiogelu adnoddau planhigion y byd rhag lledaenu a chyflwyno plâu, a hyrwyddo masnach ddiogel.

### Mae Sefydliad Iechyd Anifeiliaid y Byd (Office International des Epizooties / OIE)

yn gyfrifol am wella iechyd anifeiliaid ledled y byd. Mae'n cael ei gydnabod fel sefydliad cyfeirio gan Sefydliad Masnach y Byd, ac yn 2018 roedd ganddo gyfanswm o 182 Aelod-wledydd. Mae'r OIE yn cynnal cysylltiadau parhaol gyda bron i 75 o sefydliadau rhyngwladol a rhanbarthol eraill ac mae ganddo Swyddfeydd rhanbarthol ac is-ranbarthol ar bob cyfandir.

## 5.3 Defnyddio mecanweithiau i gymhwyso safonau

Rydym wedi ystyried sut y gallai defnyddio mecanweithiau sy'n gysylltiedig â safonau ddatblygu amcanion y DU mewn nifer o feysydd. Er enghraifft, diogelwch bwyd, yr hinsawdd, yr amgylchedd, masnach foesegol, bioddiogelwch anifeiliaid a phlanhigion, lles anifeiliaid ac ymwrthedd gwrthficrobaidd. Mae rhai o'r mecanweithiau a amlinellir i'r dde eisoes yn rhan annatod o strategaeth fasnach y DU. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i archwilio rhai o'r mecanweithiau ymhellach. Er enghraifft, byddai cymalau anatchweliad o fewn Cytundebau Masnach Rydd yn galluogi cynnydd cyflym wrth fynd i'r afael â her bwysig newid hinsawdd.

Trafodwyd y mecanweithiau hyn, gan nodi y dylai safonau domestig fod yn seiliedig ar y mecanweithiau mwyaf effeithiol sydd ar gael i gyflawni uchelgeisiau polisi cyhoeddus, tra'n lleihau ystumiadau masnach ac osgoi costau gormodol. Ni ddylid defnyddio safonau a mecanweithiau mewnforio fel ffordd gudd o ffafrio cynhyrchwyr y DU dros fewnforwyr. Os yw deddfwriaeth ddomestig yn gosod costau ar gynhyrchwyr, nad ydynt yn cael eu talu gan gynhyrchwyr mewn gwledydd allforio, dylid cyflwyno mesurau lliniaru megis gofynion mewnforio neu daliadau cymorth trosiannol ar yr un pryd â deddfwriaeth ddomestig newydd.



### Mecanweithiau sy'n gysylltiedig â safonau i gyflawni polisïau'r DU drwy

| Mecanwaith | Sut y gellir ei gymhwyso |
|---|---|
| **Fforymau Rhyngwladol** | Cyfranogiad gweithredol y DU o fewn fforymau megis y Fforwm Byd-eang ar Ddiogelwch Bwyd a Maeth neu'r Pwyllgor ar Ddiogelwch Bwyd y Byd o dan y Cenhedloedd Unedig, er mwyn creu sylfaen i safonau rhyngwladol. |
| **Cyrff Gosod Safonau Rhyngwladol** | Ymgysylltiad o fewn fforymau gyda Codex, IPPC a'r OIE, er mwyn gyrru arfer gorau mewn safonau a chydymffurfiaeth. |
| **Sefydliadau amlochrog** | Cydweithrediad o fewn sefydliadau lle mae pob gwlad yn cymryd rhan ac yn cytuno i ddilyn rheolau a phenderfyniadau, megis Sefydliad Masnach y Byd a'i bwyllgorau, er mwyn dod i benderfyniad ar safonau byd-eang. |
| **Grwpiau lluosog** | Gweithio gyda grŵp o bartneriaid i fynd i'r afael gyda mater penodol, er enghraifft y Cytundeb ar Newid Hinsawdd, Masnach a Chynaliadwyedd (ACCTS) (menter Seland Newydd). |
| **Cytundebau Masnach Rydd lluosog presennol** | Cytundebau nwyddau ymysg tair gwlad neu fwy, sy'n lleihau tariffau ac yn ei gwneud yn haws i fusnesau allforio a mewnforio. Mae enghreifftiau'n cynnwys CPTPP a NAFTA. |
| **Cymalau anatchweliad o fewn Cytundebau Masnach Rydd newydd** | Cynnwys cymalau mewn Cytundeb Masnach Rydd sy'n datgan na fydd partïon yn lleihau lefel y warchodaeth y mae deddfwriaeth yn anelu i'w gyflawni neu achosi lleihad yn effeithiolrwydd mecanweithiau i gyflwyno lefel y warchodaeth yr anelir amdani. Gorfodir ymrwymiad ar anatchweliad a chywerthedd yn ddwyochrog.<br><br>Mae enghreifftiau yn cynnwys y testun anatchweliad yn CETA, cytundeb UE-Korea, a chytundeb UE-Siapan. |
| **Cytundebau Cywerthedd** | O fewn Cytundebau Masnach Rydd neu annibynnol, mae cytundebau rhwng gwledydd sy'n safonol mewn un partner yn darparu'r un lefel o warchodaeth, ond drwy wahanol ddulliau. |
| **Labelu** | Cyfreithiau labelu gorfodol ar gynnyrch a fewnforir, yn cael eu cymhwyso i'r farchnad ddomestig. Er enghraifft, cyfreithiau labelu ar dobaco. |
| **Tariffau** | Amodau yn ymwneud gyda safonau cynhyrchu, o fewn Cytundebau Masnach Rydd, sydd angen eu cwrdd er mwyn bod o fudd i dariffatu ffafriol. |
| **Cymeradwyo gwledydd i allforio i'r DU** | Er mwyn allforio i'r DU, mae'n rhaid i wledydd gynnal yr isadeiledd a'r llywodraethu sydd eu hangen er mwyn cwrdd gydag anghenion mewnforio'r DU. Gall hyn hefyd gynnwys gofyniad i fabwysiadu a defnyddio cytundebau rhyngwladol sy'n berthnasol i'r nwydd sy'n cael ei allforio. Er enghraifft, i gael cynllun gweithredu AMR fel sy'n ofynnol gan Sefydliad Masnach y Byd. |
| **Cymeradwyo nwyddau (anifeiliaid, planhigion neu gynhyrchion) a sefydliadau ar gyfer allforio i'r DU** | Y broses lle mae'r DU yn cymeradwyo nwyddau i'w mewnforio i'r DU o wledydd rhestredig. Er bod gwlad yn cael ei rhestru mewn egwyddor, ceir ystyriaeth bellach o allu'r wlad i gwrdd ag anghenion y DU ar gyfer nwydd penodol. Efallai y bydd gofyniad pellach yn benodol i gymeradwyo eiddo megis sefydliadau cynhyrchu neu unedau cwarantîn. |
| **Cyfyngiadau neu waharddiadau mewnforio a ganiateir o dan Erthygl XX (b) o GATT a'r Cytundebau SPS neu TBT Sefydliad Iechyd y Byd** | Mesurau rheolaidd a all gynnwys safonau cynnyrch neu gynhyrchu. Gellir gosod gwaharddiad ar farchnata neu werthu eitem drwy fanwerthu yn hytrach nag ar ei fewnforio. |
| **Cyfyngiadau neu waharddiadau mewnforio a ganiateir o dan Erthygl XX ond allan gyda chytundebau SPS a TBT** | Gellir gosod gwaharddiad ar farchnata neu werthu eitem drwy fanwerthu yn hytrach nag ar ei fewnforio. |

# Rhyddfrydoli a diogelu safonau



# 6. Rhyddfrydoli a diogelu safonau

## 6.1 Cyflwyniad

Ar hyn o bryd, mae'r DU yn atal mewnforio cynnyrch bwyd-amaeth nad ydynt yn bodloni gofynion llym o ran diogelwch bwyd na diogelwch iechyd anifeiliaid a phlanhigion. Fodd bynnag, nid yw'r DU yn mynnu bod cynnyrch a fewnforiwyd yn bodloni safonau amgylcheddol neu les anifeiliaid y DU. Yn gynyddol, mae pobl yn pryderu am y ffordd y caiff cynnyrch eu cynhyrchu ac am effeithiau ar newid hinsawdd, yr amgylchedd, masnach foesegol a lles anifeiliaid. Mae cyfle i ddiwygio polisi mewnforio cyfredol y DU i greu dull uchelgeisiol, dyfeisgar a mwy holistaidd.

Mae'r polisi mewnforio arfaethedig yn adlewyrchu ein dyheadau ar gyfer polisi masnach yn y DU, fel y nodir yn ein hegwyddorion, sef polisi mewnforio sy'n rhyddfrydoli, yn hwyluso arloesedd a chynhyrchiant. Mae'n cefnogi cynhyrchwyr y DU drwy agor mynediad i farchnadoedd byd-eang, ac mae'n hyrwyddo safonau uchel ar gyfer diogelu'r amgylchedd, a mynd i'r afael â'r newid hinsawdd, masnach foesegol a lles anifeiliaid.

Yn gynhenid yn y dull polisi mae dwyochredd. Lle mae'r DU yn cynnig rhyddfrydoli, ar sail y polisi hwn, dylai partneriaid negodi ymateb yn yr un dull. Dylai asesiad o'r effaith cyn negodi hefyd ei gwneud yn glir, os yw unrhyw ran o sector domestig yn ddigon sensitif i fuddiannau'r DU, y dylai Llywodraeth y DU ystyried mesurau diogelu arbennig sy'n cydymffurfio â Sefydliad Masnach y Byd.

Rydym yn tybio y bydd polisi masnach cyffredinol y DU yn cynnwys system o dariffau a chwotâu, fel sy'n bodoli ar hyn o bryd, ac y bydd y rhain yn cynnwys triniaeth ffafriol a ganiateir ar gyfer gwledydd sy'n datblygu. Dylai polisi masnach strategol ddod â'r rhan fwyaf o fasnach ryngwladol y DU i Gytundebau Masnach Rydd yn raddol. Bydd y Cytundeb Masnach Rydd hyn gyda phartneriaid masnachu sy'n rhannu ein huchelgais ar gyfer rhyddfrydoli masnach ryngwladol, a'n gwerthoedd ar faterion megis hawliau dynol, lles anifeiliaid a gwarchod a gwella'r amgylchedd.

**Argymhelliad 8**:
Dylai Llywodraeth y DU fabwysiadu ymagwedd uchelgeisiol tuag at ryddfrydoli cyfundrefn tariff mewnforio'r DU, ar gyfer gwledydd sy'n gallu bodloni'r safonau uchel o gynhyrchu bwyd a ddisgwylir gan gynhyrchwyr y DU. Dylai weithio gyda phartneriaid masnachu o fewn trafodaethau Cytundebau Masnach Rydd yn y dyfodol i ostwng tariffau a chwotâu i sero lle dangosir cywerthedd ar gyfer y safonau hyn. Mae'n rhaid i'r safonau hyn gael eu halinio â safonau byd-eang craidd, a dylai Llywodraeth y DU gymryd rhan weithredol wrth gryfhau safonau drwy fforymau rhyngwladol.

**"Mae cyfle i ddiwygio polisi mewnforio presennol y DU i greu dull uchelgeisiol, blaengar a mwy cyfannol."**

## 6.2 Y cynnig

Er mwyn rhyddfrydoli masnach, rydym yn cynnig bod y DU yn mynd ar ôl dull drwy gytundebau masnach rydd lle bydd tariffau a chwotâu yn cael eu lleihau a'u dileu, ar yr amod bod cyfres o safonau cenedlaethola byd-eang yn cael eu bodloni. Rydym wedi adnabod cyfres o weithrediadau integredig sy'n atgyfnerthu ei gilydd sy'n gofyn am y 3 colofn a nodir isod yn unig. Byddai'r rhain ond yn gweithio os cânt eu rhoi ar waith gyda'i gilydd. Mae [Atodiad 4 Gwybodaeth atodol ar gyfer Pennod 6] yn darparu cyfuchliniau eang y dull hwn.

### Colofn 1: Dull masnach cyffredinol

Bydd polisi masnach cyffredinol y DU yn gyson â rheolau Sefydliad Masnach y Byd. Gellir cyflwyno cyfyngiadau mewnforio a fyddai angen bod yn gyson â rheoleiddio domestig ac a fyddai'n adlewyrchu safonau y cytunwyd arnynt yn rhyngwladol. Byddai hyn yn berthnasol i ddiogelwch bwyd a bioddiogelwch a gallai hefyd gynnwys safonau eraill y cytunwyd arnynt yn rhyngwladol megis yr hinsawdd, yr amgylchedd, masnach foesegol a lles anifeiliaid, lle mae camau gweithredu'n gyson â'r SPS a chytundebau TBT.

Mae'r golofn hon yn hanfodol i bolisi masnach presennol, yn y DU ac i'n partneriaid masnachu.

### Colofn 2: Dull arfaethedig o weithredu o fewn Cytundebau Masnach Rydd

Byddai mynediad sero tariff, sero cwota i farchnadoedd y DU o fewn Cytundebau Masnach Rydd yn cael eu cyfatebu gyda chyfres graidd o safonau a normau technegol mewn nifer o feysydd. Os na fyddai partneriaid technegol yn gallu dangos cyfwerthedd gyda safonau craidd, yna ni fyddant yn cael eu hystyried ar gyfer mynediad sero tariff, sero cwota ar gyfer y cynnyrch hynny lle mae safonau craidd yn cael eu cymhwyso. Byddai'r safonau a'r normau technegol hyn yn:

- adlewyrchu uchelgeisiau cyffredin y DU a'i phartneriaid masnachu;
- deillio o safonau a normau rhyngwladol; a
- eisoes yn cael eu cymhwyso yn y DU.

Dylai Llywodraeth y DU negodi ar sail y gyfres graidd hon o safonau, gan gynnwys newid mesurau ar newid hinsawdd, yr amgylchedd, materion moesegol a lles anifeiliaid. Wrth bennu'r safonau blaenoriaeth hyn, dylai Llywodraeth y DU ystyried safonau cynhyrchu domestig ac i ba raddau y maent yn adlewyrchu cytundebau safonau rhyngwladol.

Byddai gweithredu'r golofn hon yn gofyn am ddadansoddiad ac ymgynghoriad pellach, yn enwedig gyda'r Gweinyddiaethau Datganoledig. Byddai penderfynu ar ba safonau a normau y dylid eu hystyried fel rhan o'r golofn hon yn golygu cynnal ymgynghoriad â'r holl randdeiliaid. Byddai cytuno ar gyfres graidd eang a chynhwysfawr o safonau yn gwneud y mwyaf o'r rhyddfrydoli masnach y gallai'r dull hwn ei gyflawni.

O fewn Cytundebau Masnach Rydd ac er mwyn sicrhau bod y ddwy ochr yn dilyn y cytundeb yn ddidwyll, byddai mecanweithiau yn cael eu datblygu i ymdrin â:

- **Ystumiadau masnach:** byddai hyn yn caniatáu gosod tariff lle gallai plaid dramgwyddedig ddangos bod partner y Cytundeb Masnach Rydd wedi methu â chymhwyso'r safonau y cytunwyd arnynt neu orfodi ei gyfraith ei hun, a thrwy hynny greu ystumiad marchnad gwrth-gystadleuol a bod ei gynhyrchwyr domestig yn cael mantais masnachol annheg o ganlyniad hynny: ac [Atodiad 4].
- **Sefyllfaoedd brys:** byddai hyn yn caniatáu i fesurau dros dro gael eu gweithredu lle roedd ystumiadau yn ddigon arwyddocaol, a bod tebygolrwydd rhesymol bod eu heffaith ar gynhyrchwyr domestig mor fawr fel ei fod yn bygwth cynaliadwyedd y sector hwnnw. Yn ogystal, gellid defnyddio dull diogelu arbennig ar gyfer nwyddau sensitif. Rhagwelwn y byddai mecanwaith o'r fath yn cael ei ddefnyddio fel dewis olaf, gan y byddai mecanwaith tariff yn debygol o ymdrin â materion lle byddai amodau cystadleuaeth yn cael effaith ar andwyol o ganlyniad i ystumio'r farchnad.


Yn amodol ar sicrhau cydnabyddiaeth ryngwladol o'r dull hwn, gellid datblygu mecanwaith ystumio marchnad tebyg fel rhan o bolisi masnach cyffredinol. Er enghraifft, gellid gosod tariff lle mae gwlad yn torri safon neu norm rhyngwladol, ei chyfraith ei hun, ac, o ganlyniad, mae'n cael mantais fasnach.

Gellir cymhwyso'r mecanwaith hwn lle gellir dangos ystumiad mewn marchnad nad yw'n gystadleuol. Yn y tymor canolig, gellid cynnig mecanwaith o'r fath hefyd mewn cytundebau masnach rhanbarthol megis Partneriaeth Gynhwysfawr a Blaengar y Môr Tawel.

### Colofn 3: Fforymau rhyngwladol

Ar yr un pryd, ac fel elfen o bolisi masnach cyffredinol y DU, dylid hyrwyddo gwella safonau a rheoleiddio technegol mewn meysydd o ddiddordeb a phwysigrwydd cenedlaethol a byd-eang, megis newid hinsawdd, yr amgylchedd, masnach foesegol a lles anifeiliaid. Gwneid hyn drwy gefnogi safonau perthnasol yn seiliedig ar wyddoniaeth mewn sefydliadau rhyngwladol. Byddai hyn yn cyd-fynd ag uchelgeisiau byd-eang y DU a'i pharodrwydd i ddangos arweinyddiaeth mewn fforymau byd-eang megis COP26.

# Rhyddfrydoli a pholisi masnach



## Ystyriaethau

Dylai Llywodraeth y DU ystyried y pwyntiau canlynol wrth ddilyn y polisi arfaethedig:

1. Dylai dull agored a rhyddfrydol o drafod masnach fod yn ddwyochrog. Lle mae'r DU yn cynnig rhyddfrydoli ar sail y polisi hwn, dylai partneriaid negodi wneud hyn hefyd. Ni ddylai'r DU ganiatáu mynediad i'r farchnad heb fudd cyfatebol a dylai gadw'r posibilrwydd o eithrio marchnadoedd domestig gwerthfawr o'i chynnig mynediad i'r farchnad, neu gyfyngu mynediad drwy gwotâu cyfraddau tariff, lle y bernir na fyddai'r DU yn cael gwerth teg yn gyfnewid am lawnach rhyddfrydoli. Byddai hyn yn amodol ar ofyniad Sefydliad Masnach y Byd bod Cytundebau Masnach Rydd yn cwmpasu'n sylweddol yr holl fasnach rhwng y partïon;

Mae Ymchwil a Datblygu yn chwarae rhan sylweddol wrth ddatgloi arloesedd a chefnogi gwelliannau i gynhyrchiant ym maes ffermio. Felly, dylai Llywodraeth y DU ymrwymo i ddarparu adnoddau digonol a sicrhau bod ymchwil a datblygu yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r diwydiant. Bydd angen i rhywfaint o'r cymorth hwn fod yn 'arian sefydlu' ei natur, ac yn cynrychioli rhywfaint o risg.

Mae Llywodraeth y DU yn datblygu menter benodol a yrrir gan ddiwydiant, y 'Pecyn Ymchwil a Datblygu Arloesedd', i ysgogi arloesedd a hybu cynhyrchiant cynaliadwy fel rhan o'r polisi newydd ar gyfer amaethyddiaeth yn Lloegr. Mae Defra yn gweithio gydag Ymchwil ac Arloesi y DU (UKRI) ar y cynigion hyn sy'n adeiladu ar y Strategaeth Technoleg Amaeth a menter Trawsnewid Cynhyrchu Bwyd UKRI. Mae'r pecyn yn canolbwyntio ar ariannu Ymchwil a Datblygu er mwyn mynd i'r afael â heriau cynhyrchiant y diwydiant. Nod hyn yw gwella cysylltedd rhwng ymchwilwyr, cysylltu ymchwil ag arferion fferm, gwella'r broses o fabwysiadu technolegau newydd a hwyluso ymgysylltiad gweithredol â ffermwyr. Dylai Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig ddatblygu polisïau domestig sy'n cynnwys cymorth parhaus ar gyfer rhaglenni bwyd-amaeth domestig i wella cynhyrchiant, ymchwil a datblygu ac effeithlonrwydd adnoddau ar draws y pedair gwlad.

## 9.3 Caffael cyhoeddus

Mae'r sector cyhoeddus yn brynwr bwyd a diod sylweddol. Yn 2014, amcangyfrifwyd gan Defra fod y sector cyhoeddus yn caffael tua £2.4 biliwn mewn gwasanaethau bwyd ac arlwyo y flwyddyn[32]. Dyfynnwyd y ffigwr hwn yn wreiddiol yn 2010 ac rydym yn siomedig nad yw'r ffigyrau diweddaraf ar gael ar hyn o bryd. Dylid sicrhau bod dull caffael y sector cyhoeddus ar gyfer bwyd a diod yn cyd-fynd yn briodol â nodau polisi ehangach y llywodraeth, o fewn fframwaith y rheolau ar gaffael. Bydd angen ffigyrau clir a chywir i gefnogi uchelgeisiau'r llywodraeth ar gyfer y sector hwn.

Mae'r cyfrifoldeb dros gaffael bwyd yn y sector cyhoeddus wedi'i ddatganoli i Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Dylai Llywodraeth y DU barhau i gydweithio'n agos â'r Gweinyddiaethau Datganoledig i wella dulliau cyflenwol lle bo'n briodol. Yn Lloegr, mae'r sector cyhoeddus yn gweithredu o dan Gynllun Caffael Cyhoeddus Defra (2014) a rheoliadau caffael ehangach a gofynion deddfwriaethol. Mae cynllun Defra yn cynnwys pecyn cymorth sy'n rhoi arweiniad i weithredwyr ar sut i gydbwyso ystod o safonau gorfodol ac arfer gorau gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud ag iechyd a chynaliadwyedd.

Mae'r canllaw yn annog sefydliadau i fynd y tu hwnt i'r safonau gofynnol gorfodol. Mae hyn yn cynnwys lle y dylent ystyried tarddiad lleol a ffactorau diwylliannol a gwneud ymdrechion i hyrwyddo mynediad at fframweithiau caffael ar gyfer cynhyrchwyr Prydain. Fodd bynnag, mae'n rhaid iddynt wneud hynny mewn ffordd anwahaniaethol sy'n cydymffurfio â rheoliadau caffael y DU, sy'n ymgorffori nifer o ymrwymiadau rhyngwladol. Er enghraifft, mae Cytundeb Caffael Llywodraeth Sefydliad Masnach y Byd, yr ymunodd y DU ag ef yn ei hawl ei hun ar 1 Ionawr 2021, yn ei gwneud yn ofynnol i'r DU sicrhau bod cynhyrchion, gwasanaethau a chyflenwyr unrhyw wlad neu barti arall i'r Cytundeb, yn cael triniaeth 'heb fod yn llai ffafriol' nag y mae'r DU yn ei roi i gynhyrchion, gwasanaethau a chyflenwyr domestig.

Rydym yn deall y bydd Defra yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus yn ddiweddarach eleni i ddiweddaru'r canllawiau presennol. Rydym yn gobeithio y bydd y cyfle yn cael ei ddefnyddio i annog prynu cynnyrch cynaliadwy ac i wella ymrwymiadau i gyflawni amcanion amgylcheddol a lles. Dylai Llywodraeth y DU ddod o hyd i ffyrdd o fanteisio i'r eithaf ar y cyfle i gael cynnyrch o'r DU mewn ffordd sy'n gyson â safonau presennol y DU a'i rhwymedigaethau rhyngwladol.

**Argymhelliad 18:**
Dylai Llywodraeth y DU adolygu'r cynllun caffael cyhoeddus presennol ar gyfer bwyd. Yn ogystal â sicrhau gwerth am arian ac am ddiwallu gofynion maeth, dylai wneud y gorau o'r cyfle i gyrchu bwyd o'r DU, ei gael mewn modd cynaliadwy a gwella tryloywder y broses a ddefnyddir i'w gael.

32 Cynllun ar gyfer Caffael Cyhoeddus, Defra, Gov.uk, Gorffennaf 2015

**Tryloywder**




# 10. Tryloywder

## 10.1 Ymddiriedolaeth

Rydym i gyd yn poeni'n fawr ynghylch o ble mae ein bwyd yn dod. Mae defnyddwyr yn disgwyl i'r diwydiant bwyd ddarparu bwyd sy'n ddiogel, y gellir ei olrhain ac sy'n cynnwys yr hyn y mae'n ei ddweud ar y pecyn neu'r fwydlen. Mae tryloywder yn bwysig i ddefnyddwyr, nid yn unig o ran cynhwysion a labelu maethol, ond hefyd mewn perthynas â tharddiad y bwyd, ac, yn gynyddol, effeithiau ehangach eu dewisiadau bwyd ar les yr amgylchedd, pobl ac anifeiliaid.

Mae defnyddwyr, drwy eu dewisiadau bwyd, yn dangos yr ymddiriedaeth y maent yn ei roi mewn manwerthwyr bwyd, gwneuthurwyr bwyd wedi'u brandio a'r rhai sy'n darparu bwyd iddynt yn y sector lletygarwch. Mae hyder yn y diwydiant bwyd yn cael ei fagu dros gyfnod hir o amser a gellir ei golli mewn amrantiad, fel y digwyddodd yn dilyn sgandal cig ceffyl 2013. Roedd y ffaith bod hyn yn fater o dwyll bwyd yn hytrach na diogelwch bwyd yn eilradd i ddefnyddwyr; y pwynt pwysicaf oedd bod eu hymddiriedaeth wedi cael ei bradychu. Dywedodd y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth wrthym, er bod hyder defnyddwyr yn y diwydiant bwyd wedi codi'n araf ers y sgandal, ei fod bellach ar ei bwynt isaf ers 2013. Mae hyn oherwydd bod llawer yn pryderu y bydd polisi masnach newydd Llywodraeth y DU yn caniatáu mewnforion safonol is i'r DU[33].

Y brif ffordd y mae'r diwydiant yn cyfathrebu'r wybodaeth hon i ddefnyddwyr yw drwy labelu. Fodd bynnag, nid yw labelu yn cymryd lle cael a gorfodi safonau. Nid oes gan bob defnyddiwr y gallu na'r awydd i graffu ar yr hyn y maent yn ei brynu. Maent eisiau'r sicrwydd fod gan y llywodraeth hyn dan reolaeth a'u bod yn gallu siopa'n rhydd, gan wybod bod safonau ar waith ac yn cael eu gorfodi, a bod modd olrhain drwy'r gadwyn gyflenwi.

**"Rydym i gyd yn poeni'n fawr ynghylch o ble mae ein bwyd yn dod."**

33 National Trade Conversation, 2020: https://campaigns.which.co.uk/trade-deals/national-trade-conversation/

## 10.2 Labelu Gwlad Tarddiad

Mae lle i wella ansawdd yr wybodaeth a ddarperir i ddefnyddwyr am labeli bwyd, yn enwedig yn y sector y tu allan i'r cartref a'r sector bwyd. Dim ond gwybodaeth gyfyngedig y gall labeli bwyd ei dangos, ond mae defnyddwyr am allu gwneud dewisiadau gwybodus yn seiliedig ar wybodaeth sy'n bwysig iddynt.

Gall labelu Gwlad Tarddiad fod yn un ffordd o gyfleu cryn dipyn o wybodaeth neu o leiaf alluogi defnyddwyr i chwilio am wybodaeth bellach am y wlad dan sylw eu hunain. Canfuom fod defnyddwyr yn gwerthfawrogi gwybodaeth tarddiad oherwydd eu bod eisiau cefnogi cynhyrchwyr a busnesau yn y DU yn ymwybodol, ynghyd â bwydydd cysylltiedig sy'n cael eu cynhyrchu a'u prosesu yn y DU â safonau cynhyrchu a safon uchel. Mae deddfwriaeth ddomestig bresennol yn mandadau gwybodaeth gwlad tarddiad ar gyfer cig, pysgod, ffrwythau, llysiau, mêl, a chynhyrchion olew olewydd mewn manwerthu[34]. Fodd bynnag, mae llawer o fanwerthwyr yn mynd y tu hwnt i hynny ac yn hyrwyddo eu hymrwymiad i gefnogi cynhyrchwyr y DU fel rhan o'u brand, ac maent wedi cael eu gwobrwyo gan eu cwsmeriaid am wneud hynny.

Mae rhai busnesau yn y sector y tu allan i'r cartref hefyd yn hyrwyddo bwyd Prydeinig. Fodd bynnag, o ystyried fod prydau bwyd yn aml yn cynnwys cynhwysion o wahanol wledydd, sy'n newid gyda'r tymor neu'r farchnad sydd ar gael, gall fod yn anodd i fusnesau gyfathrebu gwybodaeth tarddiad cywir yn gyson i ddefnyddwyr. Mae rhai cadwyni cyflenwi, yn enwedig y rhai sy'n gwasanaethu 'ceginau tywyll', sydd ond yn darparu bwyd i'w danfon, yn y bôn yn brin o dryloywder. Mae'n ymddangos bod llai o ddata ar gael ynghylch blaenoriaethau defnyddwyr wrth fwyta y tu allan i'r cartref, felly mae cryn gyfle i gynyddu'r mewnwelediad sydd ar gael i ddefnyddwyr. Roeddem o'r farn y byddai mwy o dryloywder, yn enwedig yn y sectorau y tu allan i'r cartref a'r sector gwasanaeth bwyd, yn cael ei groesawu gan ddiwydiant a defnyddwyr. Mae llawer o'r bwyd sy'n cael ei fwyta y tu allan i'r cartref yn cael ei fewnforio, felly byddai mwy o wybodaeth am y wlad tarddiad yn helpu i gynyddu tryloywder a datblygu ymddiriedaeth, yn enwedig gyda defnyddwyr.

**Argymhelliad 19:**
Mae'n rhaid i Lywodraeth y DU a'r diwydiant bwyd gydweithio er mwyn gwella gwybodaeth am y wlad tarddiad yn y cadwyni bwyd rhydd, yn y gwasanaeth bwyd a chadwyni cyflenwi y tu allan i'r cartref. Bydd hyn yn ymateb i awydd defnyddwyr i gael mwy o hyder a thryloywder yn y cadwyni cyflenwi hynny. Dylai hyn ffurfio rhan o agenda ehangach i gefnogi'r cadwyni cyflenwi hyn wrth i'r wlad adfer ar ôl pandemig COVID-19.

34 https://www.gov.uk/guidance/food-labelling-country-of-origin

# "Mae defnyddwyr yn disgwyl i'r diwydiant bwyd ddarparu bwyd sy'n ddiogel, y gellir ei olrhain ac sy'n cynnwys yr hyn y mae'n ei ddweud ar y pecyn neu'r fwydlen."

## 10.3 Gwybodaeth am les, moeseg a'r amgylchedd

Yn gynyddol, mae defnyddwyr eisiau mwy o wybodaeth am faterion moesegol, lles anifeiliaid a'r amgylchedd sy'n ymwneud â chynhyrchu a dosbarthu bwyd[35]. Mae cynlluniau sicrwydd preifat, megis Masnach Deg, Cynghrair y Goedwig Law, RSPCA Assured a LEAF Marque, yn darparu gwybodaeth werthfawr i ddefnyddwyr. Mae llawer ohonom yn barod i dalu mwy am y sicrwydd bod y cynlluniau hyn yn cael eu darparu o ran y safonau y maent yn berthnasol iddynt. Mae yna hefyd sail ddeddfwriaethol ar gyfer darparu rhywfaint o wybodaeth am y materion hyn. Er enghraifft, mae cyfraith a gyflwynwyd[36] yn 2004 sy'n mandadau manwerthwyr i hysbysu defnyddwyr pe bai wyau yn cael eu gosod mewn cewyll, wedi cael effaith amlwg ar ymddygiad prynu[37].

Mae'n anodd iawn cyfathrebu'r nifer o effeithiau amgylcheddol gwahanol a allai fod yn gysylltiedig â chynnyrch cyfansawdd sy'n cynnwys llawer o gynhwysion. Gall label bwyd, am resymau ymarferol, ddangos gwybodaeth gyfyngedig yn unig. Felly, dylai'r diwydiant bwyd, mewn ymgynghoriad â Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig, ystyried y ffordd orau o gyfathrebu gwybodaeth am les, moeseg a'r amgylchedd i ddefnyddwyr, a all gynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, wybodaeth ar-label. Mae defnyddwyr iau yn pryderu'n arbennig am effeithiau ehangach eu defnydd, felly mae'n bwysig bod y diwydiant yn dod o hyd i ffordd o gyfathrebu'r wybodaeth a fydd yn llywio eu dewisiadau bwyd.

35 https://shoppervista.igd.com/trends/Presentation-viewer/t/shopper-trends-2020/i/9275
36 Cyfeirnod RHEOLIAD CYNGOR (CE) Rhif 2052/2003
37 https://ahdb.org.uk/consumer-insight-trust-transparency-and-traceability

# Gwledydd sy'n datblygu


Farm Africa / Lisa Murray

# 11. Gwledydd sy'n datblygu

Mae cadwyni cyflenwi bwyd y DU yn wirioneddol fyd-eang; rydym yn mewnforio bron i hanner ein bwyd. Fel defnyddwyr, rydym wedi dod i arfer gyda'r ffaith bod ffrwythau a llysiau ar gael drwy gydol y flwyddyn. Mae manwerthwyr wedi 'dilyn yr haul' i ddarparu bwyd ar adegau ac o leoedd na fyddai cenedlaethau blaenorol erioed wedi profi. Er bod yr UE yn llywodraethu ar gyfer ein mewnforion a'n hallforion bwyd-amaeth yn gyffredinol, mewn rhai categoriau cynnyrch, mae cadwyni cyflenwi yn llawer mwy amrywiol. Mae gwledydd sy'n datblygu yn gyfran gymharol fach o'n masnach ond serch hynny maent yn bartneriaid masnachu gwerthfawr. Mae o fudd i ni gryfhau'r cysylltiadau hynny dros amser, arallgyfeirio ein cyflenwad bwyd, cefnogi ein nodau diogelwch bwyd a chefnogi ffyniant economaidd y cenhedloedd hynny.


## 11.1 Cynllun Dewisiadau Cyffredinol

Mae Llywodraeth y DU wedi cydnabod pwysigrwydd gwledydd sy'n datblygu mewn masnach, drwy fabwysiadu ymagwedd bolisi debyg tuag at yr UE, y Cynllun Dewisiadau Cyffredinol, sy'n golygu y bydd busnesau cymwys mewn gwledydd sy'n datblygu yn parhau i gael mynediad ffafriol i farchnadoedd y DU, drwy dariffau wedi'u lleihau neu'u diddymu. Mae'r Cynllun Dewisiadau Cyffredinol yn cefnogi twf economaidd ac yn helpu busnesau a chynhyrchwyr mewn gwledydd sy'n datblygu i gael mynediad i farchnadoedd byd-eang.

Mae'r dewisiadau hyn yn golygu y bydd y buddion y gallai gwledydd sy'n datblygu ei gael o'r polisi mewnforio rhyddfrydoli arfaethedig a nodir mewn mannau eraill yn yr adroddiad hwn (pennod 6), fod yn gyfrannol is. Mae'n anochel y bydd eu mynediad ffafriol, dros amser, yn erydu wrth i'r DU ryddfrydoli ei masnach. Fodd bynnag, mae camau eraill y gallai'r DU eu cymryd i gefnogi'r gallu i fasnachu mewn gwledydd sy'n datblygu a fyddai'n lliniaru yn erbyn hyn. Bydd yn bwysig bod Llywodraeth y DU yn meddwl yn ofalus am y canlyniadau o ran ymwahanu oddi wrth ddull yr UE neu gryfhau safonau mewnforio. Dylai sicrhau ei fod wedi ystyried yr effaith anghymesur y gallai hyn ei chael ar wledydd sy'n datblygu oherwydd yr heriau y gallent eu hwynebu wrth addasu i'r newid. Yn yr un modd, efallai y bydd rhai yn croesawu symud i ffwrdd oddi wrth unrhyw reolau'r UE y maent yn eu hystyried yn anffafriol.



# Y prif fewnforion bwyd-amaeth gan bartneriaid masnachu Affricaidd, Caribïaidd a'r Môr Tawel




Data 2019 CThEM o nwyddu amaethyddiaeth wedi'u mewnforfio (Pennodau 1-24) gan y 5 prif bartner ACP a gwledydd sy'n datblygu, yn ôl gwerth (£). https://www.uktradeinfo.com/

## 11.2 Cymorth i Fasnach

Mae 75% o bobl cymedrol dlawd y byd yn byw mewn ardaloedd gwledig; mae llawer ohonynt yn dibynnu ar eu cynaeafau i gefnogi eu teuluoedd drwy gydol y flwyddyn[38]. Mae ymrwymiad Llywodraeth y DU i gymorth byd-eang yn hanfodol ac mae'r gwaith hwn yn helpu miloedd o fusnesau a chynhyrchwyr mewn gwledydd sy'n datblygu bob blwyddyn.

Mae busnesau a chynhyrchwyr mewn gwledydd sy'n datblygu yn wynebu rhwystrau sylweddol wrth gael mynediad i farchnadoedd byd-eang. Mae rhai busnesau'n allforio'n llwyddiannus i wledydd fel y DU, gan gyrraedd yr un safonau cynnyrch uchel â gwledydd eraill. Ond mae eraill yn ei chael hi'n anodd bodloni safonau domestig ac allforio a rhaid iddynt gystadlu yn erbyn diwydiannau â chymhorthdal mawr mewn gwledydd datblygedig. Ar ben hynny, mae rheoliadau a chyfyngiadau mewnforio, a osodir gan wledydd mwy datblygedig, yn cynyddu costau masnach ar gyfer busnesau sy'n lleihau eu cystadleugarwch mewn marchnadoedd byd-eang. Mae ffermwyr sy'n fenywod yn aml yn wynebu rhwystrau uwch i fynediad i'r farchnad, gan gynnwys diffyg mynediad at adnoddau megis tir a chyllid, er eu bod yn cyfrif am tua hanner ffermwyr bach y byd, ac yn cynhyrchu 70% o fwyd Affrica[39].

Dylai Llywodraeth y DU hyrwyddo strategaeth 'Cymorth i Fasnach' er mwyn helpu busnesau i fodloni safonau allforio a lleihau costau masnach. Dylai'r Llywodraeth flaenoriaethu cefnogi busnesau mewn gwledydd sy'n datblygu i fodloni'r safonau domestig i ddechrau, ac yna safonau allforio. Mae'r Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu (FCDO) a'r Adran Masnach Rhyngwladol eisoes yn cydweithio'n agos i gefnogi busnesau yn y maes hwn, a dylai'r Llywodraeth anelu at alinio cyllidebau a thimau ymhellach ar draws y llywodraeth wrth gyflawni'r nod hwn. Dylai'r rhaglenni hyn flaenoriaethu gweithdrefnau a gorfodaeth cydymffurfio ategol mewn gwledydd yn hytrach na phrosiectau gweledol uchel yn unig. Gan fod pob busnes cymwys mewn gwledydd sy'n datblygu yn cael yr un mynediad ffafriol i farchnadoedd y DU, mae angen cyfeirio'r cymorth hwn at fusnesau llai a chynhyrchwyr tlotach i sicrhau bod trethdalwyr y DU yn cefnogi'r rhai sydd â'r angen mwyaf.

## 11.3 Gwerth ychwanegol

Ceir mynediad i'r dull dim tariff, dim cwota, a gynigir gan Gynllun Dewisiadau Cyffredinol y DU gan y 47 gwlad lleiaf datblygedig. Ar gyfer gwledydd datblygol eraill, mae Cynllun Dewisiadau Cyffredinol y DU yn cynnig gostyngiadau tariff neu ddidymu sydd, yn y sector amaethyddol, yn cynnwys nwyddau crai, ond yn eithrio rhai cynhyrchion wedi'u prosesu a chynhyrchion terfynol. Mae hyn yn atal cynhyrchu gwerth ychwanegol yn y gwledydd hynny, a dyna lle mae cyfran fawr o'r elw o'r cynnyrch terfynol yn deillio. Yn hytrach, bydd busnesau mewn gwledydd datblygedig yn aml yn mewnforio deunyddiau o wledydd sy'n datblygu, yn eu prosesu a'u pecynnu, cyn eu gwerthu mewn marchnadoedd byd-eang, gan fanteisio ar y buddion. Er enghraifft, mae'r Almaen, er gwaethaf y ffaith nad yw'n tyfu ffa coffi, ymhlith yr allforwyr coffi mwyaf yn y byd[40].

Bydd datblygiad yn fwy cynaliadwy yn y tymor hir os gall economi ddibynnu ar gynhyrchu pellach, ychwanegu gwerth, yn hytrach nag allforio nwyddau crai. Dylai'r DU archwilio'r holl gyfleoedd i hyrwyddo cynhyrchu terfynol mewn gwledydd sy'n datblygu a, thrwy hyrwyddo rhyddfrydoli masnach mewn fforymau byd-eang, helpu i sicrhau bod y busnesau hynny yn gallu cystadlu mewn system fasnachu fyd-eang deg. Bydd hyn yn creu twf economaidd cynaliadwy ac yn lleihau anghydraddoldebau rhwng gwledydd yn y tymor hir. Yn y tymor byrrach, yn ogystal â'r Cynllun Dewisiadau Cyffredinol, dylai Llywodraeth y DU barhau i weithredu 'Cymorth i Fasnach' sy'n canolbwyntio ar gefnogi busnesau i fodloni safonau, lleihau costau masnach a sicrhau bod sectorau bwyd-amaeth mewn gwledydd sy'n datblygu yn gallu gwrthsefyll hinsawdd.

## 11.4 Perthnasau'r dyfodol

Erbyn hyn mae gan y DU gyfle i ddechrau ar gyfnod newydd o fasnachu ac i adolygu ac ail-lunio ei pherthnasoedd masnachu. Mae COVID-19 wedi dangos i ni fod ein cadwyni cyflenwi yn parhau'n wydn, hyd yn oed pan fyddant yn wynebu aflonyddwch aruthrol. Ond nid yw hynny'n golygu nad yw cadwyni cyflenwi o dan bwysau. Gall breguster ddeillio o newidiadau economaidd byd-eang, a chlefydau a risgiau amgylcheddol, ac o effaith sylweddol newid hinsawdd, lle bydd gwledydd sy'n datblygu yn fwyaf agored i niwed.

Mae nawr yn amser da i'r DU bwyso a mesur ei pherthynas a'r cyfleoedd a'r risgiau sy'n gysylltiedig â nhw. Dylai llywodraeth y DU ysgogi ei rhwydwaith tramor i ymgysylltu'n rhagweithiol â busnesau a llywodraethau mewn gwledydd sy'n datblygu. Dylai asesu'r sefyllfa bresennol yn eu cadwyni cyflenwi amaethyddol a'r newidiadau byrdymor a hirdymor a allai fod ar y gweill. Byddai'r ymgysylltiad hwn yn galluogi Llywodraeth y DU i dargedu ei gweithgarwch a chefnogaeth masnach a chymorth yn y dyfodol, a hefyd yn trosglwyddo gwybodaeth i fusnesau'r DU i helpu gyda chynllunio masnach yn y tymor hir.

## 11.5 Arallgyfeirio

Dylai Llywodraeth y DU barhau i gefnogi busnesau a chynhyrchwyr mewn gwledydd sy'n datblygu i alluogi busnesau'r DU i arallgyfeirio cynnyrch o wahanol wledydd sy'n datblygu i helpu busnesau a chynhyrchwyr yn y gwledydd hynny i barhau i fod yn broffidiol. Datgelodd COVID-19 lefelau uchel o dlodi mewn rhai gwledydd sy'n datblygu, ac roedd llawer o'u busnesau'n cael trafferth ymdopi gan nad oedd galw am eu cynnyrch mwyach. Efallai y bydd y busnesau hynny yn parhau i wynebu gostyngiad yn y galw wrth i rai defnyddwyr yn y DU ac mewn mannau eraill geisio lleihau eu cadwyni cyflenwi a dod yn agosach at eu cartrefi.

Mae datblygiad cynhyrchu amaethyddol cryf a chynaliadwy o fudd nid yn unig i wledydd sy'n datblygu, ond hefyd yn darparu cadwyni cyflenwi amgen i wledydd datblygedig. Fodd bynnag, mae'n rhaid i fusnesau yn y DU fynd ar drywydd arallgyfeirio mewn modd cyfrifol, gan sicrhau nad yw arferion cyrchu yn tanseilio diogelwch bwyd domestig nac yn annog arferion cynhyrchu anghynaliadwy gydag effeithiau negyddol ar yr amgylchedd neu hinsawdd mewn gwledydd sy'n datblygu.

## 11.6 Newid hinsawdd

Mae gwledydd sy'n datblygu yn fwy agored i ganlyniadau sylweddol yr argyfwng hinsawdd nag eraill. Bydd hyn yn arwain at ganlyniadau ar gyfer gwydnwch a sefydlogrwydd cadwyni cyflenwi yn y gwledydd hynny, gan effeithio ar gyflenwad y DU yn ei dro. Bydd buddsoddiad y DU mewn seilwaith gwyrdd a gwydnwch hinsawdd yn y gwledydd hynny yn gynyddol bwysig. Mae safonau amgylcheddol a diwydrwydd dyladwy mewn cadwyni cyflenwi yn dod yn fwyfwy llym, felly bydd angen i fusnesau ddefnyddio dulliau cynhyrchu cynaliadwy i gael mynediad at farchnadoedd byd-eang. Felly, mae'n hanfodol bod y DU yn ystyried yn ofalus y rhyngddibyniaeth rhwng gwydnwch yn yr hinsawdd a ffyniant economaidd drwy fasnachu, ac yn alinio ei pholisïau a'i chymorth ariannol yn unol â hynny.

**Argymhelliad 20:**
Dylai Llywodraeth y DU gynnal ymgysylltiad strwythuredig â llywodraethau, busnesau bwyd-amaeth ac elusennau mewn gwledydd sy'n datblygu ac â busnesau bwyd-amaeth yn y DU sydd â diddordebau mewn gwledydd sy'n datblygu. Dylai fanteisio ar yr ymgysylltiad hwn er mwyn hwyluso'r gwaith o feithrin perthnasoedd a gwell dealltwriaeth ynghylch ble y byddai buddsoddiad y DU yn cael yr effaith fwyaf cadarnhaol. Dylai hefyd fod yn sail i gydweithio agosach rhwng y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu, yr Adran Fasnach Ryngwladol a Defra ar bolisi masnach bwyd-amaeth, rheoleiddio a gweithgarwch arall.

**Argymhelliad 21:**
Dylai Llywodraeth y DU alinio ei pholisïau ynghylch masnach, cymorth a'r hinsawdd sy'n ymwneud â bwyd-amaeth. Dylai timau ar draws y llywodraeth sefydlu rhaglenni clir a phenodol i sicrhau eu bod yn cydweithio ar hyn ac yn alinio cyllidebau a blaenoriaethau. Dylid darparu cymorth penodol i fusnesau llai a chynhyrchwyr tlotach. Dylai eu helpu i wella'r gallu i wrthsefyll newid hinsawdd. Dylai eu helpu i fodloni safonau mewn marchnadoedd allforio fel y byddant yn gallu cael gwell mynediad at fanteision masnach fyd-eang. Dylai hefyd gael ei dargedu tuag at eu helpu i symud i faes 'gwerth ychwanegol' a geir o brosesu a phecynnu eu nwyddau crai eu hunain, a fydd yn creu twf economaidd parhaol.

38 https://openknowledge.worldbank.org/handle/10986/25161#:~:text=The%20face%20of%20poverty%20is,with%20three%20or%20more%20children
39 Sefydliad Bwyd ac Amaeth a CARE, 2019, Good Practices for Integrating Gender Equality and Women's Empowerment in Climate-Smart Agriculture Programme, Atlanta, tt108, trwydded: CC BY-NC-SA 3.0 IGO: http://www.fao.org/3/ca3883en/ca3883en.pdf
40 https://www.cbi.eu/market-information/coffee/germany/market-potential

Rhagolygon hirdymor Rhagolygon hi

hirdymor Rhagolygon hirdymor Rhag

Rhagolygon hirdymor Rhagolygon hi

hirdymor Rhagolygon hirdymor Rhag

hirdymor Rhagolygon hirdymor Rhag

Rhagolygon hirdymor Rhagolygon hi

Rhagolygon hirdymor Rhagolygon hi

hirdymor Rhagolygon hirdymor Hird

Rhagolygon hirdymor **Rhagolygon** hi

hirdymor rhagolygon **hirdymor** Rhag

Rhagolygon hirdymor Rhagolygon hi



# 12. Rhagolygon hirdymor

## 12.1 Cyfle i lunio safonau byd-eang

Mae'r DU bellach yn dechrau ar gyfnod masnach newydd a bydd angen polisi uchelgeisiol newydd arno. Un sy'n seiliedig ar fod yn wirioneddol agored i ryddfrydoli economaidd ac a fydd yn anfon arwydd i'r byd ein bod yn agored i berthnasau masnachu newydd ac i gryfhau ein rhai presennol. Mae'r DU yn bwrw ymlaen yn gyflym i drafod Cytundebau Masnach Rydd, er mwyn sicrhau y gallwn fanteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael i ni nawr ein bod wedi gadael yr UE. Mae arnom angen dull hirdymor o gyflawni masnach gynaliadwy a phroffidiol dros nifer o flynyddoedd.

Yn y cyfamser, ni fydd y drychiad byd-eang o safonau, a fyddai'n ein gwobrwyo yn y pen draw, yn dod yn gyflym. Bydd angen ymrwymiad hirdymor i ymgysylltu, meithrin perthnasau, cyfnewid gwyddoniaeth a diplomyddiaeth.

Bydd ymgysylltu â fforymau byd-eang yn bwysig er mwyn sicrhau bod amcanion yn cael eu halinio, er mwyn adeiladu clymblaid o bartneriaid tebyg o fewn y fframweithiau safonau rhyngwladol. Mae'r DU eisoes yn gwneud gwaith sylweddol ar draws nifer o fforymau, gan gynnwys y G20, Sefydliad Masnach y Byd a Sefydliad y Byd ar gyfer Iechyd Anifeiliaid (OIE), a gwnaethom gyfarfod â rhai o'r rheini sy'n ymwneud â'r fforymau hynny yn ystod ein trafodaethau. Dylai llywodraeth y DU sicrhau lefel briodol o gynrychiolaeth a dylanwad mewn mecanweithiau megis y Fforwm Byd-eang ar Ddiogelwch Bwyd a'r Pwyllgor ar Ddiogelwch Bwyd y Byd yn y Cenhedloedd Unedig.

Yn yr holl fforymau hyn, dylai'r DU barhau i godi a hyrwyddo arfer gorau o ran safonau a chydymffurfiaeth. Mae Codex Alimentarius, Sefydliad y Byd ar gyfer Iechyd Anifeiliaid a'r Confensiwn Diogelu Planhigion Rhyngwladol (IPPC) yn darparu safonau 'barod i'w defnyddio' y gellir eu mabwysiadu'n unochrog, er enghraifft lefelau terfyn gweddillion uchaf. Ynghyd â Sefydliad Masnach y Byd, mae'r cyrff gosod safonau rhyngwladol hyn yn cynnig llwyfannau ar gyfer deialog a chymhorthion parhaus wrth ragweld materion newydd ar lefel dechnegol. Maent hefyd yn helpu i gysoni dulliau ac yn helpu i sefydlu iaith gyffredin. Mae'r sefydliadau hyn yn dibynnu ar dros 100 o aelodau yn gwneud penderfyniadau cydsyniol, ac felly gall cynnydd fod yn araf ac yn aml gall arwain at gyfaddawdu canlyniadau neu safonau nad ydynt yn adlewyrchu polisi'r DU yn llawn. Mae'r defnydd o safonau hefyd, yn y pen draw, yn ddewisol.

Yn gyffredinol, dylid osgoi mesurau unochrog a fyddai'n tanseilio gallu'r DU i arwain trafodaethau rhyngwladol, ond dylai Llywodraeth y DU fod yn barod i fabwysiadu mesurau unochrog lle mai nhw yw'r unig ddull effeithiol o gyflawni amcanion polisi perthnasol y DU.

Ond mae angen i ni godi ein gêm. Rhaid i'r DU fod yn arweinydd mewn trafodaethau byd-eang os ydym am fod yn wirioneddol lwyddiannus. Yn aml, nid oes digon o bwyslais yn cael ei roi ar ein cynrychiolaeth mewn fforymau. Os yw llywodraeth y DU yn cymryd ei strategaeth 'Prydain Fyd-eang' o ddifrif, dylai gynnwys yr arbenigwyr gorau mewn fforymau bwyd-amaeth rhyngwladol, gyda chefnogaeth timau ac ymchwilwyr yn y DU, a'i chefnogi gan ymgysylltiad cryf gan wleidyddion.

Mae cymuned sefydliad anllywodraethol (NGO) y DU eisoes yn darparu mewnbwn cryf i gyrff gosod safonau rhyngwladol. Dylai llywodraeth y DU gydnabod a chefnogi gweithgareddau rhyngwladol cyrff anllywodraethol lle mae achos cyffredin.

**Argymhelliad 22:**
Dylai Llywodraeth y DU fabwysiadu dull mwy beiddgar, mwy hyderus a mwy amlwg o weithio gyda gwledydd o'r un meddylfryd neu mewn trafodaethau lluosog neu amlochrog. Dylai gymhwyso hyn i ddylanwadu ar ddiwygiadau angenrheidiol i reolau rhyngwladol masnach a safonau. Dylai'r amcanion hyn gael eu hymgorffori mewn strategaeth gyffredin fel y gellir eu defnyddio yn yr holl drafodaethau a fforymau amlochrog perthnasol. Dylid cydnabod a chefnogi gweithgareddau rhyngwladol sefydliadau anllywodraethol (cyrff anllywodraethol) pan fyddant yn rhannu'r un weledigaeth.

**“ni fydd y drychiad byd-eang o safonau, a fyddai'n wobr yn y pen draw, yn dod yn gyflym.”**

## 12.2 Myfyrdodau ar dueddiadau'r dyfodol

### Newid blaenoriaethau defnyddwyr

Dylid diogelu polisi masnach at y dyfodol. Dylai llunwyr polisi gofio nid yn unig natur ddeinamig marchnadoedd rhyngwladol, ond hefyd blaenoriaethau newidiol defnyddwyr, yn enwedig cenedlaethau iau a fydd â phŵer prynu yn y dyfodol.

Canfuom fod defnyddwyr iau yn gwerthfawrogi bwyd fel rhan bwysig o fywyd cymdeithasol a diwylliannol. Mae llawer o bobl ifanc yn postio ar y cyfryngau cymdeithasol wrth fwyta allan ac yn gweld eu bwyd fel rhan annatod o ffordd o fyw iach a chynaliadwy. Mae rhai yn gwneud penderfyniad ymwybodol i leihau faint o gig a chynnyrch llaeth maen nhw'n ei fwyta, naill ai am resymau iechyd, neu am eu bod yn pryderu am les anifeiliaid neu newid hinsawdd. Mae'r farchnad fwyd sy'n seiliedig ar blanhigion yn tyfu'n gyflym wrth i bobl newid i fwy o ddeietau 'hyblyg'[41].

Mae defnyddwyr wedi newid eu hymddygiadau gan fod mwy o wybodaeth ar gael ar-lein neu drwy gyfryngau amrywiol am effaith cynhyrchu bwyd. Mae pobl ifanc yn tyfu i fyny gyda mwy o wybodaeth am newid hinsawdd, lles anifeiliaid a cham-drin llafur moesegol mewn cadwyni cyflenwi. Mae'r rhain wedi dylanwadu ar eu hymddygiad prynu ac maent hefyd wedi annog eu rhieni i wobrwyo cynhyrchwyr y gellir gwirio eu bwyd yn gynaliadwy ac yn foesegol. Mae ymwybyddiaeth gynyddol hefyd o ansicrwydd bwyd yn y DU ac awydd i'r llywodraeth fod yn fwy ymroddedig i ddelio â'r mater.

Dylai Llywodraeth y DU ystyried y patrymau newidiol hyn wrth adeiladu strategaeth fasnach hirdymor sydd â'r defnyddiwr, yn ogystal â buddiannau busnes, wrth ei wraidd.

### COFID-19

Bydd etifeddiaeth pandemig COVID-19 yn hirdymor. Mae tlodi bwyd cynyddol a heriau fforddiadwyedd yn peri pryder mawr. Mae rhywfaint o bryder ymhlith y cyhoedd eisoes y bydd yn rhaid i Lywodraeth y DU fewnforio bwyd gyda chostau is a safon is i'r DU er mwyn cynnal diogelwch bwyd cenedlaethol, neu bod hyd yn oed disgwyliad y bydd gwrthwynebiad y cyhoedd i safonau bwyd is yn gwanhau. Mae ein hymchwil yn awgrymu nad yw hyn yn wir. Mae Llywodraeth y DU eisoes wedi ymrwymo na fydd hyn yn digwydd. Rydym yn cytuno ac yn cefnogi hyn. Mewn unrhyw achos, byddai enillion tymor byr o ostwng safonau polisi mewnforio'r DU yn erydu proffidioldeb y diwydiant bwyd domestig ac, yn y tymor hwy, byddwn mewn sefyllfa llawer gwaeth.

Dylai Llywodraeth y DU hefyd edrych ar wersi 2020 a'r ffordd yr ymatebodd y gadwyn gyflenwi bwyd domestig i bandemig COVID-19. Roedd crebachu enfawr mewn marchnadoedd gwasanaeth bwyd mewn rhai sectorau, ond nid pob un ohonynt, yn cael eu lletya drwy gynyddu mewnbwn yn y farchnad adwerthu ddomestig. Yn aml, digwyddodd hyn gyda chymorth y llywodraeth. Dangosodd hyn ei bod yn bosibl ymateb yn gyflym a bod yn hyblyg wrth gyflenwi marchnadoedd domestig, a ystyriwyd yn rhy feichus yn y gorffennol oherwydd rheoleiddio.

Un wers sydd wedi'i hatgyfnerthu gan ein profiad o'r pandemig yw na ddylem fyth gymryd ein cyflenwad bwyd yn ganiataol.



41 Y Llwybr at Net Sero, 2020: https://www.climateassembly.uk/report/

# Atodiadau

**Atodiad 1: Aelodau'r Gweithgor**

**Atodiad 2: Rhestr o Ddigwyddiadau Ymgysylltu â Rhanddeiliaid**

**Atodiad 3: Cylch Gorchwyl**

**Atodiad 4: Gwybodaeth Atodol ar gyfer Pennod 6**

## Atodiad 1: Aelodau'r Gweithgor

### Gweithgor Defnyddwyr

Dan gadeiryddiaeth Kate Nicholls OBE, UKHospitality.

1. David Bowles, RSPCA
2. Sarah Bradbury, Tesco
3. Sue Davies MBE, Which?
4. Caroline Drummond MBE, Linking Environment and Farming (LEAF)
5. Andrew Kenny, Just Eat
6. Y Fonesig Theresa Marteau, Prifysgol Caergrawnt
7. Caroline Mason, Co-op
8. Edward Morgan, Castell Howell
9. Kate Thompson, Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd (CIEH)
10. James Withers, Scotland Food and Drink

### Gweithgor Cystadleugarwch

Dan gadeiryddiaeth Nick von Westenholz, NFU.

1. Nick Allen, British Meat Processors Association
2. Ash Amirahmadi, Arla
3. Martin Bell, Scotch Whisky Association (SWA)
4. Richard Clothier, Wyke Farms
5. Meredith Crowley, Prifysgol Caergrawnt
6. Katie Doherty, Cymdeithas Masnach Cig Rhyngwladol (IMTA)
7. Dominic Goudie, Ffederasiwn Bwyd a Diod (FDF)
8. Richard Griffiths, British Poultry Council
9. Phil Hadley, AHDB
10. David Henig, Prosiect Polisi Masnach y DU
11. Patrick Holden CBE, Sustainable Food Trust
12. John Hood, Invest Northern Ireland
13. Cecilia Pryce, Openfield
14. Emily Rees, ECIPE a Strategaethau Masnach
15. Andy Richardson, Volac
16. Robert Sheasby, Cydffederasiwn y Diwydiannau Amaethyddol
17. John Shropshire OBE, G's Produce
18. Fiona Wright, Seafish

### Gweithgor Safonau

Dan gadeiryddiaeth Nigel Gibbens CBE, Cyn Brif Swyddog Milfeddygol.

1. Wesley Aston, Undeb Amaethwyr Ulster
2. Tim Benton, Chatham House
3. Helen Crews OBE, cyn APHA
4. Simon Doherty, Cymdeithas Milfeddygol Prydain
5. David Gibson, Moy Park
6. Rob Hodgkins, Ffermwr Cymysg
7. John Mercer, Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru
8. Jim Moseley, Red Tractor
9. Martin Nesbit, Ymgynghorydd Polisi Amgylcheddol
10. Shanker Singham, Competere
11. Syr Lockwood Smith, Cyn Weinidog Masnach ac Amaethyddiaeth Seland Newydd
12. Peter Stevenson, Compassion in World Farming
13. Sophie Throup, Morrisons

# Atodiad 2: Rhestr o Ddigwyddiadau Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

| | |
|---|---|
| 09 Hydref 2020 | Bord Gron ar Les Anifeiliaid |
| 12 Hydref 2020 | Bord Gron yr Amgylchedd |
| 15 Hydref 2020 | Sioe Deithiol De Orllewin Lloegr |
| 19 Hydref 2020 | Sioe Deithiol Dwyrain Lloegr |
| 20 Hydref 2020 | Sioe Deithiol Llundain a De Ddwyrain Lloegr |
| 21 Hydref 2020 | Sioe Deithiol Gogledd Iwerddon |
| 22 Hydref 2020 | Sioe Deithiol Cymru |
| 29 Hydref 2020 | Sioe Deithiol yr Alban |
| 06 Tach 2020 | Bord Gron Masnachu Moesegol |
| 10 Tach 2020 | Sioe Deithiol Gogledd Lloegr |
| 10 Tach 2020 | Sioe Deithiol Canolbarth Lloegr |
| 12 Tach 2020 | Briffio AS |
| 18 Tach 2020 | Briffio Cyfoedion |
| 23 Tach 2020 | Briffio cyffredinol i randdeiliaid |

Galwad am Arolwg Tystiolaeth: 1 Hydref 2020 - 13 Tachwedd 2020

# Atodiad 3: Cylch Gorchwyl

## 1. Cyflwyniad

Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu polisïau masnach a fydd yn sicrhau ein ffyniant a'n cyfoeth hirdymor. Mewn ymgynghoriad â'r diwydiannau amaethyddiaeth a chynhyrchu bwyd, ein nod yw datblygu swyddi a pholisïau masnachu sy'n hybu twf a chyfleoedd i'n masnachwyr, cynhyrchwyr bwyd a defnyddwyr ledled y DU tra'n sicrhau hefyd bod y DU yn parhau i chwarae rhan flaenllaw mewn materion amaethyddiaeth ryngwladol. Ni fyddwn yn cyfaddawdu ein safonau uchel o ran lles, cynhyrchu a ffermio anifeiliaid a byddwn yn sicrhau bod sector amaethyddiaeth y DU ymhlith y mwyaf cystadleuol ac arloesol yn y byd.

Y diwydiannau amaeth a bwyd yw ein sectorau gweithgynhyrchu mwyaf, sy'n cyflogi mwy na 4 miliwn o bobl ac yn cyfrannu £120 biliwn i'n heconomi. Bydd y Comisiwn hwn yn chwarae rhan hanfodol yn cynghori ar sut i greu twf pellach ac ysgogi'r golofn hollbwysig hon o'n heconomi.

Bydd y Comisiwn, yn ei rôl ymgynghorol, yn gallu darparu golwg gyflym a hyblyg wrth i ni ddatblygu polisïau masnach sy'n deg ac yn gystadleuol i'n cynhyrchwyr, masnachwyr a defnyddwyr.

## 2. Nodau

Bydd y Comisiwn Masnach ac Amaethyddiaeth (TAC) yn gweithredu fel bwrdd ymgynghorol annibynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach Ryngwladol drwy gynhyrchu adroddiad sy'n:

- ystyried y polisïau y dylai llywodraeth eu mabwysiadu mewn cytundebau masnach rydd er mwyn:
    - sicrhau cyfleoedd i ffermwyr y DU
    - sicrhau bod y sector yn parhau'n gystadleuol
    - sicrhau nad yw safonau lles anifeiliaid a safonau'r amgylchedd gyda chynhyrchu bwyd yn cael eu tanseilio
- adlewyrchu buddiannau defnyddwyr a buddiannau gwledydd sy'n datblygu
- ystyried sut y dylai'r DU gynnwys Sefydliad Masnach y Byd i ddatblygu cynghrair a fyddai'n helpu i ddatblygu safonau lles anifeiliaid uwch ledled y byd
- datblygu polisi masnach a fyddai'n nodi ac yn agor cyfleoedd allforio newydd i ddiwydiant amaethyddol y DU, yn enwedig i fusnesau bach a chanolig eu maint, ac o fudd i economi'r DU yn gyffredinol

## 3. Y tu allan i'r maes

Bydd y grŵp yn hysbysu'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach Ryngwladol ond ni fydd yn pennu polisi'r llywodraeth. Nid yw'n gorff gwneud penderfyniadau. Nid oes gan y grŵp gylch gwaith i drafod rheoleiddio a pholisi diogelwch bwyd a phorthiant anifeiliaid ar draws y gadwyn fwyd gyfan sy'n cael ei rheoleiddio gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Food Standards Scotland a'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

## 4. Amseru ac adrodd

Mae gan y Comisiwn Masnach ac Amaethyddiaeth gyfnod penodol o chwe mis. Ar ddiwedd y tymor, bydd yn cyflwyno adroddiad ymgynghorol, a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Senedd gan yr Adran Masnach Ryngwladol.

# Atodiad 4: Gwybodaeth Atodol ar gyfer Pennod 6

**Esboniad:** Mae'r atodiad hwn yn darparu cyfuchliniau eang dull gweithredu, nid manylion y trefniadau gweinyddol, a fyddai'n fater i Lywodraeth y DU benderfynu arnynt.

## 1. Atodiad ar Fecanwaith Ystumio

*Mae tariffu'r ystumio* yn fecanwaith, y gellid ei ddefnyddio mewn polisi masnach i ddelio â sefyllfaoedd lle mae gwledydd wedi cytuno i ostwng tariffau mewn cytundebau masnach rydd, ond wedyn yn mynd ymlaen i ddiogelu eu marchnadoedd a rhoi mantais artiffisial i'w cynhyrchwyr trwy ystumio eu marchnadoedd.

Canlyniad y mecanwaith yw tariff yn seiliedig ar raddfa'r ystumiad, sy'n gweithredu i unioni masnach. Gellir defnyddio'r mecanwaith yn dramgwyddus, lle mae gwlad yn atal mynediad i'r farchnad gan y DU trwy ystumiad y farchnad, neu yn amddiffynnol lle mae ystumiad mewn marchnad dramor yn arwain at fwy o allforion o'r farchnad honno. Mae'r mecanwaith isod yn dangos sut y gellir cymhwyso hyn yn amddiffynnol. Yn dramgwyddus, rydym yn rhagweld darpariaethau ar ystumiadau mewn cytundebau masnach sy'n disgyblu eu defnydd, ac yn caniatáu datrys anghydfod pan fyddant yn cael eu cymhwyso yn groes i'r cytundeb.

Mae'r mecanwaith ACMD a gynigir yn ychwanegol at feddyginiaethau masnach cyffredin megis Gwrth-lwytho (AD) a dyletswyddau gwrthbwyso (CVD) (AD/CVD) sy'n parhau i fod yn gymwys. Dylai ddal llawer mwy o enghreifftiau o anghydbwysedd mewn cydraddoldeb cyfle cystadleuol sy'n deillio o'r ystumiadau a drafodwn na'r mecanweithiau AD/CVD pur.

### Mecanwaith Amddiffynnol

I ddechrau, mae angen dangos cyswllt achosol trwy dystiolaeth sy'n dangos bod mewnforion wedi achosi niwed i ddiwydiant domestig, fel y byddai'r achos dros unioni masnach safonol. Mae'n rhaid penderfynu ar hynny drwy ymchwiliad gan ddefnyddio meini prawf a gweithdrefnau penodol a nodir yn y cytundebau Sefydliadau Masnach y Byd perthnasol. Mae'r mecanwaith yn adeiladu ar fecanwaith unioni masnach presennol ond mae'n cynnwys ymagwedd at ystumiad marchnad gwrth-gystadleuol (ACMDs), sy'n cynnwys elfennau eraill y tu hwnt i fecanweithiau Sefydliad Masnach y Byd presennol, ond y gellid eu cytuno mewn Cytundebau Masnach Rydd gyda phartneriaid tebyg.

Byddai'n rhaid i wlad dramgwyddedig ddangos:

1. ystumiad marchnad (gwyriad oddi wrth safon gytunedig mewn Cytundeb Masnach Rydd neu norm, rheol neu safon sydd wedi'i gytuno'n rhyngwladol, yn gyson gyda rheolau SPS a TBT). Yn ogystal â'r achosion uchod, gallai ystumiad marchnad gwrth-gystadleuol (ACMD) ddeillio o'r rhanddirymiad bwriadol o gyfraith gwlad ei hun er mwyn hyrwyddo masnach neu fantais gystadleuol;
2. effaith ar gystadleuaeth;
3. allforion gormodol o ganlyniad i'r ystumio; a
4. difrod i'w gynhyrchwyr.

Er mwyn bodloni'r pedwar prawf uchod, dyma fyddai'r cwestiynau i'w datrys:

1. a oes naill ai safon ryngwladol, sy'n cwmpasu'r mater, neu safon gysylltiedig a gytunwyd o fewn y Cytundeb Masnach Rydd?
2. a yw gwlad X yn gwyro oddi wrth y safon honno ar gyfer masnach neu fantais gystadleuol?
3. a oes effaith ar fasnach a chystadleuaeth? I gyd-fynd â darpariaethau Cytundeb Cyffredinol ar Dariffau a Masnach eraill, gallai hyn fod yn brawf cyfle cystadleuol cyfartal;
4. a oes gormod o allforion o Wlad X i wlad Y o ganlyniad? a
5. a yw cynhyrchwyr gwlad Y yn cael eu heffeithio'n wael ac a allwch chi brofi difrod ac achosiad?

Os mai 'oes/ydi/ yw'r ateb i'r holl gwestiynau uchod, yna gellir cymhwyso'r mecanwaith tariffeiddio.

### Enghraifft Arbennig o'r Cytundeb Masnach Rydd

Byddai'r partïon yn cytuno ar gyfres o safonau eang yn y Cytundeb Masnach Rydd mewn maes penodol o ddiddordeb iddynt. Byddai unrhyw reoliad neu reol dechnegol a oedd yn cyfateb i'r safon honno (yn ystyr SPS - sy'n golygu cyflawni'r canlyniad yn wrthrychol) yn bodloni'r ddarpariaeth, ond byddai gwyriadau o'r rheini yn agored i'r mecanwaith a gynigir. Er enghraifft, pe bai'r partïon yn cytuno ar safon yn y Cytundeb Masnach Rydd y mae un parti wedi gwyro oddi wrtho (y tu allan i ffiniau cywerthedd), yna gallai cynhyrchydd sydd wedi'i niwedio yn y farchnad mewnforio ddod ag achos o dan y mecanwaith ACMD ar gyfer tariff fel y trafodwyd yn yr adran uchod.

### Enghraifft Theori Masnach Gyffredinol

Er enghraifft: Mae pob gwlad yn ymrwymo i gytundeb rhyngwladol ar newid hinsawdd, ac mae gan y cytundeb hwnnw ddarpariaethau penodol sy'n ymwneud â thargedau allyriadau. Dyma yw Darpariaeth X.

Mae Gwlad A yn mabwysiadu Cyfraith, Y, na all gyflawni Darpariaeth X yn wrthrychol. Enghraifft amlwg yw cymorthdaliadau i ddiwydiannau sy'n cynhyrchu allyriadau sylweddol, fel y byddai allyriadau cyffredinol yn codi, nid yn disgyn, yn y wlad honno o ganlyniad uniongyrchol i'r cymhorthdal.

O ystyried bod Gwlad A yn lofnodwr i'r cytundeb rhyngwladol, gellid ystyried ei Gyfraith, Y, yn amodol ar y profion uchod, fel ACMD. Byddai'r Gyfraith, Y, yn arwain at allforion gormodol (dros yr hyn a fyddai wedi cael eu hallforio pe na bai'r Gyfraith, Y, yn ei le, ac yn hytrach roedd Cyfraith yn ei le a gyflwynodd Darpariaeth X). Felly gallai Gwlad B, mewnforiwr allforion A dariffu'r ACMD yn y modd a amlinellir uchod. Pe bai Gwlad A yn tynnu ei Gyfraith yn ôl, Y, yna byddai'r tariff yn mynd i lawr i'r gyfradd ffafriol, o dan fecanwaith ychwanegol a oedd yn caniatáu i'r wlad yr oedd ei allforwyr yn ddarostyngedig i'r tariff, wneud cais am brawf o gael gwared ar yr arfer ystumio.

## Ymwadiad cyfreithiol

Mae'r barn a fynegir yn yr adroddiad hwn yn rhai aelodau'r Comisiwn Masnach ac Amaethyddiaeth ym mis Mawrth 2021. Nid ydynt o reidrwydd yn adlewyrchu barn Llywodraeth Ei Mawrhydi nag unrhyw sefydliad arall. Lle bo pob ymdrech wedi'i gwneud i sicrhau bod yr wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir, nid yw'r Comisiwn Masnach ac Amaethyddiaeth yn cymryd atebolrwydd am unrhyw gamgymeriadau, hepgoriadau neu ddatganiadau camarweiniol, ac ni roddir unrhyw warant ac ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb am safbwynt unrhyw unigolyn, cwmni, neu sefydliad y sonnir amdanynt.

## Hawlfraint

Gallwch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (ddim yn cynnwys logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored.

I weld y drwydded hon, ewch i:
**www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence**
neu **e-bost: psi@nationalarchives.gov.uk.**

Lle'r ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti yn y deunydd yr hoffech ei defnyddio, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeilia(i)d yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael ar:
**https://www.gov.uk/government/publications/trade-and-agriculture-commission-tac**

Dylid anfon unrhyw ymholiadau yn ymwneud gyda'r cyhoeddiad hwn at yr Adran Fasnach Ryngwladol ar **TACInfo@trade.gov.uk**